

Camfanteisio Troseddol ar Blant yng Nghymru

Nina Maxwell a Catrin Wallace
Tachwedd 2021

Diolchiadau

Dymuna'r tîm ymchwil ddiolch i Ymchwil Gofal Iechyd Cymru am gyllido'r ymchwil hwn.

Hoffem hefyd ddiolch i'r amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol a roddodd gymorth i ni wrth lunio a datblygu'r ymchwil hon o'r cychwyn cyntaf i ymgymryd â chasglu data. Mae hyn yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol a roddodd o'u hamser i siarad â ni.

Rydym yn arbennig o ddyledus i'r plant a'r rhieni a gytunodd i siarad â ni am brofiadau anodd yn eu bywydau.

Yn olaf, hoffem gydnabod cyfraniad y grŵp cynghori ymchwil at yr astudiaeth, sy'n cynnwys plant, rhieni a gweithwyr proffesiynol.

Cynnwys

Diolchiadau.....	2
Cynnwys	3
1.0 Crynodeb.....	6
1.1 Cyflwyniad	6
1.2 Dull	6
1.3 Prif ganfyddiadau	6
1.3.1 Sut mae camfanteisio ar blant yn amlygu ei hun yng Nghymru? Canfyddiadau pobl broffesiynol.....	6
1.3.2 Beth sy'n gwneud plant yn agored i gael eu hecsbloetio? Llais plant	7
1.3.3 Sut mae plant yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn? Canfyddiadau rhieni	7
1.3.4 Dulliau ac ymyriadau effeithiol o ran camfanteisio troseddol ar blant. Canfyddiadau pobl broffesiynol.....	8
1.3.5 Dulliau ac ymyriadau effeithiol o ran camfanteisio troseddol ar blant. Canfyddiadau rhieni.....	9
1.3.6 Dulliau ac ymyriadau effeithiol o ran camfanteisio troseddol ar blant. Canfyddiadau gan blant.....	10
1.4 Trafodaeth	10
2.0 Cyflwyniad	12
3.0 Dulliau	17
3.1 Cyfweiliadau a grwpiau ffocws: Plant.....	17
3.2 Cyfweiliadau: Rhieni	18
3.3 Cyfweiliadau: Gweithwyr Proffesiynol.....	18
4.0 Sut mae camfanteisio ar blant yn amlygu ei hun yng Nghymru? Canfyddiadau pobl broffesiynol	22
4.1 Llinellau sirol, llinellau aneglur a chyflenwi cyffuriau lleol.....	22
4.2 Safbwyntiau ar rywedd.....	23
5.0 Beth sy'n gwneud plant yn agored i gael eu hecsbloetio? Canfyddiadau gan blant.....	26
5.1 Materoliaeth a diwylliant ieuenctid	26

5.2 Ansefydlogrwydd addysg.....	27
5.3 Dylanwad gan gyfoedion	27
5.4 Rhwymedigaeth dyledion	28
6.0 Sut mae plant yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn? Canfyddiadau rhieni	30
6.1 Pontio	30
6.2 Trwytho	32
6.3 Cyfnodau coll	33
6.4 Trais.....	34
7.0 Dulliau ac ymyriadau effeithiol o ran camfanteisio troseddol ar blant. Canfyddiadau pobl broffesiynol	35
7.1 Dulliau gweithredu yn y gymuned.....	35
7.2 Dulliau sy'n seiliedig ar wasanaethau.....	37
7.2.1 Adnabod plant	37
7.2.2 Plant sy'n derbyn gofal.....	39
7.2.3 Trothwyon gwasanaeth.....	40
7.2.4 Gweithio amlasiantaethol.....	42
7.3 Ymgysylltu â phlant a theuluoedd. Canfyddiadau pobl broffesiynol	43
7.3.1 Gweithio gyda phlant	43
7.3.2 Gweithio gyda rhieni	46
7.4 Rhwystrau sy'n seiliedig ar yr ecsbloetwyr wrth ymgysylltu â phlant. Canfyddiadau rhieni. 47	
7.5 Ffactorau sy'n seiliedig ar deuluoedd wrth ymgysylltu â gwasanaethau. Canfyddiadau'r rhieni.	49
7.5.1 Gweithio gyda theuluoedd.....	49
7.5.2 Cynnal cysylltiad	51
7.5.3 Mynd i'r afael â niwed cudd.....	53
7.6 Ffactorau sy'n seiliedig ar ieuenctid wrth ymgysylltu â gwasanaethau. Canfyddiadau gan blant.....	53

7.6.1 Ofn trais	54
7.6.2 Perthnasoedd teuluol	54
7.6.3 Dulliau ac ymatebion proffesiynol.....	55
8.0 Trafodaeth	56
9.0 Cyfeiriadau	60
Awduron a Chyfranwyr:	61
I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:	61

1.0 Crynodeb

1.1 Cyflwyniad

Mae camfanteisio troseddol ar blant yn broblem gymdeithasol a diwylliannol gymhleth sydd wedi codi oherwydd cyfuniad o ffactorau economaidd a chymdeithasol. Mae llawer o'r hyn sy'n hysbys am gamfanteisio troseddol ar blant yn ymwneud â llinellau sirol, model o gyflenwi cyffuriau lle mae unigolion, grwpiau neu gangiau troseddol wedi eu trefnu yn trin neu'n gorfodi plant ac oedolion agored i niwed i gludo a storio cyffuriau ac arian. Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gasglu lleisiau plant sydd â phrofiad byw o gamfanteisio, rhieni a gweithwyr proffesiynol ynghylch sut mae plant yn cael eu targedu, eu meithrin a'u cynnwys mewn llinellau sirol yng Nghymru. Defnyddir canfyddiadau'r adroddiad hwn i ddatblygu pecyn cymorth sy'n sail i ymateb cymunedol effeithiol gyda'r nod o wella'r canlyniadau i blant a'u teuluoedd.

1.2 Dull

Cynhaliwyd y gwaith o gasglu data rhwng mis Hydref 2020 a mis Mai 2021. Roedd y cyfnod hwn yn cyd-daro â phandemig COVID-19 a chyfyngiadau symud dilynol, ac felly cynhaliwyd yr holl waith casglu data o bell, naill ai dros y ffôn, Zoom neu Microsoft Teams. Cynhaliwyd y gwaith o gasglu data gyda thri phrif grŵp:

1. Cyfweiliadau a grwpiau ffocws a arweinir gan ymarferwyr ac a arweinir gan ymchwilwyr gyda 21 o blant a oedd â phrofiad byw o gamfanteisio troseddol.
2. Cyfweiliadau gyda 15 o rieni a oedd ag o leiaf un plentyn a oedd wedi cael ei ecsbloetio'n droseddol. Roedd hyn yn cynnwys 13 o famau a dau dad.
3. Cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda 56 o weithwyr proffesiynol yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Trafnidiaeth Prydain, gwasanaethau plant, addysg, iechyd, tai, gwasanaethau prawf, gwasanaethau troseddau ieuenctid, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru.

Er mwyn cadw pawb yn anhysbys, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio enwau ffug wrth ddyfynnu cyfranogwyr.

1.3 Prif ganfyddiadau

1.3.1 Sut mae camfanteisio ar blant yn amlygu ei hun yng Nghymru? Canfyddiadau pobl broffesiynol

- Wedi ei sbarduno gan alw parhaus i brynu amrywiaeth o sylweddau gan gynnwys canabis, cocên, sbeis a meddyginiaeth presgripsiwn, mae camfanteisio troseddol ar blant yn amlygu ei hun mewn tair prif ffordd yng Nghymru: llinellau sirol, llinellau aneglur a delio lleol.
- Gall mabwysiadu'r term llinellau sirol dynnu sylw oddi wrth blant sy'n cael eu hecsbloetio gan aelodau o'r teulu neu unigolion neu grwpiau lleol hyd yn oed lle'r oedd y grwpiau hyn yn mabwysiadu model a lefelau trais tebyg i grwpiau llinellau sirol.

- Mae presenoldeb syniadau ar sail rhyw ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio troseddol ar blant yn peri'r risg na fydd bechgyn sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol a merched sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol yn cael eu nodi na'u diogelu.
- Gall y gwahaniaeth rhwng camfanteisio troseddol ar blant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant guddio'r amrywiaeth o gyflawnwyr, gweithgareddau troseddol, a'r amrywiaeth o gamdriniaeth gorfforol a rhywiol y bydd plant yn ei ddioddef pan fyddant wedi cael eu hecsbloetio.

1.3.2 Beth sy'n gwneud plant yn agored i gael eu hecsbloetio? Llais plant

- Thema gyson ar draws y canfyddiadau oedd i ba raddau roedd plant yn cael eu hecsbloetio oherwydd yr addewid o enillion ariannol a'r honiad bod gwneud arian drwy ddelio â chyffuriau yn hawdd. Roedd hyn yn lleihau eu canfyddiadau o ran y risgiau a'r peryglon sy'n rhan annatod o'u hymwneud â'r maes.
- Cafwyd camfanteisio ar draws addysg statudol, addysg bellach ac addysg uwch. Roedd trosglwyddiadau, ymarfer cynhwysol, sancsiynau ysgol, a gwahardd o'r ysgol yn gysylltiedig â mwy o berygl o gamfanteisio.
- Roedd dylanwad cyfoedion ar blant yn arbennig o amlwg wrth iddynt ymdrechu i gadw cyfeillgarwch a statws. Gall hyn arwain at ddynwared ymddygiadau negyddol fel cymryd rhan mewn gweithgareddau delio â chyffuriau neu fathau eraill o droseddau.
- Defnyddiwyd canabis fel bachyn. Roedd hyn yn digwydd naill ai drwy gyflwyno plant i ganabis neu atgyfnerthu defnydd presennol y plentyn. Defnyddiodd gwerthwyr cyffuriau dechneg 'strapio', lle rhoddwyd cyffuriau i blant ond yna roedd disgwyl iddynt dalu amdanynt yn ddiweddarach.

1.3.3 Sut mae plant yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn? Canfyddiadau rhieni

- Er bod rhieni wedi sylwi ar newidiadau yn agweddau, ymddygiadau a grwpiau cyfoedion eu plant, roedd diffyg gwybodaeth am gamfanteisio yn golygu nad oedd hyn yn aml yn cael ei nodi, ei ddeall nac yn cael sylw.
- Daeth pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd ac addysg uwchradd i addysg bellach, a symudiadau eraill mewn ysgolion i'r amlwg fel cyfnodau tyngedfennol lle'r oedd plant yn cael eu paratoi'n amhriodol wrth iddynt ymdrechu i ffurfio cyfeillgarwch newydd.
- Daeth trwytho i'r amlwg fel offeryn meithrin craidd lle dywedir wrth y plant mai'r bobl a oedd yn manteisio arnynt yw eu 'teulu' newydd. Atgyfnerthir hyn mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, cyflwynodd y rhai sy'n camfanteisio eu hunain fel ffrindiau, modelau rôl, ac mewn rhai achosion ffigurau tadol. Yn ail, roedd y plant yn cael eu hyfforddi mewn technegau i atal eu rhieni rhag ceisio cymorth.
- Wrth edrych yn ôl, teimlai'r rhieni mai colli ambell beth pwysig oedd y dangosydd mwyaf o gamfanteisio. Fodd bynnag, ar y pryd, tybiodd rhieni bod y ffaith bod eu plant yn aros allan yn hwyr neu'n aros dros nos gyda ffrindiau yn adweithiau arferol i ffactorau fel dadleuon teuluol, rhieni yn gwahanu, grwpiau cyfoedion negyddol neu anawsterau yn yr ysgol.
- Roedd cysylltiad agos rhwng trais difrifol a chamfanteisio troseddol ar blant. Roedd plant yn ddioddefwyr ac yn gyflawnwyr trais. Roedd llawer o rieni wedi profi trais ac ymddygiad bygythiol gan eu plant ac ymweliadau bygythiol gan werthwyr cyffuriau i'w gweithleoedd neu eu cartrefi.

1.3.4 Dulliau ac ymyriadau effeithiol o ran camfanteisio troseddol ar blant. Canfyddiadau pobl broffesiynol

Dulliau yn y gymuned

- Roedd gweithwyr proffesiynol yn unfrydol bod camfanteisio troseddol ar blant yn golygu bod angen ffyrdd newydd o weithio gan fod yr arfer diogelu presennol yn canolbwyntio ar gam-drin plant o dan 12 oed o fewn teuluoedd.
- Er bod rhai awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â niwed a risg eithafol a achosir y tu allan i'r cartref ers sawl blwyddyn, mae diogelu cyd-destunol, dull sydd â'r nod o ddeall ac ymateb i niwed y tu allan i'r teulu, wedi rhoi enw ar y ffordd hon o weithio.
- Yr hyn a ymddangosai'n newydd oedd sefydlu cyfarfodydd strategaeth amlasiantaethol yn canolbwyntio ar gamfanteisio, gan gynnwys ystyried ardaloedd lle ceir problemau a dylanwad gan gymheiriaid. Roedd hyn yn peri heriau o ran y ffordd orau o goladu a deall yr wybodaeth hon fel bod dangosyddion risg yn cael eu neilltuo'n briodol, yn cael eu diweddarau, ac yn gysylltiedig ag ymatebion cymesur.
- Yn dilyn lleihau clybiau ieuenctid a gwasanaethau ieuenctid, tynnwyd sylw at yr angen i greu mannau diogel mewn cymunedau i blant. Roedd hyn yn seiliedig ar yr angen i dderbyn plant yn y gymuned gan ddefnyddio lleoedd a mannau ac ymgysylltu â'r gymuned i hyrwyddo diogelu yn y gymuned ehangach.

Ffactorau sy'n seiliedig ar wasanaethau

- Pan dynnwyd sylw'r gwasanaethau at unigolyn ifanc yn sgil cyfnod coll, roedd angen cyfweiliadau dychwelyd i gasglu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i nodi pethau a chasglu tystiolaeth yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am fanteisio ar blant.
- Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc sy'n derbyn gofal neu a fydd yn derbyn gofal yn fwy agored i gamfanteisio wrth i rwydweithiau cyffuriau fanteisio ar eu dyhead i berthyn a'r cyfle i ennill arian.
- Daeth trothwyon gwasanaeth i'r amlwg fel rhwystr i ymgysylltu â phlant. Cafodd hyn ei ddwysáu gan y ffocws ar niwed o fewn y teulu a'r heriau a wynebai gweithwyr proffesiynol wrth gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol o gamfanteisio.
- Nodwyd sawl rhwystr mewn perthynas â gwasanaethau statudol ac ymgysylltu â phlant. Roedd y rhain yn cynnwys natur gyfyngedig amser darparu gwasanaethau, glynu wrth oriau swyddfa, trosiant staff ac absenoldebau, a oedd i gyd yn amharu ar gynorthwyo plant a datblygu cysylltiadau da.
- Ystyriwyd bod ymateb strategol gyda llywodraethu clir yn hanfodol ar gyfer cydgysylltu'r gwahanol asiantaethau. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol lle methodd plant â chyrraedd trothwyon gwasanaeth ond lle'r oedd risgiau wedi eu nodi.
- Daeth gwaith amlasiantaethol i'r amlwg fel rhwystr a hwylusydd wrth ymgysylltu â phlant. Hwylusodd y broses o rannu pryderon ymhlith nifer o asiantaethau, gan gynnwys gwasanaethau plant, addysg, iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, sefydliadau'r trydydd sector a gwasanaethau troseddau ieuenctid, wrth ddatblygu cynllun priodol i fynd i'r afael â phryderon. Daeth i'r amlwg fel rhwystr posibl lle'r oedd plant a theuluoedd yn cael nifer o ymyriadau gan amrywiaeth o wahanol asiantaethau.

Ffactorau proffesiynol wrth ymgysylltu â phlant

- Nid oedd plant a oedd yn cael eu hecsbloetio'n droseddol bob amser yn ymddangos fel dioddefwyr ystrydebol, a oedd yn eu gwneud yn fwy tebygol o gael eu hystyried fel rhai a oedd yn cydsynio â'u troseddoldeb. Gwaethygydd hyn lle'r oedd plant yn amharod i ddatgelu eu bod yn cael eu hecsbloetio.
- Mae anghysondebau o ran yr oedran mae plant yn cael eu trosglwyddo i'r gwasanaethau i oedolion. Roedd hyn yn amrywio o 16 mlynedd mewn gwasanaethau ieuchyd i 25 mlynedd mewn rhai sefydliadau trydydd sector. Serch hynny, cwestiynodd gweithwyr proffesiynol i ba raddau y gallai plant â hanes o gamfanteisio wneud dewis gwybodus pan ystyriwyd eu bod yn 'oedolyn'.
- Daeth canfyddiadau cymysg i'r amlwg o ran cyhuddo plant yn ffurfiol. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol yr angen am ddull diogelu. Fodd bynnag, awgrymwyd, lle nad yw plant yn cael eu cyhuddo'n ffurfiol o dan Adran 45 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, y gallai hyn eu gadael yn agored i gael eu hecsbloetio eto. Nodwyd cyfyngiadau yn ymatebion presennol gwasanaethau i rieni gan eu bod yn cael eu hategu gan fodelau traddodiadol o amddiffyn plant pan fydd rhieni yn cyflawni niwed. Roedd hyn yn parhau â'r syniad bod diffygion yn y teulu.
- Amlygodd y canfyddiadau yr angen am newid meddylfryd tuag at weithio gyda rhieni. Yn wir, mae'r arfer presennol yn aml yn methu â chydabod natur heriol magu pobl ifanc. Pan fydd darparwyr gwasanaethau yn rhoi pwysau ychwanegol ar deuluoedd, gallai hyn olygu eu bod yn dewis i'w plentyn ddod dan ofal yr awdurdod lleol yn wirfoddol.
- Mae angen dulliau amgen sy'n canolbwyntio ar gynyddu cydnherthedd rhieni a theuluoedd yn ogystal â chynnig cymorth iddynt pan fydd eu plentyn mewn perygl o gael ei ecsbloetio. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod rhieni'n parhau i fod yn gysylltiedig â'u plant ar ôl i ddarpariaeth gwasanaethau ddod i ben.

1.3.5 Dulliau ac ymyriadau effeithiol o ran camfanteisio troseddol ar blant. Canfyddiadau rhieni

Rhwystrau sy'n seiliedig ar yr ecsbloetiwr

- Defnyddiodd yr ecsbloetwyr amrywiaeth o dechnegau i gaethiwo plant mewn perthynas lle cawsant eu hecsbloetio. Roedd y rhain yn cynnwys bod yn rhwym i ddyledion, naill ai lle mae'r grŵp llinellau sirol yn dwyn y pecyn oddi ar yr unigolyn ifanc neu lle'r oeddent yn annog plant i ddefnyddio canabis neu'n annog defnyddwyr canabis presennol i gronni symiau cynyddol o ddyled.
- Pan fydd plant yn cael eu tynnu i ddyled, gall eu rhieni neu eu brodyr a'u chwiorydd gael eu heffeithio'n andwyol. Gall hyn atal yr unigolyn ifanc rhag ceisio cymorth.
- Mae'n bosibl y bydd rhieni ofn gofyn am gymorth oherwydd bygythiadau o drais yn erbyn eu plentyn neu nhw eu hunain. Manteisiodd yr ecsbloetwyr ar ofn rhieni o wasanaethau'n ymyrryd, yn enwedig os oeddent yn pryderu y byddai eu plentyn yn cael ei gymryd i ofal neu ei arestio.
- Mae grwpiau llinellau sirol yn datgysylltu plant oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau ac yn eu hyfforddi i wneud honiadau ffug o gamdriniaeth yn erbyn eu rhieni i'w hatal rhag ceisio cymorth gan wasanaethau.

Ffactorau sy'n seiliedig ar y teulu

- Teimlai'r rhieni fod eu pryderon yn cael eu diystyru, yn enwedig mewn perthynas â chynodau coll lle'r oedd eu plant dros 17 oed. Pan oedd plant dros 18 oed, dywedodd rhieni nad oedd ganddynt hawl i dderbyn gwybodaeth na chael gwybod a oedd eu plentyn yn ymgysylltu â gwasanaethau, yr heddlu neu'n ymwneud â'r system llysoedd.
- Galwodd rhieni am newid y system. Roedd hyn yn cynnwys mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau fel bod eu lleisiau nhw a lleisiau eu plant yn cael eu clywed, mwy o hyfforddiant i athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill, mynediad at weithwyr ieuenctid, a chymorth hyblyg i'r teulu cyfan.
- Mewn ymateb i'r broses o drwytho plant, pwysleisiodd y rhieni yr angen iddynt gynnal cysylltiad â'u plentyn. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol wrth i rieni aros gyda'u plant cyn, yn ystod ac ar ôl iddynt gael eu hecsbloetio.
- Mae effaith emosiynol a seicolegol camfanteisio yn gofyn am gymorth iechyd meddwl arbenigol i blant a rhieni. Lle mae'r cymorth hwn wedi ei anelu at blant, mae angen ystyried pa gymorth a chefnogaeth mae plant yn teimlo'n gyfforddus yn eu cael.

1.3.6 Dulliau ac ymyriadau effeithiol o ran camfanteisio troseddol ar blant. Canfyddiadau gan blant

Rhwystrau sy'n gysylltiedig ag ieuenctid o ran ymgysylltu â gwasanaethau

- Mae'r diwylliant yn erbyn achwyn, bondiau dyledion ac ofn sgil-effeithiau treisgar iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd yn gwneud plant yn amharod i ymgysylltu â gwasanaethau.
- Daeth canfyddiadau cymysg i'r amlwg mewn perthynas ag effaith mesurau magu plant, fel mwy o fonitro a chysylltu â'r heddlu.
- Gall ymwybyddiaeth plant o ddyletswyddau diogelu proffesiynol fod yn rhwystr i ymgysylltu â'r gwasanaeth.
- Tynnwyd sylw at arwyddocâd perthynas y plant â'u hathrawon ac effaith gadarnhaol aros yn yr ysgol.

1.4 Trafodaeth

- Mae tirwedd newidiol delio cyffuriau wedi ei hategu gan ymelwa ar blant. Hwyluswyd hyn gan ddiffyg dealltwriaeth mewn perthynas â llinellau sirol a chamfanteisio troseddol ar blant, safbwyntiau ystrydebol ar sail rhyw a'r oedran mae plant yn tueddu i gael eu meithrin.
- Bu ymdrech ar y cyd yng Nghymru i fynd i'r afael â chamfanteisio troseddol ar blant ac atal arferion o'r fath. Mae hyn wedi cynnwys canllawiau ymarfer ar gyfer Llywodraeth Cymru, sefydlu Uned Atal Trais Cymru a datblygiadau lleol - er enghraifft, cynnull cyfarfodydd amlasiantaethol.
- Roedd angen dull gweithredu ac ymyriadau sy'n mynd i'r afael â ffactorau gwthio a thynnu, sy'n gwneud plant yn agored i gamfanteisio troseddol. Mae hyn yn cynnwys gwaith ataliol ar lefelau plant, teuluoedd, systemau a chymunedau.
- Ar lefel plentyn, mae angen ystyried arferion cynnwys a gwahardd mewn ysgolion. Gall hyn gynnwys hyfforddiant i athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill mewn camfanteisio

troseddol ar blant a nodi anghenion plant yn gynnar fel y gellir eu cynorthwyo i aros yn yr ysgol.

- Ar lefel y teulu, rhaid mynd i'r afael â heriau magu pobl ifanc ac effaith camfanteisio ar rieni a brodyr a chwiorydd. Gall hyn gynnwys datblygu a darparu dulliau teulu cyfan sydd â'r nod o gynyddu'r wybodaeth am gamfanteisio troseddol ar blant a chryfhau'r berthynas rhwng rhieni a phlant.
- Ar lefel systemau, mae angen newid y pwyslais oddi wrth wahaniaethu deuaidd rhwng y dioddefwr a'r cyflawnwr, cynnwys lleisiau teulu plant a gwneud penderfyniadau cydweithredol a datblygu darpariaeth gwasanaethau hyblyg sydd â'r gallu i weithio gyda risg a niwed i bobl ifanc y tu allan i'r teulu.
- Ar lefel gymunedol, mae angen creu a chynnal mannau diogel a lleoedd i blant yn ogystal â chasglu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i nodi addasiadau i fodelau llinellau sirol a datblygu strategaethau ataliol a diogelu priodol.

2.0 Cyflwyniad

Mae camfanteisio troseddol ar blant yn cyfeirio at blant sy'n ymwneud â gweithgarwch troseddol er budd personol unigolyn, grŵp neu gang troseddol wedi ei drefnu (Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan, 2019). Yn fwy penodol, mae'r term yn cyfeirio at blant hyd at 18 oed sydd wedi bod yn ymwneud â gweithgareddau troseddol drwy elfen o gyfnewid, p'un a yw'n ymddangos yn gydsyniol neu'n cynnwys trin neu orfodi drwy drais neu fygythiad o drais (ibid). Mae llawer o'r hyn sy'n hysbys am gamfanteisio troseddol ar blant yn ymwneud â llinellau sirol, model o gyflenwi cyffuriau sydd wedi denu sylw cynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (2019), mae llinellau sirol yn derm a ddefnyddir:

i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddol trefnedig sy'n ymwneud ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu ragor o ardaloedd mewnforio yn y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol pwrpasol neu fathau eraill o "linellau delio". Maent yn debygol o fanteisio ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed er mwyn symud a storio'r cyffuriau a'r arian, a byddant yn aml yn defnyddio tactegau gorfodi, bygythiadau, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.

Amcangyfrifir bod 1000 o wahanol linellau sirol yn gweithredu ledled Cymru a Lloegr, gyda'r mwyafrif llethol yn tarddu o Lundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Glannau Mersi (Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, 2019). Amcangyfrifwyd bod dros 100 o linellau yn dod â chyffuriau i drefi Cymru. Gan fod pob llinell yn gwneud dros £800,000 o elw y flwyddyn (Grierson, 2019), dadleuwyd bod llinellau sirol wedi dod i'r amlwg oherwydd ffactorau economaidd yn bennaf. Mae'r ffactorau hyn wedi eu sbarduno gan ormodedd o werthwyr cyffuriau mewn ardaloedd trefol a arweiniodd at rai grwpiau stryd trefol yn chwilio am farchnadoedd newydd (Robinson et al, 2019; Andell a Pitts, 2018; Windle a Briggs, 2015). Mae hyn wedi arwain at newid i'r model cyflenwi cyffuriau traddodiadol a nodweddir gan 'gyffuriau lleol i bobl leol' (Harding, 2020a:40) a gyflenwir gan gyfanwerthwyr trefol ac a brynir gan un neu ddau o deuluoedd troseddau lleol sy'n dosbarthu'r cyffuriau hyn drwy eu rhwydweithiau troseddol. Mae llinellau sirol yn cynrychioli model mwy deinamig a rhagweithiol o gyflenwi cyffuriau sydd wedi pylu'r ffin rhwng cyfanwerthwyr, adwerthwyr, gangiau stryd a rhwydweithiau troseddau cyfundrefnol. Wrth wneud hynny, mae'r cyflenwad o gyffuriau wedi datblygu'n weithrediad hylif sy'n cael ei redeg gan grwpiau trefol ac sydd wedi ei addasu i gyd-destunau lleol er mwyn cynyddu proffidioldeb ac osgoi cael eu canfod gan yr heddlu ac asiantaethau eraill. Bu cynnydd hefyd yn y defnydd o drais gan fod y grwpiau hyn wedi ceisio sefydlu troedle mewn marchnadoedd newydd mewn trefi gwledig, arfordirol ac ar y ffin, a brwydro yn erbyn cystadleuaeth gan werthwyr presennol a grwpiau trefol eraill (Pepin, 2017). Dangosodd canfyddiadau adolygiad o Raglen Diweddu Gangiau mewn Trais leuenctid y Swyddfa Gartref (Harding a Cracknell, 2016) nad yw'r newid o gyflenwi cyffuriau traddodiadol i linellau sirol wedi bod yn unffurf ond yn hytrach ei fod wedi dod i'r amlwg yn wahanol mewn gwahanol feysydd yn ôl y cyd-destun lleol, strwythurau, deinameg a chymeriadau (Harding, 2020a). Mae amlygiad gwahaniaethol o'r fath ar draws meysydd, ac asiantaethau, wedi ei gwneud yn anodd dod i gonsensws ynghylch natur y broblem a nodi atebion effeithiol. Gan hynny, mae camfanteisio troseddol ar blant a llinellau sirol yn cynrychioli'r hyn a alwodd Rittel a Webber (1973) yn 'broblem enbyd'. Mae problemau enbyd yn broblemau cymdeithasol a diwylliannol cymhleth sy'n cynnwys nifer o ffactorau annibynnol a ddifinnir yn unol â safbwyntiau unigol. Mae problemau o'r fath yn

gofyn am greu atebion effeithiol y gellir eu gweithredu ar draws asiantaethau a'u teilwra i'r cyddestun lleol.

Er mwyn helpu i ddeall a llywio ymatebion i wasanaethau, cynigiodd Harding (2020a) deipoleg esblygol o linellau sirol, yn seiliedig ar ganfyddiadau astudiaeth o sut y sefydlodd grwpiau stryd trefol yn Llundain linellau sirol yn y Siroedd Cartref. Yn ôl Harding (2020a), mae'r cyntaf o'r pedwar model llinellau sirol yn cyfeirio at 'gymudo' (Coomber a Moyle, 2017, Harding, 2020a). Mae'n bosibl mai dyma'r amlygiad mwyaf adnabyddus o linellau sirol. Mae'n cynnwys gwerthwyr trefol sy'n cymudo i drefi gwledig, arfordirol a'r gororau i werthu cyffuriau. Ar ôl ei sefydlu yn yr ardaloedd hyn, mae'r ail fodel llinellau sirol yn cynrychioli'r newid tuag at broffesiynoli, gyda grwpiau trefol yn sefydlu canolfannau lleol ym mhob tref drwy greu canolbwynt lloeren. Ar hyn o bryd,

Mae rhwydweithiau, defnyddwyr, cynhyrchion ac yn y blaen i gyd wedi eu nodi, eu hegluro, eu cyrchu a'u gosod ar waith. Mae lefelau ymwrthedd wedi eu hasesu a'u profi gan weithredwyr llinellau sirol. Yr amcan strategol rhesymegol nesaf yw adeiladu'r llinellau i'w gwneud yn fwy proffidiol. (Harding, 2020a:43)

O ganlyniad, mae'r ail amlygiad yn rhoi pwyslais ar ddelio o lety 'cogio' neu lety oedolion agored i niwed a feddiannwyd. Mae hyn yn galluogi'r grwpiau llinellau sirol i weithredu 24 awr y dydd a chynyddu gwerthiant. Mae'r ganolfan loeren hefyd yn golygu bod angen meithrin a recriwtio plant lleol fel rhedwyr i gludo symiau mawr o arian, cyffuriau ac arfau ar draws a rhwng ardaloedd. Er y gellir eu defnyddio i gyflawni tasgau eraill fel paratoi a bagio cyffuriau, casglu dyledion a meddiannu neu sefydlu safleoedd 'cogio' (Yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol, 2019). Yn ôl teipoleg Harding (2020), addasodd y trydydd model llinellau sirol mewn dwy brif ffordd er mwyn cydgrynhoi'r farchnad ac ehangu drwy gymryd drosodd rwydweithiau cyffuriau lleol a chychwyn llinellau newydd mewn lleoliadau mwy gwledig. Yn gyntaf, dechreuodd grwpiau llinellau sirol ddefnyddio eiddo arall fel carafannau ac eiddo Airbnb i osgoi cael eu canfod gan yr heddlu. Yn ail, bu cynnydd yn y gwaith o dargedu, gorfodi a manteisio ar blant lleol nad oeddent yn hysbys i awdurdodau lleol ac yr ystyriwyd eu bod yn llai tebygol o ddenu sylw'r heddlu (y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019, Cymdeithas y Plant, 2019). Mae llinellau sirol wedi parhau i esblygu gydag arallgyfeirio o ran y farchnad a'r cynnyrch yn dod i'r amlwg fel y pedwerydd model (Harding, 2020). Nodweddir hyn gan gyfnerthu llinellau, lleihau rhwydweithiau llinellau sirol, masnachfreinio ac ehangu i drefi newydd ynghyd ag ehangu'r farchnad darged i gynnwys yr economi nos a defnyddwyr newydd. Yn ogystal, arallgyfeiriodd grwpiau llinellau sirol eu cynnyrch i gynnwys amrywiaeth ehangach o gyffuriau hamdden fel Fentanyl, Steroidau a Sbeis. Mae pandemig COVID-19 wedi dod â modelau newydd o linellau sirol wrth i'r cyfyngiadau symud a chadw pellter cymdeithasol gynyddu gwelededd symud rhwng ac o fewn trefi a dinasoedd. Gan hynny, mae grwpiau llinellau sirol wedi cynyddu'r defnydd o geir preifat yn hytrach na threnau, rhedwyr cudd fel gweithwyr allweddol a symud gweithgareddau delio cyffuriau i feysydd parcio archfarchnadoedd ac ysbytai (Brewster et al., 2020; Harding, 2020b). Yn ôl Harding (2020b), cafodd mesurau COVID-19 wared ar nifer o ddelwyr sefydledig o'r strydoedd wrth iddynt gadw at y cyfyngiadau symud. Arweiniodd hyn at newid tuag at fanteisio ar blant mwy naïf, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig a mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol i ddenu plant i ddelio â chyffuriau lle 'gellir tynnu plant diniwed i gylch y gang heb iddynt sylweddoli hynny' (ibid).

Ar draws pob amlygiad o linellau sirol, mae camfanteisio wedi bod yn elfen allweddol (Harding, 2020a, Yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol, 2019, y Swyddfa Gartref, 2018). Mae nifer o

ffactorau sy'n gwneud plant yn agored i gamfanteisio troseddol ar blant. Canfu adolygiad thematig Spencer et al (2019) o blant a ecsbloetiwyd yn Croydon fod llawer yn byw mewn tlodi, gyda thai gwael neu ansefydlogrwydd tai, profiadau niweidiol lluosog yn ystod plentyndod, gan gynnwys cam-drin corfforol, rhieni yn camddefnyddio sylweddau, gweithgarwch troseddol rhieni, esgeulustod, iechyd meddwl rhieni neu rieni absennol. Yn yr un modd, mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2017) wedi tynnu sylw at nifer o nodweddion sy'n gwneud plant yn agored i gamfanteisio troseddol, gan gynnwys plant ag anawsterau ymddygiad, gwaharddiadau ysgol, plant sy'n derbyn gofal, y rhai sydd ar goll, defnyddwyr cyffuriau, a'r rhai sydd â phroblemau iechyd corfforol neu feddyliol. Mae'r nodweddion hyn yn dynodi cydgysylltiad o faterion diogelu (Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan, 2019). Ac eto, nid oes gan lawer o awdurdodau lleol brotocolau a pholisïau lleol ar waith a gall hyd yn oed y rhai sy'n camddehongli neu gamddirnad camfanteisio troseddol ar blant (Cymdeithas Plant, 2019). Pan fydd plant yn dod i sylw gwasanaethau, mae canfyddiadau wedi dangos bod tuedd broffesiynol wedi bod i bennu bod plant yn droseddwr a barnu eu bod yn cymryd rhan mewn trais difrifol a chyflenwi cyffuriau yn ddewis ffordd o fyw, sydd wedi cuddio eu natur fregus a'u hawl i gael eu diogelu (Chard, 2019; Uned Trais a Bregusrwydd, 2018; Cymdeithas y Plant, 2018; Grŵp Seneddol Hollbleidiol, 2017). Ac eto, dan Ddeddf Plant (1989) mae gan blant hawl i gael eu hamddiffyn nes eu bod yn 18 oed. Yn ôl teipoleg Harding (2020a), mae grwpiau trefol wedi manteisio ar ganfyddiadau proffesiynol a bylchau gwybodaeth am wasanaethau. Mae'r newid o gymudo i ganolfannau lloeren yn addasiad i'r model llinellau sirol; wrth i wasanaethau ddod yn ymwybodol o ddynion ifanc yn cludo cyffuriau allan o'r dinasoedd i ardaloedd gwledig, roedd rhai hyn yn cael eu lleoli'n lleol i feithrin plant lleol. Felly, mae grwpiau llinellau sirol wedi esblygu i fanteisio ar blant sy'n anhysbys i wasanaethau ac yn llai tebygol o ddenu sylw. Mae hyn yn dwysáu'r heriau o ran nodi pa blant sy'n agored i gamfanteisio troseddol ar blant a chanfod faint o blant sy'n cael eu hecsbloetio. Yn Adolygiad y Fonesig Black o Gyffuriau (2020:22) nodir bod 'nifer digynsail' o blant wedi eu tynnu i mewn i'r fasnach gyffuriau. Er bod deallusrwydd cenedlaethol yn gwella, nid oes ffigurau i ddangos faint o blant sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol (Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub., 2020; Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, 2019). Amcangyfrifodd Comisiynydd Plant Lloegr (2019) y gallai 2000 o blant o Lundain fod yn gysylltiedig â grwpiau llinellau sirol. Mae'n ymddangos bod prinder llenyddiaeth yn ymwneud â chamfanteisio troseddol ar blant a llinellau sirol yng Nghymru.

Hyd y gwyddom, yr unig astudiaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar y cyd-destun Cymreig yw asesiad tystiolaeth cyflym a gynhaliwyd gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent (2020) ac astudiaeth dull cymysg gan Caluori, Corlett a Stott (2020). Roedd y cyntaf yn cynnwys dadansoddiad o 13 o blant yng Ngwent y nodwyd bod ganddynt yr ymddygiadau troseddol mwyaf cyffredin. Barnwyd bod deg o'r plant wedi cael eu hecsbloetio neu mewn perygl o gael eu hecsbloetio. Canfu'r adroddiad, er bod oedran cyfartalog y garfan yn 15 oed, bod ymddygiad aflonyddgar ac ymddieithrio o'r ysgol wedi dod i'r amlwg yn llawer cynt. Nodwyd bod gan y rhan fwyaf o blant angen addysgol arbennig ac roedd gan lawer ohonynt hefyd anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu a oedd yn cyfyngu i ba raddau yr oeddent wedi integreiddio i amgylchedd ehangach yr ysgol. Gan hynny, roedd y plant hyn yn tueddu i ffurfio cyfeillgarwch â phlant eraill â gwendidau a heriau tebyg. Daeth cyfnodau coll i'r amlwg fel dangosydd allweddol bod plentyn yn cael ei ecsbloetio. Mewn rhai achosion, roedd plant wedi mynd ar goll dros 50 o weithiau. Ymgwymerwyd â'r astudiaeth olaf gan Caluori et al. (2020) yn ystod camau cychwynnol cyfyngiadau symud COVID-19 ac roedd yn cynnwys dadansoddi data yn ymwneud â throseddau cyffuriau, cyfnodau coll a chamfanteisio ar blant yng Nglannau Mersi a Gogledd Cymru yn ogystal â chyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol ac academyddion o Loegr a chynrychiolwyr o Heddlu

Gogledd Cymru. Daeth Caluori et al (2020) i'r casgliad bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu targedu a'u recriwtio'n anghymesur gan grwpiau llinellau sirol a bod nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal wedi eu lleoli mewn lleoliadau nad oedd yn eu hamddiffyn rhag camfanteisio troseddol. Daethant i'r casgliad hefyd nad oedd digon o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a bod y model llinellau sirol yn hyblyg iawn. Mae'r graddau y mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig wedi cael eu cwestiynu oherwydd diffyg eglurder ynghylch pa ffynonellau data a ddefnyddiwyd. Er bod Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru (n.p.) yn cefnogi'r casgliad bod angen dull cyson o ymdrin â chamfanteisio troseddol ar blant, gan alw am becyn cymorth i gefnogi diogelu a rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau. Byddai pecyn cymorth o'r fath yn galluogi datblygu ymateb cydgysylltiedig gan yr heddlu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, adrannau'r Llywodraeth, asiantaethau llywodraeth leol, a sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol (y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019) ac yn ategu'r Canllawiau Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol (Llywodraeth Cymru, 2021). O dan y canllawiau hyn, dylid diogelu plant sydd mewn perygl o niwed y tu allan i'r teulu o dan yr un gweithdrefnau â phlant sydd mewn perygl o niwed o fewn y teulu (Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Nodir bod dyletswydd ar weithwyr proffesiynol i roi gwybod am blant sydd mewn perygl, lle mae'r plentyn yn profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu fathau eraill o niwed, a lle mae angen gofal a chymorth arnynt. Ac eto, mae llawer o blant yn methu â chyrraedd trothwyon gofal cymdeithasol fel y gellir cynnal asesiadau risg, sy'n golygu mai dim ond pan fyddant mewn argyfwng neu lle mae eu hymddygiad wedi ei wreiddio (Uned Trais a Bregusrwydd, 2018) y gall plant ddod yn hysbys. Awgrymwyd bod y polisi amddiffyn plant presennol yn canolbwyntio ar gam-drin teuluol ac yn methu â chwmpasu niwed y tu allan i'r teulu sy'n deillio o grwpiau cyfoedion, cymunedau lleol neu ar-lein (Chard, 2015; Uned Trais a Bregusrwydd, 2018). Mae Firmin (2018) wedi argymhell y dylid edrych ar drothwyon gwasanaeth drwy lens cyd-destunol, gan asesu'r risgiau mae plant yn eu profi y tu allan i'r teulu a chydabod y dylanwad cyfyngedig mae rhieni a gofalwyr yn ei gael ar berthynas â chyfoedion y tu allan i'r teulu. Yn wir, o dan Reoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) (2015), mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i ymyrryd lle mae anghenion plentyn yn fwy nag y gall y teulu eu cefnogi ar eu pennau eu hunain. Ac eto, mae canfyddiadau ymchwil wedi dangos, pan gaiff plant sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol eu dwyn i sylw gwasanaethau, bod gweithwyr proffesiynol a rhieni yn cael anawsterau wrth gael gafael ar gymorth (Spencer et al., 2019; Cymdeithas y Plant, 2019). Ymddengys bod darpariaeth o'r fath yn cael ei llesteirio gan natur camfanteisio troseddol ar blant a maniffestos sy'n esblygu yn y llinellau sirol; mae'n targedu plant sydd â materion diogelu sy'n gorgyffwrdd, a'r rhai heb broblemau diogelu o gwbl, yn manteisio ar blant fel dioddefwyr ac yn eu trin yn droseddwyr fel cyflawnwyr. O ganlyniad, mae ymatebion gofal cymdeithasol yn wahanol yn unol â chanfyddiadau o lefel y risg a faint o gymorth sydd ei angen (HMICFRS, 2020). Mae Pitts (2019) wedi tynnu sylw at yr angen i rwydweithiau cymunedol ddatblygu dealltwriaeth o weithgarwch llinellau sirol mewn ardaloedd lleol, nodi bylchau mewn gwasanaethau a datblygu gwasanaethau priodol. Dylai ymateb o'r fath hefyd gynnwys lleisiau'r plant a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan gamfanteisio troseddol ar blant a llinellau sirol (Maxwell et al., 2019). Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu, lle dylai gweithwyr proffesiynol gael eu grymuso i weithio gyda'r rhai sydd angen gofal a chymorth i nodi atebion priodol.

Yn y cyd-destun hwn, comisiynwyd yr ymchwil hon gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gasglu lleisiau plant sydd â phrofiad byw o gamfanteisio, rhieni a gweithwyr proffesiynol ynghylch sut mae plant yn cael eu targedu, eu paratoi i bwrpasau amhriodol a'u cynnwys mewn llinellau sirol yng

Nghymru er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu pecyn cymorth sy'n sail i ymateb cymunedol effeithiol, gyda'r nod o wella'r canlyniadau i blant a'u teuluoedd. Amcanion yr ymchwil hon oedd archwilio:

- Sut mae llinellau sirol yn dod i'r amlwg yng Nghymru?
- Pa ddulliau ac ymyriadau sydd fwyaf effeithiol o ran nodi ac atal camfanteisio troseddol ar blant?
- Sut gellir defnyddio diogelu cyd-destunol yn ymarferol ar draws gwasanaethau?

Wrth wneud hynny, mabwysiadodd yr ymchwil ddull ymchwil gweithredu ansoddol ac roedd yn cynnwys tri phrif gam:

Cam un: Ymgysylltu â phlant, rhieni a rhanddeiliaid o ofal cymdeithasol plant, addysg, iechyd, tai, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau troseddau ieuenctid, a gwasanaethau ieuenctid.

Cam dau: Cydgynhyrchu pecyn cymorth yn seiliedig ar ganfyddiadau cam un ac ymgysylltu â grŵp cynghori ymchwil sy'n cynnwys panel arbenigol o blant, rhieni a gweithwyr proffesiynol.

Cam tri: dosbarthu'r pecyn cymorth a gwerthuso a mireinio rhagarweiniol yn seiliedig ar gyfweiliadau â phlant, rhieni a gweithwyr proffesiynol gan ddefnyddio model ymchwil weithredol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau cam un yr ymchwil: dadansoddiad o'r cyfweiliadau ansoddol a gynhaliwyd gyda phlant sydd wedi cael profiad o gamfanteisio, rhieni plant sy'n cael eu hecsbloetio a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau statudol ac anstatudol ledled Cymru.

3.0 Dulliau

Cynhaliwyd y gwaith o gasglu data rhwng mis Hydref 2020 a mis Mai 2021. Roedd y cyfnod hwn yn cyd-daro â phandemig COVID-19 a chyfyngiadau symud dilynol, ac felly cynhaliwyd yr holl waith casglu data o bell, naill ai dros y ffôn, Zoom neu Microsoft Teams. Cafwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer casglu data gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd. Roedd y data a gasglwyd yn cynnwys:

- cyfweiliadau a grŵp ffocws gyda phlant,
- cyfweiliadau ar-lein a thros y ffôn gyda rhieni,
- cyfweiliadau ar-lein gyda gweithwyr proffesiynol.

Recordiwyd y cyfweiliadau ac fe'u trawsgrifiwyd yn llawn. Dadansoddwyd data'n thematig gan ddefnyddio dull 'cod ac adalw' (gweler Coffey ac Atkinson, 1996) a hwyluswyd gan feddalwedd NVivo 12. Yn unol â chanllawiau moesegol, defnyddiwyd ffugenwau ar gyfer cyfranogwyr ac mae gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr wedi cael ei dileu. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o bob elfen.

3.1 Cyfweiliadau a grwpiau ffocws: Plant

Gwahoddwyd y plant i rannu eu barn ynghylch sut mae plant yn cael eu targedu, eu recriwtio a'u cynnwys mewn camfanteisio troseddol ar blant, pa ddarpariaeth gwasanaethau sydd ar gael a beth sy'n helpu neu'n rhwystro plant rhag ceisio cymorth. Er mwyn hyrwyddo ymgysylltu â phobl ifanc, fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan drwy borthgeidwaid ar ffurf y gwasanaethau roeddent yn ymwneud â nhw ar hyn o bryd. Er bod y strategaeth hon yn eithrio rhai cyfranogwyr posibl, roedd yn galluogi adnabod plant o dan 25 oed gyda phrofiad byw o gamfanteisio ac yn rhoi cyfle i blant roi caniatâd gwybodus. Gwrthododd nifer o blant y gwahoddiad i gymryd rhan oherwydd pryderon ynghylch sgil-effeithiau posibl iddynt hwy eu hunain neu eu teuluoedd gan y rhai a fu'n camfanteisio arnynt. Er mwyn ategu'r gwaith o ymgysylltu â phobl ifanc ymhellach, mabwysiadwyd strategaeth hyblyg (Tabl 1) sy'n galluogi plant i ymgysylltu â'r prosiect mewn tair ffordd wahanol drwy ddau ddull gwahanol: 'dan arweiniad ymarferwyr', lle gallai'r unigolyn ifanc gymryd rhan gyda gweithiwr o'r sefydliad neu'r gwasanaeth roeddent yn ymgysylltu ag ef, neu 'dan arweiniad ymchwilwyr,' lle gallent gymryd rhan gydag aelod o'r tîm ymchwil drwy Microsoft Teams neu dros y ffôn. Waeth beth oedd y dull cyfranogi, gwahoddwyd y plant i rannu cymaint neu gyn lleied o'u profiadau eu hunain ag yr oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn eu trafod.

Roedd y sampl yn cynnwys 21 o gyfranogwyr. O'r rhain, roedd gan 18 brofiad byw o gamfanteisio troseddol a nodwyd bod pedwar cyfranogwr mewn perygl o gamfanteisio troseddol ar blant. Roedd tri chyfranogwr yn ddynion sy'n oedolion. Er bod y tri dyn yn hŷn na'r sampl a bennwyd ymlaen llaw, roeddent yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y daith o gymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol drwy garcharu a throsglwyddo i lwybrau mwy cadarnhaol. Dwy fenyw ac 16 dyn oedd yr 18 cyfranogwr o dan 18 oed, . Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn byw yn ne Cymru (n = 15) gyda'r gweddill yn byw yng nghanolbarth neu orllewin Cymru. Roedd y sgiw ymddangosiadol hwn yn adlewyrchu strategaethau casglu data yn hytrach na llinellau sirol. O'r 21 o gyfranogwyr, roedd tri yn oedolion a oedd wedi cael eu carcharu'n flaenorol am ddelio â chyffuriau. Roedd y gweddill rhwng 12 a 18 oed, gydag oedran cymedrig o 15 oed. Datgelodd dadansoddiadau cychwynnol fod

y grŵp a arweinir gan ymarferwyr yn iau (cyfartaledd = 14 mlynedd) na'r grŵp a arweinir gan yr ymchwilydd (cyfartaledd = 16.5 mlynedd). Fodd bynnag, datgelodd archwiliad pellach fod y pedwar plentyn yr ystyrir eu bod mewn perygl o gamfanteisio troseddol yn iau na gweddill y grŵp a arweinir gan ymarferwyr. Roedd y pedwar plentyn rhwng 12 a 13 oed. Pan dynnwyd y grŵp mewn perygl o'r grŵp a arweinir gan ymarferwyr, dim ond ychydig o wahaniaeth oedd yn yr oedran cymedrig rhwng y grwpiau a nodwyd (dan arweiniad ymarferwyr = 15.5 mlynedd, dan arweiniad ymchwilydd = 16.5 mlynedd).

3.2 Cyfweiliadau: Rhieni

Gwahoddwyd y rhieni i rannu eu profiadau o sut roedd eu plant wedi cael eu targedu, eu recriwtio a pha weithgareddau roeddent wedi bod yn rhan ohonynt. Gofynnwyd iddynt hefyd pa gymorth roeddent wedi ei geisio a pha mor effeithiol oedd hyn o ran eu cynorthwyo nhw a'u plentyn. Recriwtiwyd rhieni i'r astudiaeth drwy rwydweithiau grwpiau cynghori ymchwil a chyfweleion proffesiynol. Cafodd galwad am riant/gofalwyr ei dosbarthu hefyd drwy amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys e-gylchlythyrau i rieni maeth a Twitter. Arweiniodd hyn at dri chyfweiliad â rhieni. Awgrymodd tystiolaeth anecdotaidd fod y gyfradd ymateb wael hon yn deillio o'r angen i nodi rhieni ar yr adeg gywir - hynny yw, lle'r oeddent yn teimlo y gallent drafod eu profiadau yn ogystal â phryderon ynghylch sgil-effeithiau posibl trafod eu profiadau. Er mwyn hyrwyddo ymgysylltu â rhieni, estynnwyd casglu data i Loegr, a arweiniodd at 12 cyfweiliad arall. Gan hynny, roedd y sampl yn cynnwys 15 o rieni oedd ag o leiaf un plentyn a oedd wedi cael ei ecsbloetio'n droseddol.

O'r 15 rhiant a gymerodd ran, roedd wyth yn byw yng Nghymru ac roedd saith yn byw yn Lloegr. O'r rhai sy'n byw yng Nghymru, roedd y rhan fwyaf yn dod o dde Cymru gyda'r gweddill yn byw yng ngorllewin Cymru. Roedd y sampl yn cynnwys 13 o famau a dau dad. Cyfwelewyd un fam a thad gyda'i gilydd. Roedd y samplau o Gymru a Lloegr yn wahanol mewn tair prif ffordd. Yn gyntaf, nifer cyfartalog y blynyddoedd o gamfanteisio; nododd rhieni sy'n byw yng Nghymru 2.5 mlynedd ar gyfartaledd tra bod rhieni sy'n byw yn Lloegr wedi nodi 6 blynedd ar gyfartaledd. Yn ail, roedd cyfran is o rieni a oedd yn byw yng Nghymru o leiafrif ethnig na'u cymheiriaid yn Lloegr. Yn drydydd, roedd rhieni sy'n byw yng Nghymru bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn briod â thad y plentyn na rhieni sy'n byw yn Lloegr. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, mae'r canfyddiadau wedi eu coladu ar draws y ddau sampl gan eu bod yn rhoi darlun cynhwysfawr o gamfanteisio ar draws gwahanol gefndiroedd a lleoliadau teuluol. At hynny, mae'r sampl hon yn rhoi cipolwg ar natur y camfanteisio o'r gwaith cychwynnol i gymryd rhan yn y tymor hwy, gyda phedwar rhiant yn dweud bod eu plentyn wedi cael ei garcharu o leiaf unwaith oherwydd eu gweithgareddau delio â chyffuriau. Roedd cyfuno samplau hefyd yn helpu i gadw anhysbysrwydd, sy'n ystyriaeth bwysig lle gallai plant fod yn cymryd rhan o hyd neu'n agored o hyd i gael eu hecsbloetio.

3.3 Cyfweiliadau: Gweithwyr Proffesiynol

Roedd y cyfweiliad ar-lein yn gwahodd gweithwyr proffesiynol i rannu eu profiadau o sut cafodd plant eu targedu, eu paratoi, pa weithgareddau roeddent yn ymwneud â nhw, a'r elfennau a rwystrodd ac a hwylusodd ymgysylltu â gwasanaethau. Recriwtiwyd gweithwyr proffesiynol gan ddefnyddio cyfuniad o samplu bwriadus a samplu caseg eira yn seiliedig ar dri maen prawf. Yn gyntaf, gweithwyr proffesiynol yr oedd eu rôl yn cynnwys cyswllt â phlant a oedd mewn perygl neu a oedd yn ymwneud â chamfanteisio troseddol ar blant. Yn ail, ceisiwyd gweithwyr proffesiynol o

sefydliadau statudol ac anstatudol, gan ganolbwyntio'n benodol ar staff o wasanaethau plant, addysg, iechyd, tai, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, cyfiawnder ieuencid a gwasanaethau ieuencid. Gan hynny, gwahoddwyd cadeirydd Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a Rheolwyr Busnes o bob un o'r chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i enwebu cynrychiolydd i gael ei gyfweld. Yn drydydd, ceisiwyd cynrychiolaeth gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Er mwyn nodi gweithwyr proffesiynol a oedd yn bodloni'r tri maen prawf recriwtio, anfonwyd e-byst ar hap at ddau gant o weithwyr proffesiynol ar draws sefydliadau statudol, gwirfoddol a'r trydydd sector ledled Cymru. Arweiniodd hyn at sampl o 56 o weithwyr proffesiynol, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 28%. O'r rhain, cymerodd 35 ran mewn cyfweiliad lled-strwythuredig unigol a dewisodd 21 i gymryd rhan mewn grŵp ffocws. Mae Tabl 1 yn rhoi dadansoddiad o'r cyfranogwyr yn ôl y sector a'r ardal ddaearyddol. Mae'n bwysig nodi bod y sampl wedi ei hunan-ddethol, felly mae'n bosibl ei fod wedi ei ystumio tuag at weithwyr proffesiynol a oedd â diddordeb mewn camfanteisio troseddol ar blant a/neu'r gallu i gymryd rhan mewn cyfweiliad.

Tabl 1: Dadansoddiad o randdeiliaid

Ffugenw	Rôl	Sector	Rhanbarth
Daniel	Arolygydd heddlu	Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	Cymru
Joshua	Swyddog heddlu	Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	Cymru
Lyra	Arbenigwr Iechyd Meddwl	CAMHS	Gorllewin Cymru
Isaac	Nyrs Iechyd Meddwl	CAMHS	Gorllewin Cymru
Holly	Gweithiwr Cymdeithasol	Gwasanaethau Plant	Gwent
Georgia	Cydlynnydd Gadael Gofal	Gwasanaethau Plant	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mark	Rheolwr Gwasanaeth	Gwasanaethau Plant	Gwent
Nick	Rheolwr Diogelu	Gwasanaethau Plant	Gorllewin Cymru
Olivia	Arweinydd Ymarfer	Gwasanaethau Plant	Gorllewin Cymru
David	Rheolwr Gwasanaeth	Gwasanaethau Plant	Gogledd Cymru
Bethan	Rheolwr Gwasanaethau Ieuencid	Gwasanaethau Plant	Gogledd Cymru
Felicity	Cydlynnydd Addysg	Gwasanaethau Plant	Gogledd Cymru
Evan	Cydlynnydd Digartrefedd	Gwasanaethau Plant	Gogledd Cymru
Amy	Rheolwr	Gwasanaethau Plant	Gogledd Cymru
Faith	Gweithiwr Plant ar Goll	Gwasanaethau Plant	Gogledd Cymru
Christopher	Rheolwr Gwasanaeth	Gwasanaethau Plant	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Freya	Swyddog Diogelu	Gwasanaethau Plant	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Robert	Rheolwr Ieuencid	Gwasanaethau Plant	Gwent
Amelia	Swyddog Diogelu 2	Gwasanaethau Plant	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Helen	Gweithiwr Ieuencid	Gwasanaethau Plant	Gwent
Paul	Dirprwy Bennaeth	Addysg	Gogledd Cymru
Ava	Dirprwy Bennaeth	Addysg	Caerdydd a'r Fro
Jade	Nyrs	Iechyd	Caerdydd a'r Fro
Josie	Nyrs	Iechyd	Caerdydd a'r Fro

Adrien	Ymgynghorydd Damweiniau ac Achosion Brys 1	Iechyd	Caerdydd a'r Fro
Rhys	Ymgynghorydd Damweiniau ac Achosion Brys 2	Iechyd	Caerdydd a'r Fro
Lucy	Diogelu	Iechyd	Caerdydd a'r Fro
Leah	Nyrs Ysgol	Iechyd	Caerdydd a'r Fro
Ryan	Arweinydd yr Heddlu	Yr Heddlu	Cymru a Lloegr
Noah	Ditectif Ringyll	Yr Heddlu	De Cymru
Chloe	Cydlynnydd	Yr Heddlu	Canolbarth a Gorllewin Cymru
John	Ditectif Arolygydd	Yr Heddlu	De Cymru
Caer	Swyddog Prawf	Y Gwasanaeth Prawf	De Cymru
Yvonne	Swyddog Prawf	Y Gwasanaeth Prawf	Gwent
Jane	Rheolwr Gwasanaeth	Y Trydydd Sector	De-ddwyrain Cymru
Eve	Rheolwr Diogelu	Y Trydydd Sector	De-ddwyrain Cymru
Carys	Cyfarwyddwr 1	Y Trydydd Sector	Cymru
Abigail	Rheolwr Gwasanaeth	Y Trydydd Sector	Gwent
Megan	Gweithiwr Achos Cymorth i Ddiodefwyr	Y Trydydd Sector	Gogledd Cymru
Sion	Cydlynnydd	Y Trydydd Sector	Cymru
Briony	Ymarferydd	Y Trydydd Sector	Gogledd Cymru
Harry	Cyfarwyddwr	Y Trydydd Sector	Lloegr
Fiona	Gweithiwr Prosiect	Y Trydydd Sector	Gwent
Mandy	Cyfarwyddwr 2	Y Trydydd Sector	Cymru
Gemma	Cydgysylltydd Arweiniol	Y Trydydd Sector	Cymru
Peter	Swyddog Prosiect	Y Trydydd Sector	Gorllewin Cymru
Melissa	Gweithiwr Plant ar Goll	Y Trydydd Sector	Gwent
Craig	Rheolwr	Y Trydydd Sector	Cymru
Joseph	Swyddog Hyfforddi	Y Trydydd Sector	Cymru
Ethan	Rheolwr Camddefnyddio Sylweddau	Y Trydydd Sector	Gorllewin Cymru
Philip	Cynrychiolydd	Llywodraeth Cymru	Cymru
Owen	Rheolwr Gwasanaeth	Gwasanaethau Troseddau Ieuencid	Caerdydd a'r Fro
Andrea	Gweithiwr camddefnyddio sylweddau	Gwasanaethau Troseddau Ieuencid	Gorllewin Cymru
Oliver	Swyddog	Gwasanaethau Troseddau Ieuencid	Gorllewin Cymru
Wendy	Rheolwr Gwasanaeth	Gwasanaethau Troseddau Ieuencid	Caerdydd a'r Fro
Matthew	Gweithiwr Ieuencid	Gwasanaethau Troseddau Ieuencid	Caerdydd a'r Fro

O ran cwrdd daearyddol, cyfwelwyd un gweithiwr proffesiynol o'r trydydd sector o Loegr gan fod y sefydliad hwn wedi ei anelu'n benodol at gefnogi teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan gamfanteisio troseddol. Roedd yr ail gategori mwyaf o weithwyr proffesiynol yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro ac yna Gwent, Gogledd Cymru a Gorllewin Morgannwg. Cynhaliwyd y nifer isaf o gyfweiliadau gyda gweithwyr proffesiynol o Gwm Taf Morgannwg. O ran y sector, roedd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol yn dod o sefydliadau'r trydydd sector. Rhannwyd gweithwyr proffesiynol o'r sector hwn rhwng y rhai a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau gan y Gwasanaethau Plant neu'r heddlu, a

chynrychiolwyr elusennau neu grwpiau gwirfoddol a sefydlwyd gan weithwyr proffesiynol â diddordeb neu brofiad personol o gamfanteisio. Y sector uchaf nesaf oedd y Gwasanaethau Plant ac yna'r heddlu.

4.0 Sut mae camfanteisio ar blant yn amlygu ei hun yng Nghymru? Canfyddiadau pobl broffesiynol

Datgelodd y canfyddiadau dair ffordd mae camfanteisio troseddol ar blant yn dod i'r amlwg yng Nghymru: llinellau sirol, llinellau aneglur, a delio lleol. Yn gyffredinol, mabwysiadodd gweithwyr proffesiynol gorfodi'r gyfraith, gwaith ieuencid a'r rhai â rolau camfanteisio arbenigol y term ehangach, 'camfanteisio troseddol ar blant' i gwmpasu'r tri manifestio. I'r gwrthwyneb, roedd gweithwyr proffesiynol eraill yn gwahaniaethu rhwng llinellau sirol, yr oeddent o'r farn eu bod yn cynnwys camfanteisio, a delio cyffuriau lleol, nad oedd, yn eu barn nhw, yn gwneud hynny. Amlygodd hyn wahaniaethau yn y derminoleg a fabwysiadwyd a'r gwahaniaethau canfyddedig o ran natur a chyflawnwyr camfanteisio.

4.1 Llinellau sirol, llinellau aneglur a chyflenwi cyffuriau lleol

Er bod y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol wedi cyfeirio at wahaniaeth rhwng llinellau sirol a chyflenwi cyffuriau mwy lleol, datgelodd dadansoddiad pellach dri dull o gyflenwi cyffuriau ledled Cymru: llinellau sirol, llinellau aneglur a chyflenwi cyffuriau lleol. Cafodd y tri model hyn eu gyrru gan y galw parhaus am gyffuriau o farchnad a oedd yn cynnwys defnyddwyr presennol, defnyddwyr penwythnos a myfyrwyr a oedd eisiau prynu amrywiaeth o sylweddau, o ganabis i gocên, tabledi ecstasi, Ketamine, MDMA, a Sbeis. Yn dilyn pandemig Covid-19 bu cynnydd yn y meddyginiaethau presgripsiwn a werthwyd. Roedd hyn yn cynnwys Xanax yn ne Cymru a Diazepam yng ngogledd Cymru. Dywedodd Caluori et al (2020) eu bod yn dyst i addasu'r model llinellau sirol mewn amser real yng ngogledd Cymru, gyda grwpiau llinellau sirol yn newid eu defnydd o drafnidiaeth, llety a phobl agored i niwed yn ystod camau cynnar pandemig COVID-19. Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi rhywfaint o gefnogaeth i deipoleg esblygol Harding (2020) o ran cydgrynhoi'r farchnad ac arallgyfeirio cynnyrch. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod gweithwyr proffesiynol yn fwy tebygol o adrodd am bresenoldeb llinellau sirol a chamfanteisio troseddol ar blant lle'r oedd yn cynnwys model cymudo Harding (2020a) ac o'r herwydd roedd plant yn cael eu masnachu i Gymru yn cario cyffuriau, arian neu arfau. Roedd y graddau yr ystyriwyd bod plant yn cael eu hecsbloetio'n droseddol wedi eu diffinio'n llai da mewn perthynas â llinellau aneglur neu gyflenwi cyffuriau lleol. Er bod yr olaf yn adlewyrchu cyflenwi cyffuriau traddodiadol, neu 'linellau sirol cyn-sirol' yn nherminoleg Harding (2020a), daeth llinellau aneglur i'r amlwg fel model newydd o gyflenwi cyffuriau lle'r oedd teuluoedd troseddu presennol yn dynwared y modelau llinellau sirol. Cafodd y term llinellau aneglur ei fathu gan Cullen et al. (2020) ac fe'i diffinnir fel a ganlyn:

Pan fydd grwpiau lleol (pobl ifanc yn aml), yn dynwared gweithgarwch gangiau allanol sy'n delio cyffuriau dosbarth A yn lleol, gan ddefnyddio camfanteisio a thrais ond heb deithio allan o'r ardal. Er enghraifft, er ei bod yn ymddangos nad oes llinellau sirol allanol yn cael eu rhedeg gan gangiau i rai rhannau o Gymru, mae'n ymddangos bod y model nodweddiadol o ddefnyddio plant fel gweithlu gan grwpiau troseddu lleol ar waith. (Cullen et al., 2020: 11)

Yn ôl gweithwyr proffesiynol, roedd llinellau aneglur yn 'ardaloedd allforio' lle'r oedd cyffuriau'n cael eu cadw a'u rheoli cyn eu dosbarthu i ardaloedd mewnforio ledled Cymru i'w gwerthu i'r cwsmer (Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, 2017). Gweithredwyd ardaloedd allforio gan bobl leol yn hytrach na rhwydweithiau allanol ac o'r herwydd, roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn gwahaniaethu hyn oddi wrth linellau sirol hyd yn oed lle'r oedd gan ardaloedd 'linell' e.e. llinell y Barri, ac roeddent yn tueddu i gael eu hystyried fel 'rhedeg cyffuriau yn y ffordd hen ffasiwn o redeg cyffuriau' (Joshua). Serch hynny, roedd rhai llinellau aneglur wedi dechrau mabwysiadu model tebyg i rwydweithiau cyffuriau llinellau sirol sy'n arddangos yr un lefelau o drais er mwyn cynnal rheolaeth dros yr ardal yn erbyn bygythiadau o rwydweithiau llinellau sirol.

Yn olaf, cyfeiriodd nifer o weithwyr proffesiynol at gyflenwi cyffuriau lleol a welwyd yn bennaf mewn perthynas â grwpiau teuluol, neu deuluoedd troseddu yn dilyn y model cyflenwi cyffuriau traddodiadol (Harding, 2020a). Yn y cymunedau hyn, roedd gweithwyr proffesiynol o'r farn bod troseddoldeb yn cael ei normaleiddio ar gyfer plant. Tynnwyd rhai plant i mewn i'r gweithgareddau hyn wrth iddynt geisio efelychu brodyr a chwiorydd neu gefndryd hyn neu lle cawsant eu hannog i ddysgu'r 'busnes teuluol' (Gemma). Yn hyn o beth, roedd canfyddiadau proffesiynol o ran sut daeth plant i ymwneud â throseddu yn gysylltiedig â'r gwahaniaeth deuaidd rhwng dioddefwr a chyflawnwr (Cullen et al, 2020). Ac eto, dywedodd Leah, hyd yn oed pan fo plant yn cael eu magu mewn teuluoedd neu ranbarthau lle mae troseddoldeb yn cael ei normaleiddio, mae'n bosibl na fydd hyn yn ddewis ymwybodol gan yr unigolyn ifanc gan y gallai gael ei orfodi gan aelodau o'r teulu neu ei dwyllo'n ddiarwybod i ddanfôn pecyn ar ran perthynas:

Gallaf feddwl am un teulu yn benodol lle mae un o'r arweinwyr - ef yw'r brawd iau - yn perthyn i deulu o werthwyr cyffuriau hysbys, a dyna'r cyfan sy'n gyfarwydd iddo. Felly, cyn gynted ag yr oedd 15 neu 16 mlwydd oed, roedd ei frodyr wedi trefnu ei fod yn rhedeg ar eu rhan nhw. (Leah)

Roedd rhai plant wedi dioddef bygythiadau neu drais gwirioneddol pe baent yn gwrthod, fel y disgrifiodd Megan, 'roedd y llanc wedi cael ei guro am ei fod wedi gwrthod mynd i ddelio ar ran ei dad'. Lle'r oedd plant yn cael eu hecsbloetio fel rhan o'r busnes teuluol, nododd gweithwyr proffesiynol heriau o ran 'torri'r cylch' (Bethan). At hynny, nodwyd, ar ôl i blant gael record droseddol, fod hyn yn eu caethiwo o fewn camfanteisio. Gan hynny, roedd llawer o weithwyr proffesiynol o'r farn bod y term llinellau sirol yn broblem gan y gall guddio'r gwahanol amlygiadau o gamfanteisio troseddol ar blant ac i ba raddau mae natur yr ymddygiadau troseddol a'r risgiau i blant yr un fath (Olver a Cockbain, 2021, Bonning a Cleaver, 2020). At hynny, gall mabwysiadu'r term 'llinellau sirol' dynnu sylw oddi wrth blant sy'n cael eu hecsbloetio gan unigolion yn eu cymuned leol neu gan aelodau o'r teulu.

4.2 Safbwyntiau ar rywedd

Yn ogystal â'r cyfyngiadau posibl ar fabwysiadu'r term 'llinellau sirol', datgelodd y canfyddiadau hefyd nad oedd gwahanu camfanteisio troseddol ar blant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn fuddiol. Cyfeiriodd rhai gweithwyr proffesiynol at syniadau yn gysylltiedig â rhywedd o ran camfanteisio. Nad yw hyn yn syndod o bosibl, o gofio bod y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol wedi dweud eu bod nhw'n gweithio gyda niferoedd uwch o fechgyn sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol. Serch hynny, awgrymodd y canfyddiadau fod nifer y merched a gafodd eu hecsbloetio'n droseddol ar gynnydd. Dywedodd un cynrychiolydd o'r heddlu fod tua hanner yr achosion yn ymwneud â

merched (Chloe). Er gwaethaf y cynnydd hwn, dangosodd llawer o weithwyr proffesiynol safbwyntiau yn gysylltiedig â rhywedd, gyda merched yn cael eu gweld fel rhai llai tebygol o gael eu hecsbloetio'n droseddol na bechgyn a lle'r ystyriwyd bod bechgyn yn 'fwy agored i gamfanteisio troseddol ar blant' (Fiona). Ymhlyg yn y datganiad hwn roedd y syniad o asiantaeth, lle gwelwyd bod merched yn ddioddefwyr tra gwelwyd bod bechgyn yn gyfranogwyr mwy gweithredol yn y broses. O ganlyniad, roedd rhai gweithwyr proffesiynol o'r farn bod bechgyn wedi cael eu 'recriwtio', yn hytrach na'u 'meithrin', i fyd camfanteisio troseddol ar blant fel y disgrifiodd Ryan:

Buom yn siarad â chydweithwyr a phawb arall, ac roeddent yn meddwl bod gennym ddau ben ar ein hysgwyddau. Roeddent yn dweud: wel, rydych chi'n gwybod nad meithrin at ddibenion anaddas yw hwn, ac mai recriwtio yw'r hyn sy'n digwydd, ac roedden ni'n dweud: wel, fydddech chi'n dweud hynny am blentyn sydd wedi ei recriwtio fel rhan o gamfanteisio troseddol ar blant? Fydddech chi ddim - fe fydddech chi'n dweud eu bod nhw wedi cael eu meithrin at ddibenion anaddas. (Ryan)

Felly, roedd mabwysiadu dull ar sail rhywedd yn golygu bod tuedd i gysylltu merched â chamfanteisio rhywiol a bechgyn â chamfanteisio troseddol. Roedd canlyniadau hyn yn ddeublyg. Yn gyntaf, roedd bechgyn yn ymddangos yn llai tebygol o gael eu holi am gamfanteisio rhywiol na'i ddatgelu. Roedd hyn yn cynnwys plygio, lle mae cyffuriau'n cael eu cuddio o fewn y llwybr gastroberfeddol:

Ac os na fyddwch chi'n eu rhoi yno eich hun byddant yn eich dal i lawr a'u rhoi nhw yno eu hunain. Nid ydyn nhw'n malio dim, a phan fyddwch yn edrych ar rywedd, yn wrywod, benywod, mwy o leoedd i'w cuddio, byddant yn siŵr o gael lle i'w rhoi, heb falio dim. Felly, rydych chi'n edrych ar anaf o bosibl, triniaeth ddiraddiol, ac ymosodiadau rhywiol. (Craig)

Lle canfuwyd bechgyn gyda'r pethau sydd eu hangen ar gyfer plygio - er enghraifft, Vaseline a chondomau - nododd Ryan eu bod yn fwy tebygol o ymfrostio am nifer y cariadon a oedd ganddynt yn hytrach na datgelu eu bod yn cael eu hecsbloetio. Ond yn hytrach na chael eu hystyried yn ddioddefwyr cam-drin rhywiol neu gamfanteisio, dywedodd llawer o weithwyr proffesiynol fod bechgyn yn cael eu hystyried yn asiantau o ran eu rhan yn y gweithgareddau. Crynhowyd hyn gan Olivia:

Rhan o gamfanteisio troseddol yw camfanteisio rhywiol pan gânt eu gorfodi i roi pethau yn eu pen ôl neu bethau fel llwy, lle maent yn ei dynnu allan yn gorfforol. Mae'n ddychrynlyd. Ond mae pobl yn colli golwg ar y math hwnnw o agwedd ... byddwn yn eu galw'n werthwyr cyffuriau, maen nhw'n delio. Dydyn nhw ddim yn delio. Maen nhw'n cael eu hecsbloetio. (Olivia)

Gallai mabwysiadu dehongliadau ar sail rhywedd hefyd effeithio'n negyddol ar ferched. Drwy gysylltu merched â chamfanteisio rhywiol, roedd perygl y gellid colli golwg ar achosion lle'r oedd merched yn cael eu hecsbloetio'n droseddol,

Rwy'n credu bod merched yn mynd o dan y radar yn gyson. Er enghraifft, cefais atgyfeiriad ar gyfer bachgen ifanc ac roedd merch gydag ef, a wnaethon nhw ddim byd amdani. Fe wnaethon nhw ei stopio a'i chwilio, ei hanfon hi gartref,

roedd hi'n 14 oed, yn ferch. O'i ran ef, fe wnaethon nhw ei gyfeirio, a dywedais, beth am y ferch, ac fe wnaethon nhw gyfaddef, dydyn ni ddim bob amser yn meddwl am y merched. (Megan)

Er hynny, adroddodd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol y gellid camfanteisio'n troseddol ar ferched, ac mewn llawer o achosion roedd gweithwyr proffesiynol yn gweld hyn o ran yr hyn mae Barnardo's (2014) wedi'i alw'n 'fodel cariad' lle mae'r rhai sy'n camfanteisio yn meithrin merched at ddulliau anaddas drwy sefydlu perthynas arferol. Cyflwynwyd sawl enghraifft o gamfanteisio troseddol ar ferched, gyda rhai merched wedi codi'n uwch na rhedwr i rolau uwch o fewn y rhwydwaith cyffuriau. Felly, gan ailadrodd pryderon proffesiynol am y term llinellau sirol, tynnodd rhai gweithwyr proffesiynol sylw at y ffaith y gallai syniadau ar sail rhywedd guddio natur troseddoldeb a chamdriniaeth a ddioddefodd plant, fel yr eglurodd John:

Nid rhedeg cyffuriau uniongyrchol yn unig yw llinellau sirol, mae'n gorfodi pobl i sefyllfaoedd lle mae pobl yn camfanteisio'n rhywiol arnyn nhw - yn fechgyn a merched, dynion a menywod. Mae'n golygu eu gorfodi nhw i wneud pethau ar wahân i ddosbarthu cyffuriau - mae'n eu gorfodi i ddwyn, mae'n eu gorfodi i weithio. Does y fath beth ag un dioddefwr yn hyn i gyd, nac un categori. Fel arfer, os oes gennych chi ddioddefwr, maen nhw wedi cael eu hecsbloetio mewn llawer o ffyrdd. (John)

O ganlyniad, cwestiynodd rhai gweithwyr proffesiynol, yn enwedig y rhai mewn rolau gorfodi'r gyfraith neu arbenigwyr ar gamfanteisio troseddol ar blant, pa mor ddefnyddiol yw'r gwahaniaeth rhwng camfanteisio troseddol ar blant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Gan hynny, mae'r adroddiad hwn yn mabwysiadu'r term 'camfanteisio ar blant' i adlewyrchu'r amrywiaeth o gyflawnwyr, gweithgareddau troseddol, a'r amrywiaeth o gamdriniaeth gorfforol a rhywiol mae plant yn eu dioddef pan fyddant wedi cael eu hecsbloetio.

5.0 Beth sy'n gwneud plant yn agored i gael eu hecsbloetio? Canfyddiadau gan blant

5.1 Materoliaeth a diwylliant ieuenctid

Roedd y rhan fwyaf o blant wedi cael eu hecsbloetio i droseddu drwy'r addewid o arian. Roedd gweithgareddau delio â chyffuriau yn cynnig cyfle i blant gael eu cynnwys ym mywyd prif ffrwd a arddangosir gan y ffyrdd o fyw a'r gwisgoedd â brand sydd gan artistiaid rap poblogaidd a bortreadir yn y cyfryngau (cf. Young, 1999). O ganlyniad, roedd plant nad oeddent yn gallu fforddio eitemau o'r fath yn amlwg iawn ac mewn perygl o deimlo eu bod wedi eu hallgáu'n gymdeithasol. Adroddodd plant fod camfanteiswyr yn manteisio ar y diffyg cyfalaf ariannol a chymdeithasol (Bourdieu, 1985), gan dargedu plant nad oedd ganddynt y modd i brynu nwyddau drud na'r rhai a ddenwyd gan yr addewid o ffordd o fyw afradlon:

Fel gwerthwyr cyffuriau, maen nhw'n eu llwgrwobrwyo gyda'r ffonau symudol gorau, tracwisgoedd neis, esgidiau neis, fel pethau fel yna ... Os yw plant fy oedran i yn gweld rhywun, mewn tracwisg neis, dywedwch, fel tracwisg sy'n werth £1,000, côt £1,000, esgidiau £500, iPhone £1,000 math o beth, neu os oedd rhywun arall yn cynnig ... swydd, mae'n debyg y byddent yn dewis y tracwisgoedd ac ati. (Cameron)

Ymhlyg yn y cynnig hwn roedd yr awgrym bod gwneud arian yn hawdd. Dywedodd y plant nad yw plant yn gweld y risgiau eu hunain, naill ai am eu bod yn ystyried eu hunain fel 'y dyn mawr' fel mae Isaac yn ei ddisgrifio isod, neu am nad ydyn nhw'n credu y bydd yn digwydd iddyn nhw eu hunain. Yn wir, roedd ymdeimlad bod plant yn cael eu targedu yn ystod y cyfnod o lencyndod cynnar lle nad yw cymhwysedd hunanreoleiddiol wedi datblygu eto (Steinberg, 2004). Yn ôl Isaac, roedd hyn yn cael ei ddwysáu gan y diffyg sancsiynau y gellir eu defnyddio yn erbyn plant:

Os bydd unrhyw un yn ceisio eich taro chi, mae hynny'n anghyfreithlon - er enghraifft, eich mam, athrawon, ac os bydd unrhyw un yn ceisio gwneud unrhyw beth, gallwch roi gwybod i rywun amdanyn nhw. Ydych chi'n gweld? Yma, gallech ddweud, yn eu hachos nhw, yn bobl ifanc 14 oed, pobl ifanc 15 oed, fy hunan, y gallen nhw wneud beth bynnag maen nhw eisiau ei wneud. Dyna maen nhw'n ei feddwl. Dyna maen nhw'n ei feddwl. Maen nhw'n meddwl mai fi yw'r bos yn awr. Rydw i'n gallu gwneud hyn, rydw i'n gallu gwneud y llall. Rydw i'n gallu ysmygu, rydw i'n ddyn go iawn. Rydw i eisiau merch. Rydw i eisiau gwneud hyn, ydych chi'n deall? Rydw i eisiau mynd i bartïon. Dyna maen nhw'n ei feddwl. Dyna maen nhw ei eisiau. Rydw i eisiau yfed; Rydw i eisiau gwneud ffrindiau. (Isaac)

Ac eto, roedd y plant yn ymwybodol o'r sancsiynau y gallai'r bobl a oedd yn manteisio arnynt eu defnyddio:

Roedden nhw'n dweud wrthyf faint oedd angen i mi ei roi iddyn nhw. Roedden nhw'n dweud, os wyt ti'n gwneud llanast o bethau, ti fydd yn gorfod talu. Os

ydydych chi'n delio cannabis yn lleol [ar ran deliwr lleol] ac gwneud llanast o bethau, mae'n bosib y byddan nhw'n eich curo chi. Ond mae hyn yn wahanol. Os ydydych chi'n gwneud llanast o bethau gyda nhw [llinellau sirol] mae hi wedi darhod arnoch chi. (Liam)

Dywedodd cyfranogwyr fod plant yn parhau i gymryd rhan hyd yn oed ar ôl dioddef trais difrifol.

5.2 Ansefydlogrwydd addysg

I ategu canfyddiadau blaenorol, canfuwyd cysylltiad rhwng camfanteisio troseddol ar blant ac ansefydlogrwydd yn yr ysgol neu'r coleg, drwy waharddiadau cyfnod penodol neu barhaol a/neu absenoldeb (Comisiynydd Plant, 2019; Clarke, 2019; Comisiwn Trais Ieuencid, 2018). O ran ansefydlogrwydd ac allgáu addysgol, roedd yn ymddangos bod hyn yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys bwlio, anghenion dysgu ychwanegol a/neu faterion yn ymwneud ag ymddygiad. Yn ôl sawl plentyn, gellid defnyddio absenoldeb fel arwydd rhybudd o gamfanteisio troseddol posibl ar blant wrth iddynt ddisgrifio'r daith o gyfraddau presenoldeb is, i aros allan yn hwyr, hyd at ymbellhau oddi wrth aelodau o'r teulu. Dangosodd y canfyddiadau fod mwy o absenoldeb ac ymbellhau o'r ysgol ac addysg bellach hefyd yn wir lle'r oedd plant wedi cyflawni'n dda yn yr ysgol o'r blaen. Canfuwyd mai ymddieithrio ac ymbellhau o'r ysgol ynghyd â hanes o ymddygiad heriol oedd achos gwahardd plant yn yr Asesiad Tystiolaeth Cyflym (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent, 2020) yng Nghasnewydd. Felly, gall mwy o absenoldeb fod yn rhagflaenydd i waharddiad.

Yn y bôn, cefais fy nghicio allan. Ac roeddwn i'n meddwl, "Does dim gobaith" ac roeddwn i'n llythrennol yn teimlo'n hollol crap. Felly ers hynny – es i ar drywydd go wallgo' (Jordan).

Gallai hyn sbarduno ffactorau bod yn agored i gamfanteisio wrth i blant gael eu heithrio o gyfleoedd a gynigir gan addysg yn ogystal â chael eu hallgáu'n gymdeithasol o'u grwpiau cyfoedion. At hynny, mae gwahardd o'r ysgol yn rhoi mwy o amser i unigolyn ifanc ymgysylltu â grwpiau cyfoedion negyddol a gweithgareddau troseddol (Smith a Hughes, 2019).

5.3 Dylanwad gan gyfoedion

Pwysleisiwyd dylanwad pwysau gan gyfoedion a sylwadau negyddol gan ffrindiau agos gan blant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio. Adroddodd y grŵp hwn fod plant yn aml yn ymdrechu i gadw cyfeillgarwch a statws a all arwain at ddynwared ymddygiadau gwael gan gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau delio â chyffuriau neu fathau eraill o droseddoldeb. Disgrifiodd Jordan y broses gynnil o feithrin amhrifodol a recriwtio a ddechreuodd 'bechgyn hŷn', neu werthwyr cyffuriau:

Mae rhai pobl yn gweld y grwpiau hyn o fechgyn y tu allan i'w tŷ – bob amser yn ymlacio ac yn meddu ar arian ac yn yfed - ac maen nhw'n meddwl mai dyna'r ffordd iawn o fyw eu bywydau. Felly, er enghraifft, gadewch i ni ddweud bod gang y tu allan i'ch tŷ. Grŵp o fechgyn yn gwisgo dillad smart ac ati. Felly, mae plant ifanc bob amser yn eu hedmygu. Mae rhai ohonynt hyd yn oed yn rhoi rhywfaint o arian i'r bobl ifanc. Rhywfaint o arian mân. Felly pan fyddan nhw'n tyfu i fyny –

mae ganddyn nhw'r parch a'r cariad yma at yr unigolyn hwnnw. Gallai fod cyn lleied â phunt, dwy bunt neu bum punt neu ddeg punt. (Jordan)

Mewn rhai ffyrdd mae'r broses hon yn debyg i berthynas rhwng rhieni a phlant, lle mae'r bechgyn hyn yn rhoi arian poced i blant. Mae'r broses hon yn meithrin ymddiriedaeth ac yn datblygu perthynas lle gall camfanteisio ddigwydd. Yn wir, ar ôl sefydlu eu hunain fel pobl i'w hedmygu, aeth Jordan ymlaen i ddisgrifio sut aeth plant at y rhai a gamfanteisiodd arnynt gan ofyn a allent 'weithio' iddynt:

Ac fe ddywedon nhw, "Rydwi eisio bod gyda chi." Ac yna mae'n dod i'r pwynt hwnnw – maen nhw'n dweud "Mae angen arian arna i." lawn. "Ga i weithio i chi?" Dyna'r cwestiwn cyntaf maen nhw'n ei ofyn i chi. Ac yna rydych chi'n dweud, "lawn." Dydydych chi ddim yn mynd atyn nhw. Peidiwch â mynd atyn nhw oherwydd mae angen i chi wybod sut rai ydyn nhw. Ydyn nhw'n mynd i achwyn? Mae cymaint i'w ystyried. Oes. (Jordan)

Mae dylanwad cyfoedion yn arbennig o amlwg yn ystod y glasoed cynnar (Uned Arloesi, 2019).

5.4 Rhwymedigaeth dyledion

Yn ogystal â rhoi arian poced i blant, defnyddiwyd canabis fel bachyn i'w ecsbloetio. Digwyddodd hyn mewn dwy ffordd, naill ai drwy gyflwyno canabis i blant neu atgyfnerthu defnydd presennol yr unigolyn ifanc. O ran bod yn agored i niwed, dangosodd canfyddiadau Adolygiad y Fonesig Black o Gyffuriau (2020) fod plant sy'n hysbys i wasanaethau plant ac y bernir eu bod yn gysylltiedig â gangiau wyth gwaith yn fwy tebygol o ddefnyddio cyffuriau. Defnyddiwyd cyffuriau hefyd i rwystro neu anghofio am broblemau. I Isaac, roedd hyn yn dilyn cam-drin corfforol gan ei dad a'i deimladau nad oedd neb yn ei garu nac yn ei ddeall:

O'm rhan fy hunan, yr hyn sydd ar fy meddwl ar hyn o bryd, oherwydd dro'n ôl roeddwn i'n meddwl nad oedd neb yn fy ngharu, doedd neb yn fy ngharu i, roedd y crac yn fy ngharu, roedd y canabis yn fy ngharu, rwyd ti'n gweld. Doedd neb yn fy ngharu i.

Yn yr achosion hyn, defnyddiodd gwerthwyr cyffuriau 'strapio' neu 'ar y llechen', lle rhoddwyd cyffuriau i blant a chaniatawyd iddynt dalu amdanynt yn ddiweddarach, i dynnu'r unigolyn ifanc i ddyled:

Felly fe fyddan nhw'n eu targedu. Fe fyddan nhw'n dechrau sgorio ganddyn nhw, mae merched yn gaeth i fag yr wythnos, rydw i wedi ei weld yn digwydd - gofyn ga i aros yn dy le di, ac yna wythnos neu ddwy yn ddiweddarach, mae hi'n gorfod cael 5 bob dydd ac ni all fforddio talu amdano, ac maen nhw'n ei gorfodi i werthu ei chorff. (Rob)

Dyweddodd y plant fod y potensial o ganlyniadau treisgar am golli arian neu gyffuriau yn amlwg. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol wrth ymgysylltu â'r heddlu, oherwydd 'pe bai'r heddlu'n cymryd gwerth £500,000 oddi arnynt, yna byddai'n rhaid i'r plant dalu £500' i'r delwyr (Cameron). Pan ddigwyddodd hyn roedd y '... bachgen wedyn yn gorfod mynd i egluro bod y stwff wedi cael ei gymryd oddi arnynt nhw. Dyna pryd mae pethau yn troi'n gas' (Rob). Gall cael y cyfle i werthu cyffuriau er

mwyn ad-dalu dyledion fod yn ddewis amgen deniadol i ganlyniadau treisgar bondiau dyledion, gan gynnwys offer, trais rhywiol, ac arteithio (Robinson, McClean a Densely, 2019).

6.0 Sut mae plant yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn? Canfyddiadau rhieni

Er bod rhieni wedi sylwi ar newidiadau yn agweddau, ymddygiadau a grwpiau cyfoedion eu plant, roedd diffyg gwybodaeth am gamfanteisio yn golygu nad oedd hyn yn aml yn cael ei nodi, ei ddeall nac yn cael sylw. Cafodd y newidiadau hyn eu dwysáu gan yr oedran y caiff plant eu targedu gan fod glasoed fel arfer yn gysylltiedig â newidiadau mewn ymddygiad a symudiad tuag at annibyniaeth. Gan hynny, roedd y rhan fwyaf o rieni'n rhesymoli newidiadau cychwynnol mewn ymddygiad i'r glasoed, gan ei gymell i fod yn gam datblygu arferol tuag at greu hunaniaeth eu plentyn ei hun. Roedd y rhesymoli hwn yn cael ei ddwysáu gan y modd mae'r meithrin amhriodol yn digwydd. Awgrymodd y canfyddiadau fod y broses feithrin amhriodol yn cynnwys sawl cam gwahanol, er nad yw bob amser yn y dilyniant a ddisgrifiwyd gan Celeste:

Felly, roedd pethau'n digwydd bron fel camau babanod oherwydd bod y newidiadau i ymddygiad wedi dechrau, yna'r trais, trais eithafol yn fy erbyn, ac ymddieithrio oddi wrth deulu ac addysg a gweithgareddau eraill. Felly mae hi bron fel proses gam wrth gam. Ac yna bryd hynny, roedd llawer o benodau coll i'r pwynt lle'r oedd yn wirioneddol anesboniadwy o ran lle'r oedd yn mynd a gyda phwy roedd yn treulio ei amser. (Celeste)

O'u hystyried ar eu pen eu hunain, gellid priodoli pob cam i amgylchiadau neu sbardunau penodol fel hwyliau yn newid yn eu harddegau, datgysylltiad naturiol oddi wrth y teulu neu heriau o fewn addysg. Thema gyffredin oedd anghrediniaeth rhieni y gallai hyn ddigwydd i'w plentyn neu y gallai eu plentyn fod yn rhan o weithgareddau mor ddifrifol. Dywedodd sawl rhiant yn benodol nad oeddent eisiau gwybod pa weithgareddau roedd eu plentyn wedi bod yn rhan ohonynt. Yn yr ystyr hwn, roedd rhieni'n cael trafferth gyda'r wybodaeth bod camfanteisio wedi gwneud eu plentyn yn ddioddefwr ac yn gyflawnwr. Yn wir, hyd yn oed ar ôl blynyddoedd lawer, mynegodd rhieni sioc ac anghrediniaeth y gallai hyn fod wedi digwydd i'w plentyn a'u teulu. Disgrifiodd y rhan fwyaf o rieni geisio 'cael yn ôl' y plentyn a oedd ganddynt cyn i'r camfanteisio ddigwydd:

Ceisio cael yn ôl y plentyn a oedd gennyf, a oedd yn blentyn parchus, caredig, cariadus, oherwydd trodd yn llwyr, fel anghenfil trychinebus, wyddoch chi, ac roedd hynny'n ofnadwy. (Celeste)

Felly, roedd y sampl yn unfrydol y gallai hyn ddigwydd i unrhyw blentyn waeth beth fo'i amgylchiadau teuluol neu'r modd ariannol.

6.1 Pontio

Amlygodd y canfyddiadau dri phrif gyfnod pontio a allai gael effaith negyddol ar natur fregus unigolyn ifanc: pontio cynradd i uwchradd, symudiadau wedi eu rheoli a phontio i'r coleg. Yn gyntaf, cyfeiriwyd at y newid o addysg gynradd i addysg uwchradd gan fod hyn yn dynodi cyfnod lle gall plant newid ac ymestyn eu grwpiau cyfoedion presennol. Yn wir, mae'n bosibl y bydd rhai plant yn

ei chael hi'n anodd ffurfio grwpiau cyfoedion newydd, yn enwedig y rhai sydd â phersonoliaethau tawelach neu anghenion dysgu ychwanegol wrth i nifer o ddisgyblion ysgolion cynradd llai ymuno mewn un ysgol uwchradd fwy. Nododd Helen fod rhai plant ysgol uwchradd yn cael eu targedu'n benodol ni waeth pa ysgol maent yn ei mynychu:

Na, wnaeth o ddim cael trafferth gyda'r newid na dim byd. Dwi'n meddwl mai rhywbeth oedd yn digwydd lle mae plant yn cael eu targedu yn yr ysgol uwchradd... rhai grwpiau o blant mewn gwahanol ysgolion uwchradd i gyd yn agos at ei gilydd, a hyd yn oed os yw eich plentyn mewn ysgol arall byddai plentyn o ysgol arall yn dal i gysylltu â'ch plentyn. (Helen)

Mewn rhai achosion, roedd rhieni wedi darganfod bod eu ffrindiau sy'n oedolion eu hunain wedi meithrin eu plant mewn modd amhriodol. O ganlyniad, roedd y rhieni'n ansicr pwy gallent ymddiried ynddynt. Roedd hyn yn tynnu sylw at y graddau roedd gwerthwyr cyffuriau wedi amharu ar fywydau plant a oedd wedi'u hecsbloetio ac ar eu teuluoedd. Roedd tystiolaeth hefyd bod gwerthwyr cyffuriau wedi dwyn y cysylltiadau o ffonau plant fel y gallent ymestyn eu gweithgareddau delio. Ar ôl eu paratoi, rhoddwyd ffonau 'llosgwr' i'r plant a oedd yn cael cyfarwyddiadau ynghylch mannau gollwng symiau o gyffuriau (yn amrywio o ganabis i sylweddau Dosbarth A).

Roedd y syniad bod rhai grwpiau o blant yn cael eu targedu yn ategu canfyddiadau cenedlaethol sydd wedi dangos cynnydd yn y broses o recriwtio plant o gefndiroedd cyfoethog fel strategaeth i osgoi cael eu canfod gan yr heddlu (Cymdeithas y Plant, 2019; Y Swyddfa Gartref, 2018; Hudek, 2018). Ategwyd hyn ymhellach gan Jay a nododd nad oedd unrhyw gymhelliant ariannol amlwg i'w blentyn gymryd rhan:

Oherwydd ei fod yn eithaf breintiedig yn y ffaith bod ganddo bopeth o gartref beth bynnag. Mae'n amlwg fod ganddo ei fam a'i dad, y ddau yn gweithio. Mae ganddo bopeth mae'n ei ddymuno, mae ganddo'r holl esgidiau sydd eu hangen arno neu ba ddillad bynnag, felly nid yw ef angen nac eisiau unrhyw beth. (Jay)

Yn ail, roedd plant a oedd wedi profi symudiadau ysgol a reolir yn cynrychioli grŵp agored i niwed. Gall gwaharddiad o'r ysgol leihau hyder, ymdeimlad o berthyn yr unigolyn ifanc ac amharu ar rwydweithiau cyfoedion a sefydlwyd yn barod. At hynny, gall lleoliad mewn Uned Cyfeirio Disgyblion arwain at amserlen lai sy'n golygu rhoi mwy o amser i'r unigolyn ifanc ei hun. Yn wir, awgrymwyd bod rhai plant yn cael eu hannog i gamymddwyn yn yr ysgol fel y byddant yn cael eu rhoi mewn Uned Cyfeirio Disgyblion am y rheswm hwn, "*Mae'n mynd mor bell ag ymddygiad yn yr ysgol fel y byddai'n cael ei roi mewn UCD, oherwydd eu bod yn gwybod bod UCD yn llai o oriau*" (Celeste). Ar ôl cyrraedd yno, dywedodd Jake, "mae fel eich bod chi'n eu gadael yn agored i'r bleiddiaid" wrth i werthwyr cyffuriau fanteisio ar deimladau'r unigolyn ifanc o hunanwerth isel a mwy o argaeledd:

Unwaith y bydd rhywun, wyddoch chi, yn rhoi rhai pethau i chi ac yn dweud wrthy'ch chi eich bod yn dda pan fyddwch chi wedi clywed eich bod chi'n dda i ddim yn yr ysgol, mae'n hawdd adeiladu'r math hwnnw o, ie, o deimlad o fod yn rhan o rywbeth a theimlo'n bwysig a'ch bod chi'n cael eich parchu gan oedolyn. (Jake)

Roedd effaith pontio a symudiadau ysgol hefyd yn amlwg ar lefel addysg bellach. Awgrymwyd y gallai gwerthwyr cyffuriau amharu ar sefydliadau addysg bellach drwy gael lle ar un o'r cyrsiau i

recriwtio newydd-ddyfodiaid yn unig (Lillian). Roedd hyn yn atgyfnerthu'r syniad bod pobl sy'n camfanteisio yn targedu cyfnodau ym mywyd yr unigolyn ifanc lle'r amharwyd ar eu rhwydwaith cymdeithasol a phan fyddant yn mynd ati i chwilio am grŵp newydd a'r ymdeimlad o berthyn. Mae canfyddiadau Cullen et al. (2019) hefyd wedi dangos newid tuag at feithrin myfyrwyr prifysgol yn amhriodol oherwydd cynnydd yn y defnydd o gyffuriau ymhlith myfyrwyr. Amlygwyd hyn yn arbennig mewn ardaloedd lle mae prifysgolion yn agos at drefi mawr a lle mae campysau'n hawdd eu cyrraedd.

6.2 Trwytho

Daeth trwytho i'r amlwg fel thema graidd ar draws yr holl gyfweiliadau. Yn ôl y rhieni, dechreuodd hyn yn y modd mae'r gwaith meithrin yn amhriodol yn digwydd, ac yna caiff ei atgyfnerthu drwy'r syniad bod cyfoedion yn 'deulu'. Rhoddodd un rhiant ddisgrifiad manwl o sut roedd eu mab wedi dod yn gyfaill i rywun ychydig flynyddoedd yn hyn:

Mae'n debyg i berthynas, oherwydd ar yr oedran hwnnw os yw eich cariad yn prynu rhywbeth rydych chi'n mynd am ginio - wyddoch chi, pethau fel yna, mae'n rhyfedd. Byddai'n gwneud pethau fel mynd â mi allan am fwyd, mae hynny'n beth mawr y bwyd hwn, mae'n mynd â mi allan am fwyd, tyrd i ni gael rhywbeth i'w fwyta ac ati. Felly, ie, dim ond cam bach o ran meithrin perthynas, does dim ots beth sydd gan blentyn, mae'n cael ei wneud i deimlo'n bwysig ac yn bwerus, ar oedran ifanc pan fydd hynny wedi cael ei dynnu oddi arnoch chi (Jake).

Defnyddiwyd y gweithgareddau meithrin perthynas hyn i ddatblygu ymddiriedaeth a chreu'r amgylchiadau lle mae plant yn edmygu'r bobl sy'n manteisio arnynt, gan eu darbwyllo i fod yn ffrindiau, yn fodolau rôl ac mewn rhai achosion yn ffigurau tadol; er mai dim ond ychydig flynyddoedd yn hyn na'r plentyn ydynt o bosibl (Clayman a Skinns, 2012). Yn yr ystyr hwn, gall aelodau'r grŵp llinellau sirol fod â statws 'lled-enwog' o fewn y gymuned (Storrod a Densely, 2017). Wrth wneud hynny, cyflwynwyd meithrin yn amhriodol fel proses soffistigedig a oedd yn rhoi'r cyfrifoldeb ar yr unigolyn ifanc gan eu bod yn ystyried bod eu hymwneud yn ddewis ymwybodol i ymuno â'r grŵp cyfoedion a mabwysiadu'r ffordd o fyw. Roedd y meithrin amhriodol hefyd yn tanseilio'r berthynas bresennol rhwng rhiant a phlentyn ac yn datgysylltu'r plentyn a'i deulu,

Yr hyn a ddigwyddodd, maen nhw wirioneddol yn pwysleisio hyn, mae'r bobl maen nhw'n ymwneud â nhw, mai ni yw eich teulu yn awr, nid yw eich teulu go iawn yn bodoli, nid yw eich teulu'n golygu dim, nid ydyn nhw'n gwneud dim i chi, ac fe wnawn ni ofalu amdanoch chi (Zoe).

Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod y datgysylltu hwn wedi ei atgyfnerthu mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, lle'r oedd rhieni'n herio ymddygiad eu plentyn neu'n ceisio gosod ffiniau neu sancsiynau. O dan yr amgylchiadau hyn, heriodd y plant y cwestiwn a oedd eu rhieni'n eu caru, gan bwysleisio mai dim ond eu 'teulu' newydd oedd yn deall ac yn gofalu amdanynt mewn gwirionedd. Yn ail, awgrymwyd y gallai plant gael eu hyfforddi mewn technegau i atal eu rhieni rhag ceisio cymorth. Disgrifiodd Elaine sut y dywedodd wrth ei mab am weithredu ar ei fygythiadau pan wnaeth ef fygwth dweud wrth yr awdurdodau ei bod hi'n ei gam-drin pe bai hi'n cysylltu â'r heddlu neu'r Gwasanaethau Plant.

6.3 Cyfnodau coll

Barnwyd mai cyfnodau coll oedd "y cliw mwyaf un" (Anita). Yn wir, mae mynd ar goll wedi cael ei sefydlu fel dangosydd allweddol o gamfanteisio a dylid ei ddefnyddio fel arwydd rhybudd bod plentyn yn cael ei ecsbloetio neu fel ymgais i ddianc rhag y rhai sy'n camfanteisio arnynt (Bonning a Cleaver, 2020, Wigmore, 2018, 2017, Sturrock a Holmes, 2015). Nodwyd gwahaniaethau yn y pellter a deithiwyd gan blant yn ystod cyfnodau coll, gyda rhai yn cael eu hanfon gryn bellter oddi cartref tra bod eraill yn aros mewn tai trap lleol. Mewn rhai achosion, roedd y troeon cyntaf o fynd ar goll yn gysylltiedig â sbardun penodol, fel dadl deuluol. Yn wir, anawsterau yn y berthynas ag aelodau o'r teulu yw un o'r rhesymau mwyaf cyffredin mae plentyn yn mynd ar goll o'i gartref (Hutchings et al., 2017). Dangosodd y canfyddiadau hefyd y gallai cyfnodau coll fod yn broses raddol o gadw draw o'u cartrefi gyda ffrindiau, fel y disgrifiodd Becky:

Mae newydd ddechrau diflannu a phaidio â dod adref, i'r graddau roeddwn i'n meddwl yn y lle cyntaf - iawn, mae e jyst yn ei arddegau ac mae e'n aros dros nos gyda ffrindiau gwahanol' ... Roeddwn i'n gwybod ei fod yn ddiogel ac yn gwneud yn siŵr bod ganddo fwyd ac ati, ac roedd yn dod adref yn achlysurol iawn. Ond yna fe stopiodd aros gyda'r ddau ffrind hynny, a doeddwn i ddim yn gwybod lle'r oedd e'n aros. (Becky)

Yn ogystal â materion arferol yn eu harddegau, priodolwyd newidiadau mewn ymddygiad i faterion penodol fel rhieni yn gwahanu, dylanwad negyddol gan gyfoedion, neu anawsterau yn yr ysgol. Roedd hyn yn golygu bod rhieni yn rhesymoli'r ymddygiadau hyn yn y lle cyntaf ac yn eu diystyru fel ymateb i'r amgylchiadau a oedd yn newid yn y teulu. Amlygodd hyn thema gyson ar draws cyfweiliadau rhieni lle'r oedd rhieni'n ymwybodol bod eu plentyn yn ymddwyn yn groes i'w gymeriad, ond heb fawr ddim gwybodaeth am gamfanteisio troseddol ar blant, cafwyd esboniadau eraill am yr ymddygiad.

Roedd y canfyddiadau'n gymysg mewn perthynas â phatrwm y cyfnodau coll, gyda rhai plant wedi mynd am gyfnod o 24 awr tra bod eraill ar goll am wythnosau. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni nad oeddent yn gwybod lle'r oedd eu plentyn na gyda phwy yr oeddent. Dywedodd llawer eu bod wedi gwneud ymdrechion mynych i gysylltu â'u plentyn i'w perswadio i ddod adref a gwirio a oeddent yn dal yn fyw. Mewn dau achos, roedd rhieni wedi cael fideos Snapchat o'u plentyn. Yn achos Becky, dangosodd y fideo, "*lle'r oedd y mab mewn tŷ [trap] gyda'r hyn oedd yn edrych fel pobl yn gaeth i gyffuriau a rhai plant eraill*" (Becky), tra bod Ella wedi cael fideo o'i phlentyn yn cael ei niweidio, "roedd wedi cael ei guro, ymosodwyd arno ... cafodd ei ffilmio ac yna anfonwyd y fideo o'r digwyddiad ataf. Roedd yn ofnadwy ac yn y pen draw bu'n rhaid iddo fynd i'r ysbyty". Lle disgrifiodd rhieni batrymau o gyfnodau mynych, byrrach, roedd yn ymddangos nad oedd llawer y gallent ei wneud wrth ofyn am gymorth gan yr heddlu neu wasanaethau eraill:

Erbyn hynny dwi'n meddwl bod rhywun ... yn ei anfon hyd yn oed ymhellach i ffwrdd a dyna pryd y bu'n rhaid i mi ddechrau dweud "Edrychwch, mae'n diflannu am 24 awr yn unig" ond dyna lle syrthiodd y bylchau i mi. Fe ddywedon nhw [y gwasanaethau] "Wel, mae e bob amser yn dod yn ôl y diwrnod wedyn, felly nid yw'n cael ei ystyried fe; rhywun sydd ar goll, ac roeddwn i'n meddwl - iawn, felly ni allaf wneud unrhyw beth o gwbl. (Kiara)

Roedd hyn yn her sylweddol i rieni gan nad oeddent yn gallu cael cymorth gan yr heddlu i gael eu plant i ddychwelyd adref. Hyd yn oed pan ymatebodd yr heddlu, nid oedd yr unigolyn ifanc yn cael ei ystyried ar goll os oeddent yn dweud eu bod yn aros gyda ffrindiau. At hynny, dangosodd y canfyddiadau pan aeth plant ar goll fod yr unigolyn ifanc neu gyfoedion wedi anfon neges destun at rieni i sicrhau bod eu plentyn yn iawn. Mewn un achos, roedd yr angen i gynnal cyfathrebu yn golygu bod y rhiant wedi creu cysylltiadau â'r camfanteiswyr er mwyn gallu gwirio bod eu plentyn yn ddiogel.

6.4 Trais

Roedd trais yn thema gyson ar draws y canfyddiadau. Roedd llawer o rieni wedi profi trais ac ymddygiad bygythiol gan eu plant. Yn ogystal, roedd nifer o rieni wedi cael ymweliadau bygythiol gan werthwyr cyffuriau yn y gwaith neu gartref. Roedd ymdeimlad bod trais difrifol yn rhan ddisgwyliedig o weithgareddau delio cyffuriau, a amlygwyd mewn tair ffordd. Yn gyntaf, nododd rhieni y defnydd o drais a gynhaliwyd fel rhan o seremonïau cychwyn. Yn ail, defnyddiwyd trais i sefydlu pŵer a rheolaeth dros blant. Roedd hyn yn cynnwys bygythiadau o drais tuag at blant a'u teuluoedd:

Maen nhw'n rhoi cyfarwyddiadau, o ran lle i fynd neu fe fyddan nhw, wyddoch chi, yn y rhan fwyaf o achosion, yn eu bygwth. Oherwydd fy mod i'n cofio bod fy mab yn arfer dod ataf a dweud, "Mam, dydych chi ddim yn deall, mae'n fwy na chi, mae'n fwy na phawb. Alla i ddim egluro, Mam, mae'n ormod. Alla i ddim, Mam, ond plis, ymddiriedwch ynof, ymddiriedwch ynof." Ond gallwn weld yr ofn yn ei lygaid. (Amanda)

Dangosodd y canfyddiadau hefyd fod plant yn aml yn dioddef trais gwirioneddol. Roedd hyn yn cynnwys cael eu curo ag offer metel, eu trywanu a thorri croen yr wyneb. Roedd un rhiant yn cofio ei fod yn meddwl y byddai hyn wedi rhoi terfyn ar gyfraniad eu plentyn ond dywedodd "*ni ddigwyddodd hynny, ac aeth pethau'n waeth*". Yn drydydd, neilltuwyd pŵer a rheolaeth i blant. Roedd hyn yn cyd-fynd â datblygiad drwy'r hierarchaeth wrth i blant symud o fod yn 'redwyr' tua 13 oed, lle'r oeddent yn casglu ac yn danfon cyffuriau, i'r 'to hŷn', yn ymwneud â recriwtio a masnachu plant eraill tua 15 oed. Roedd hyn yn cynnwys bod yn gyfrifol am dŷ trap.

Wyddoch chi, nid ydyn nhw'n sensitif i'r cyfan - mae'n cael ei alw'n fwyd, rydych chi'n rhoi eu bwyd iddyn nhw, nhw yw'r rhai sy'n gaeth, dydi'r llywodraeth ddim yn eu helpu nhw, rydyn ni'n rhoi gwasanaeth iddyn nhw, a dyna sut mae'n cael ei werthu iddyn nhw. Felly, mae popeth yn cael ei ddadsensiteiddio i'r pwynt hwnnw ac rydych chi'n cael pŵer ar yr oedran hwnnw, a chi sy'n rheoli. (Jake)

Roedd y rheolaeth hon yn cynnwys plant mor ifanc â 14 oed yn rheoli pobl sy'n gaeth i gyffuriau yn eu 30au a'u 40au. Mae canfyddiadau ymchwil wedi dangos, lle mae plant yn cael eu hecsbloetio'n droseddol, y gallant fod yn ddioddefwyr ac yn gyflawnwyr trais (Maxwell et al, 2019). Gall defnyddio bondiau dyled olygu bod plant yn fwyfwy taer yn eu hymdrechion i dalu'r dyledion hyn neu gadw eu statws gan eu bod yn teimlo eu bod wedi eu dal mewn sefyllfa lle nad oes cymorth ar gael iddynt (Uned Trais a Breguswydd, 2018).

7.0 Dulliau ac ymyriadau effeithiol o ran camfanteisio troseddol ar blant. Canfyddiadau pobl broffesiynol

7.1 Dulliau gweithredu yn y gymuned.

Yn ôl gweithwyr proffesiynol, roedd camfanteisio troseddol ar blant yn golygu bod angen ffyrdd newydd o weithio, gan fod yr ymatebion diogelu presennol yn tueddu i fod yn seiliedig ar 'blant o dan 12 oed, neu lle mae cam-drin teuluol' (Nick) yn hytrach na niwed y tu allan i'r teulu a risgiau a achosir yn y gymuned ehangach. Awgrymodd y canfyddiadau fod rhai awdurdodau lleol wedi dechrau gweithio'n barod i fynd i'r afael â niwed y tu allan i'r teulu, ond dim ond yn gymharol ddiweddar y rhoddwyd yr enw 'diogelu cyd-destunol' fel cyfres o egwyddorion y gellir eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddiogelu grwpiau cyfoedion a mannau yn hytrach na chanolbwyntio ar un unigolyn ifanc. Yr hyn a ymddangosai'n newydd oedd sefydlu cyfarfodydd strategaeth amlasiantaethol yn canolbwyntio ar gamfanteisio a mwy o ystyriaeth o leoedd lle gallai plant fod yn fwy agored i gael eu hecsbloetio (Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan, 2018). Nod y cyfarfodydd hyn sy'n canolbwyntio ar y plentyn oedd cynhyrchu cyfres o gamau gweithredu a oedd yn mynd y tu hwnt i reoli risg i gynnwys ystyried llesiant cyffredinol y plentyn ac atal niwed yn y dyfodol. Roedd mabwysiadu safbwynt ehangach yn galluogi cysylltu gwybodaeth sy'n ymddangos yn wahanol er mwyn nodi grwpiau cyfoedion negyddol penodol a/neu leoedd lle'r oedd plant mewn perygl. Daeth canfyddiadau cymysg i'r amlwg yn y mecanweithiau a ddefnyddiwyd gan wasanaethau i wneud hyn. Yn gyffredinol, nodwyd tair thema. Yn gyntaf, mewn rhai awdurdodau lleol, cynhaliwyd hyn drwy weithiwr proffesiynol sylfaenol yr oedd ei rôl yn ei alluogi i gasglu a rhannu gwybodaeth â gweithwyr proffesiynol eraill ac ar draws asiantaethau:

Mae'n bosib y byddaf yn siarad ag unigolyn ifanc a fydd efallai'n rhoi un enw i mi yn unig, os o gwbl, ond yna mae'n bosib y byddaf yn mynd i siarad ag unigolyn ifanc arall, wythnos yn ddiweddarach, efallai, ac mae'n bosib y byddan nhw'n rhoi mwy o wybodaeth i mi. Felly, mae'n fater o goladu'r wybodaeth honno gyda'i gilydd ac yna, yn amlwg, yr hyn rydw i'n ei wneud â'r wybodaeth honno, rydw i'n rhannu hynny o fewn y gwasanaethau i blant ac rydw i hefyd yn ei rannu gyda'r heddlu. Ac, os yw'n unigolyn ifanc y tu allan i'r sir rwy'n rhannu hynny gyda'i awdurdod lleol ... Mae'n debyg i waith ditectif, yn y bôn, ac yn ymwneud â datrys cliwiau (Faith).

Roedd hyn yn adleisio canfyddiadau adroddiad Catch 22 ar gangiau yn Lloegr (Sturrock a Holmes, 2015:46) lle'r oedd gweithwyr proffesiynol yn gweld eu dull fel 'dod â'r darnau jig-so at ei gilydd; heb ffocws amlasiantaethol penodol ar y mater, gallai plant ddisgyn drwy'r rhwyd yn hawdd'. Roedd hyn yn gofyn am fabwysiadu dull amyneddgar a chysion o feithrin perthynas llawn ymddiriedaeth â phlant a'u galluogi i rannu gwybodaeth roeddent yn teimlo'n gyfforddus yn ei datgelu.

Yn ail, roedd awdurdodau lleol eraill wedi mabwysiadu egwyddorion diogelu cyd-destunol yn fwy ffurfiol ac wedi sefydlu prosesau i hwyluso hyn. Roedd hyn yn cynnwys creu mapio cyfoedion a/neu lle a oedd yn bodoli ochr yn ochr â chynlluniau gofal a chymorth plant unigol. Yn yr ardaloedd hyn,

y nod oedd tarfu ar gamfanteisio drwy greu mannau a lleoedd diogel i blant. Yn achos Olivia, cafodd hyn ei ddynodi gan newid yn ei harfer gwaith:

Pan ddechreuais i gyntaf, mae'n anodd iawn peidio â meddwl yn eich ffordd asesu gwaith cymdeithasol, oherwydd eich bod chi mor gyfarwydd â gwneud yr un peth, rydych yn dilyn yr un ddeddfwriaeth, yr un canllawiau ac nid yw'n dweud wrthy ch am feddwl am eu rhwydwaith cyfoedion ac nid yw'n dweud wrthy ch am feddwl am y gymuned maen nhw'n treulio amser ynddi. Mae'n dweud wrthy ch chi, "Beth mae mam yn ei wneud, beth mae nain yn ei wneud a beth mae'r ysgol yn ei wneud?" a dyna ni. (Olivia)

Un o heriau posibl y dull hwn oedd y ffordd orau o gasglu a deall yr wybodaeth hon fel bod dangosyddion risg yn cael eu neilltuo'n briodol a'u bod yn cael eu diweddarau.

Mae angen i chi fod yn glir iawn o ran pa fath o risgiau rydym yn edrych arnynt ac, os dyweder bod deg o bobl ar restr, bod yr heddlu'n gweld hynny ac nad ydynt yn meddwl yn awtomatig eu bod i gyd yn mynd i fynd a thrywanu rhywun - mewn gwirionedd, gallai un ohonynt fod yn ddrwg iawn a gallai'r gweddill fod yn gysylltiedig drwy god post neu rywbeth. Felly, mae hynny eisoes wedi bod yn fater dan sylw yn yr ystyr hwnnw. (Yvonne)

Adroddwyd am ganfyddiadau tebyg gan Wroe (2021), a ganfu fod y broses hon yn dibynnu ar symleiddio cymhlethdodau bywydau plant ac yna trosi risgiau a nodwyd i waith gyda'r unigolyn ifanc drwy bartneriaid amlasiantaethol sydd â blaenoriaethau croes yn aml. Roedd canfyddiadau Lefevre et al. (2020) yn dangos bod gweithredu diogelu cyd-destunol ym Mwrdeistref Hackney yn Llundain yn gysylltiedig â gwelliannau wrth asesu risg a niwed y tu allan i'r teulu. Fodd bynnag, daethant i'r casgliad ei bod yn rhy gynnar i bennu effaith diogelu cyd-destunol a chanlyniadau ar lefel plant.

Yn olaf, roedd rhai ardaloedd wedi cwmpasu ystyriaeth o gyfoedion a lleoedd o fewn cyfarfodydd strategaeth camfanteisio. Cynhaliwyd y sgysiau hyn rhwng y gwahanol asiantaethau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ac roeddent yn galluogi datblygu cynlluniau y gellid eu defnyddio i amharu ar weithgareddau ecsbloetio, neu gydweithio i wneud lleoedd yn ddiogel i blant - er enghraifft, ychwanegu goleuadau priodol neu gynyddu presenoldeb yr heddlu mewn ardaloedd penodol. Roedd yr heriau ar draws y tri dull yn cynnwys yr angen i brynu i mewn gan bob asiantaeth, sefydlu cytundebau rhannu gwybodaeth ac osgoi dyblygu gwaith fel nad oedd gwahanol weithwyr proffesiynol yn gofyn yr un cwestiynau i blant dro ar ôl tro.

Ochr yn ochr ag ystyried yr amgylchedd sy'n gysylltiedig ag unigolyn ifanc a'u perthynas â chyfoedion, roedd angen i'r gymuned dderbyn bod plant yn defnyddio lleoedd a mannau:

Mae 'na wahaniaeth rhwng loetran mewn lloches bws a bod yn grŵp mawr o blant yn jocio ac yn gwneud yr hyn mae plant yn ei wneud, yn hytrach na bod yn fygythiol, ac achosi difrod, ac achosi problemau, ac mae'r cyhoedd yn ei chael hi'n anodd gweld y gwahaniaeth rhwng y ddau. (Nick)

Tynnodd sawl gweithiwr proffesiynol sylw at y gwahaniaeth hwn mewn perthynas â McDonald's fel lle a nodwyd yn gyffredin i blant ymgynnull. Ar un llaw, nodwyd bod McDonald's yn boblogaidd gyda phlant gan ei fod yn darparu mynediad Wi-Fi am ddim ac yn darparu lle iddynt gwrdd â ffrindiau. Ar

y llaw arall, lle'r oedd plant yn picio allan yn gyson i geir, nodwyd bod hyn yn broblem gan y gallent fod yn ei ddefnyddio fel man delio cyffuriau. Yn hytrach nag atal plant rhag treulio amser ym McDonald's, dywedodd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol fod angen gwneud y lle hwn yn ddiogel i blant drwy amharu ar ecsbloetio a hyfforddi staff mewn technegau diogelu. Roedd y canfyddiadau'n cyfeirio at yr angen am newid diwylliannol lle mae aelodau'r gymuned yn cyfrannu at ddiogelu ac yn derbyn bod angen lleoedd ar blant i dreulio amser. Yn erbyn y cefndir hwn, cyfeiriwyd at 'chwalu' (Faith) clybiau ieuenctid a gwasanaethau ieuenctid, gyda'r naill a'r llall yn lleoedd diogel i blant ac yn ffordd o gefnogi plant sy'n agored i niwed a'u hatal rhag 'syrthio drwy'r craciau' (Faith). Yn wir, datgelodd canfyddiadau'r YMCA (2020) fod gwariant ar wasanaethau ieuenctid, sy'n cynnwys gwasanaethau cyffredinol fel canolfannau hamdden, diwylliant ac ieuenctid yn ogystal â gwasanaethau wedi eu targedu ar gyfer grwpiau agored i niwed, wedi gostwng mwy na chwarter ym mhob rhan o Gymru ers 2010/11. Felly, pwysleisiwyd yr angen am wasanaethau ieuenctid ataliol yn y gymuned.

7.2 Dulliau sy'n seiliedig ar wasanaethau.

Datgelodd y canfyddiadau y gall natur y ddarpariaeth gwasanaeth statudol fod yn rhwystr i gynnwys plant mewn pedair prif ffordd: y modd y nodir bod plant mewn perygl o gael eu hecsbloetio neu bod rhywrai'n camfanteisio arnynt, ymatebion i blant sy'n derbyn gofal, trothwyon gwasanaeth, a gwaith amlasiantaethol.

7.2.1 Adnabod plant

Yn gyffredinol, datgelodd y canfyddiadau ffafriaeth broffesiynol dros ymyriadau cynnar gan y gwelwyd bod hyn yn fwy effeithiol na cheisio dargyfeirio plant i ffwrdd ar ôl iddynt gael eu 'dychryn' mewn perthynas lle cawsant eu hecsbloetio. Daeth ymatebion cymysg i'r amlwg mewn perthynas â'r graddau yr oedd ysgolion yn nodi plant a oedd mewn perygl o gael eu hecsbloetio. Er yr awgrymwyd bod athrawon yn gallu sylwi ar 'faneri coch' (Ava), roedd dangosyddion gweladwy yn tueddu i gynnwys absenoldeb neu faterion ymddygiadol. Roedd hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb ar staff addysgu i fynd y tu hwnt i'r ymddygiadau amlwg a fynwyd gan y plentyn i nodi tystiolaeth o gamfanteisio posibl oddi wrth amgylchedd yr ysgol. Yn yr un modd, gall plant a oedd yn derbyn gofal ac sy'n byw'n annibynnol mewn trefniadau byw â rhywfaint o gymorth ddod yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant oherwydd 'patrymau ymddygiad sy'n peri pryder' (Mark). Yn ymarferol, roedd yn golygu, erbyn i weithwyr proffesiynol gael gwybod am gamfanteisio posibl, fod hyn yn aml ar ôl i'r unigolyn ifanc gael ei ecsbloetio:

Byddent [ysgolion] yn gweld ar yr wyneb eu bod o bosibl mewn perygl ond yna, ar ôl i weithwyr ddechrau ymwneud â'r mater, roeddent yn gweld eu bod nhw'n barod yn ymwneud â masnachu mewn cyffuriau, rhedeg - hynny i gyd yn barod.
(Abigail)

Roedd hyn yn gysylltiedig ag anallu neu amharodrwydd plant i ddatgelu manylion am gamfanteisio i weithwyr proffesiynol (a drafodir yn fanylach yn ddiweddarach).

O ran cynnwys yr heddlu, roedd hyn yn tueddu i fod naill ai mewn ymateb i gyfnodau coll neu lle nodwyd bod unigolyn ifanc wedi cyflawni trosedd neu drwy weithrediad gan yr heddlu. Er gwaethaf gwahaniaethau yn y modd roedd yr heddluoedd yng Nghymru yn gweithredu, nodwyd bod y pedwar

llu wedi gweithredu timau arbenigol ar gamfanteisio troseddol ar blant. Roedd hyn yn golygu, pan oedd yr heddlu'n ymwneud â chyfnodau coll, y cynhaliwyd cyfarfod strategaeth amlasiantaeth naill ai pan ganfuwyd unigolyn ifanc mewn cyfeiriad ac yr amheuir ei fod yn cael ei ecsbloetio neu pan oedd unigolyn ifanc wedi cael tri chyfnod o fod ar goll. Lle nad oedd plant yn hysbys i wasanaethau o'r blaen, gallai'r cyfnod coll 'agor y drysau led y pen' (Amy) tra bod plant sy'n hysbys i wasanaethau yn ymddangos fel pe baent yn ysgogi ymateb mwy ataliol er mwyn osgoi dwysáu. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cyfweiliadau dychwelyd mewn perthynas â sefydlu pam roedd yr unigolyn ifanc wedi mynd ar goll:

Felly, rydyn ni'n ceisio dod o hyd i'r rhesymau hynny, ac yn mynd o safbwynt yr unigolyn ifanc i nodi eu hunain beth yw'r rhesymau hynny, yn hytrach na gwneud rhagdybiaethau, sy'n swnio'n amlwg iawn, ond weithiau mae hynny'n digwydd yn fy marn i, onid yw - hynny yw, bod pobl yn meddwl, o wel, eu bod nhw wedi mynd ar goll oherwydd hyn, llall ac arall, felly mae hynny'n bwysig iawn i'n cynllun. (Jane)

Lle barnwyd bod cyfnodau coll mewn ymateb i berthynas deuluol yn methu, cyfeiriodd nifer o weithwyr proffesiynol at y defnydd o gyfryngu i ailsefydlu perthnasau. Pan aeth plant a oedd yn derbyn gofal ar goll o gartrefi gofal, roedd hyn yn gysylltiedig â rhannu gwybodaeth gyfyngedig rhwng asiantaethau ac i ba raddau y rhoddwyd gwybod i'r gwasanaeth a oedd yn derbyn yr atgyfeiriad am y risgiau posibl i'r unigolyn ifanc.

Nododd llawer o weithwyr proffesiynol fwch o ran y graddau roedd gweithwyr proffesiynol yn gofyn am wybodaeth ynghylch lle'r oedd plant wedi bod, gyda phwy oeddent a pha weithgareddau roeddent wedi bod yn rhan ohonynt. Mae canfyddiadau ymchwil ehangach wedi dangos anghysondebau yn y defnydd o gyfweiliad dychwelyd ar draws awdurdodau lleol, gyda phlant o leoliadau y tu allan i'r ardal yn fwy tebygol o dderbyn darpariaeth wael (Grŵp Seneddol Hollbleidiol, 2017). Awgrymwyd bod angen mwy o ffocws ar erlid yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am gamfanteisio ar blant,

Oherwydd, fel arall, bydd plentyn am byth, wyddoch chi, yn cael ei ddefnyddio yn y senario hwnnw gan yr oedolion hynny. Nes byddwch chi'n symud yr oedolion hynny allan o'r darlun, mae'r plentyn yn mynd i barhau i fynd o gwmpas yn y cylch hwnnw, sef yr hyn sy'n digwydd. (Freya)

Felly, awgrymwyd bod mwy o ddefnydd o ymchwiliadau yn arf diogelu hanfodol. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol lle canfuwyd bod plant yn meddu ar gyffuriau, arian neu arfau a oedd yn cael eu harestio a barnwyd bod collfarn yn gymharol hawdd:

Mae'r cyfan yno yn llythrennol, oherwydd bydden nhw wedi cael eu dal mewn meddiant o gyffuriau, arian parod neu'r ddau. Yn aml, pethau eraill hefyd, fel llinell ffôn gyda negeseuon yn eu cyfeirio neu'n gofyn iddyn nhw brynu cyffuriau. Yn aml, fe fydden nhw wedi cael eu gweld yn trafod rhywbeth a byddai'r nwyddau wedi eu hadennill oddi wrth yr unigolyn arall (Noah).

Roedd rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod yr heddlu'n dechrau targedu eu gweithredoedd y tu hwnt i blant, gan droi eu sylw at y rhai hŷn ac uwch. Yn y cyfamser, lle daeth plant yn hysbys i'r

heddlu drwy gael eu harestio, deallusrwydd neu drwy weithred gan yr heddlu, cyfeiriwyd at y Gwasanaethau Plant.

7.2.2 Plant sy'n derbyn gofal

Datgelodd canfyddiadau ei bod yn bosibl y bydd pobl ifanc sy'n derbyn gofal neu a fydd yn derbyn gofal yn fwy agored i gamfanteisio wrth i rwydweithiau cyffuriau fanteisio ar eu dyhead i berthyn a'r cyfle i ennill arian. Yn ôl Mark, cafodd hyn ei ddwysáu lle'r oedd pobl ifanc yn credu bod manteision cymryd rhan yn drech na'r risgiau. Yn hyn o beth, mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn gweld y rhwydwaith cyffuriau fel 'rhwydwaith teuluol a chymorth na fyddent wedi ei gael o bosibl os oeddent yn derbyn gofal' (Yvonne). Yn fwy penodol, datgelodd y canfyddiadau bedwar prif grŵp o blant a oedd yn derbyn gofal. Yn gyntaf, dywedwyd bod pobl ifanc mewn gofal maeth yn fwy agored i niwed gan fod rhai pobl ifanc yn profi methiannau mewn gofal maeth tua 14 oed. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'n bosibl y cânt eu rhoi mewn llety â chymorth.

Os bydd unrhyw un yn cael ei recriwtio dyna lle maen nhw'n dod, mae'n anffodus iawn a chyn gynted ag y byddan nhw'n mynd i mewn i'r llety â chymorth hwnnw, dyna ni - rydw i'n arswydo pan maen nhw'n dweud mai dyna lle maen nhw'n mynd, o ddifri, oherwydd mae'r hyn sy'n digwydd yn yr adeiladau hynny'n ofnadwy. (Robert)

Yn gysylltiedig â dadansoddiadau lleoliad, nodwyd, lle'r oedd pobl ifanc yn profi methiannau lluosog mewn leoliadau, y gall hyn eu gadael yn 'picio i mewn ac allan o syrffio sofffa neu wely a brecwast weithiau, neu yn ôl ar y strydoedd' (Lyra). Yn ail, lle'r oedd pobl ifanc yn profi methiant teuluol tua 16 oed, roeddent yn gallu derbyn gofal. Yn ôl Leah, yn yr achosion hyn, gellir lletya pobl ifanc mewn hostel, ar ôl cyflwyno eu hunain yn ddigartref i'r Gwasanaethau Plant:

Felly, mae'r union ffaith eu bod nhw yn yr hosteli yn 16 oed, a'r tebygolrwydd nad oes ganddyn nhw'r cefndiroedd gorau yn golygu pan fyddaf yn cael eu cyfarfod nhw, pan fyddaf yn cael gwybod amdany'n nhw, maen nhw fel arfer yn eithaf pell i lawr y llwybr beth bynnag gan eu bod nhw wedi bod yn byw gyda'u rhieni ac nad ydyn nhw wedi cael pethau'n hawdd iawn. (Leah)

Yn drydydd, gellir rhoi ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain mewn mannau byw'n lled-annibynnol yn 15 oed. Gwelwyd bod y grŵp hwn yn arbennig o agored i niwed gan mai cyfalaf cymdeithasol ac economaidd cyfyngedig sydd ganddyn nhw, sy'n eu gwneud yn agored i gamfanteisio (Mark). Amlygodd y canfyddiadau yr angen am fwy o ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o lety fel y gellid gwneud penderfyniadau tai ar sail yr hyn oedd orau i'r unigolyn ifanc. Yn bedwerydd, gall pobl ifanc gael llety i ffwrdd o ddinasoedd mwy yn Lloegr mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Daeth hyn i'r amlwg yn arbennig o nodedig o ystyried nifer y cartrefi gofal mewn rhai rhanbarthau. I ategu canfyddiadau Caluori et al. (2020), tynnwyd sylw at ddiffyg rhannu gwybodaeth gan yr awdurdod lleol lleoli yn ogystal ag â sefydliadau eraill yn yr ardal leoli. O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd staff cartrefi gofal yn cael gwybod am y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â phobl ifanc. Mewn rhai achosion, dim ond ar ôl i'r unigolyn ifanc fynd ar goll y daeth hyn i'r amlwg. I'r heddlu, roedd hyn yn aml yn golygu nad oeddent yn ymwybodol bod ganddynt bobl ifanc yn eu hardal a allai fod wedi eu hymgorffori mewn llinellau sirol.

Fe'i rhoddwyd mewn cartref gofal yn ardal ein heddlu ac o fewn diwrnod neu ddau roedd wedi llwyddo i gael rhywun i'w nôl, a mynd ag ef yn ôl i ble bynnag mewn cerbyd. Felly dyma'r math yna o bethau rydych chi'n eu gwybod. Wn i ddim, dydw i ddim yn credu bod proses gadarn ar waith gyda symud plant o un rhan o'r wlad i'r llall a'r risgiau a'r rheolaeth risg o gwmpas y plentyn hwnnw. (Chloe)

Er i Chloe dynnu sylw at yr angen am broses rheoli risg gadarn, cyfeiriodd y dyfyniad uchod at sut llwyddodd yr unigolyn ifanc i gael rhywun i'w nôl. Roedd hyn yn adlewyrchu ymdeimlad canfyddedig o asiantaeth yr unigolyn ifanc yn eu gweithredoedd yn hytrach nag ymateb i gael eu rhoi bellter mawr o'u hardal gartref (Nick). Er bod y canfyddiadau'n awgrymu mai barn leiafrifol oedd hon, cyfeiriodd nifer o weithwyr proffesiynol at asiantaeth yr unigolyn ifanc. Er enghraifft, nododd Lyra, lle mae pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn hosteli ar ôl i'r teulu chwalu, eu bod yn 'rhydd yn gyfreithiol, eu bod yn colli rheolaeth yn llwyr am nad ydyn nhw'n byw gartref mwyach, a'u bod nhw'n gallu gwneud beth bynnag maen nhw eisiau ei wneud'. Roedd y syniad hwn o wneud yr hyn roedden nhw eisiau ei wneud hefyd yn gysylltiedig â'r rhyddid cyfyngedig a roddir i bobl ifanc pan fyddant yn derbyn gofal. Cyflwynwyd hwn gan Melissa:

Roedd e i ffwrdd am wythnos ac roedd yn warthus beth oedden nhw'n ei gael i'w wneud ... ond cafodd antur fawr. Roedd ei fywyd yn ddiflas, ac yn y ddinas, roedd yn gyfres o bartïon a mynd allan ... roedd ei fywyd yn ynysig, yn ddiflas, yn ddi-fflach. Nid oes gan bobl ifanc mewn gofal o reidrwydd y rhyddid i fynd i bartïon a chwarae yn yr un ffordd - ddim o gwbl. (Melissa)

Er bod hyn yn tynnu sylw at natur fregus y gellid manteisio arni, cyfeiriodd Melissa at yr unigolyn ifanc yn mynd ati i geisio cyffro, yn enwedig wrth iddi fynd ymlaen i holi 'beth sydd wedi mynd yn eich byd' yn sgîl y diffyg edifeirwch ymddangosiadol a arddangoswyd gan yr unigolyn ifanc. Yn hyn o beth, disgrifiwyd pobl ifanc sy'n derbyn gofal weithiau mor ifanc â 14 oed - fel rhai 'strydgall' a oedd yn gwybod 'yn union beth maen nhw'n ei wneud' (Georgia). I'r gwrthwyneb, nododd gweithwyr proffesiynol eraill nad yw pobl ifanc bob amser yn deall difrifoldeb neu ganlyniadau eu gweithredoedd. Cafodd hyn ei ecsbloetio hefyd gan y rhai sy'n manteisio arnynt wrth iddynt leihau difrifoldeb gweithgareddau troseddol.

Pan fyddan nhw'n recriwtio'r bobl ifanc, maen nhw'n lleihau difrifoldeb pethau, fel, "Y cyfan rydw i eisiau i ti ei wneud yw mynd â hwn i'r fan honno," wyddoch chi, dydyn nhw ddim yn dweud 'rydw i eisiau i ti fynd i drethu'r dyn hwn am werth miloedd o bunnoedd o gyffuriau gyda'r gyllell hon, oherwydd ni fyddai unrhyw un ifanc yn eu iawn bwyll yn dweud iawn, mae hynny'n swnio'n iawn i mi (Andrea)

Yn yr un modd, roedd unigolyn ifanc Melissa yn rhesymoli eu gweithgareddau ar y sail nad oedd unrhyw ddioddefwr unigol. Mae hyn yn ategu canfyddiadau o gyfweliadau â rhieni a wnaeth sylwadau ar yr iaith a ddefnyddiwyd gan eu plant - er enghraifft, 'bwydo' defnyddwyr cyffuriau yn hytrach na'u cyflenwi â sylweddau caethiwus.

7.2.3 Trothwyon gwasanaeth

Lle nodwyd bod plant mewn perygl neu'n rhan o gamfanteisio, daeth trothwyon gwasanaeth i'r amlwg fel rhwystr i ymgysylltu â phlant. Mae'r potensial i blant lithro drwy'r rhwyd oherwydd

trothwyon presennol y gwasanaeth gofal cymdeithasol wedi ei nodi mewn mannau eraill gan y Gymdeithas Plant (Turner, Belcher a Pona, 2019). Tynnodd gweithwyr proffesiynol sylw at ffocws gofal cymdeithasol ar niwed o fewn y teulu, a thrwy hynny at yr anawsterau sy'n rhan annatod o gychwyn ymateb amddiffyn plant i'w hecsbloetio. Gwaethygydd hyn gan yr heriau a wynebier gan asiantaethau cyfeirio wrth gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol,

Felly, un o'r pethau eraill rydym yn ei godi yw, os nad yw plant yn cyrraedd y trothwy risg hwnnw, gall hynny fod yn broblem eithaf mawr o ran cael gafael ar wasanaethau (Gemma)

Lle'r oedd achosion wedi arwain at leoliad ar y gofrestr amddiffyn plant, roedd hyn yn gysylltiedig â phresenoldeb ffactorau risg gweladwy. Er enghraifft, rhoddwyd unigolyn ifanc ar y gofrestr o dan esgeulustod lle'r oedd rhiant wedi 'methu ag adrodd' (Ava) bod eu plentyn wedi mynd ar goll dros nos. Yn ôl Megan, roedd diffyg risg weladwy a diffyg gwybodaeth broffesiynol am gamfanteisio troseddol ar blant yn aml yn golygu na fwrwyd ymlaen ag achosion:

Nid ydyn nhw'n ei weld, mae'n debyg, neu maen nhw'n gweld y gwendidau ond nid oes ganddyn nhw brawf. Dyna maen nhw ei eisiau - maen nhw eisiau cael gwybodaeth wedi ei chadarnhau ac nid yw pethau'n gweithio felly. Os oes amheuaeth, mae amheuaeth ac weithiau mae'n deimlad ym mên eich esgyrn, rydych chi'n gwybod, ac mae'n rhaid i chi barhau i gadw golwg ar hynny, ond rydw i'n meddwl ei bod yn hawdd iawn dweud fod pethau'n iawn pan nad yw hynny'n wir. (Megan)

Fel yr eglurodd Mark, mae Gwasanaethau Plant yn ei gwneud yn ofynnol i blant ddangos eu bod mewn risg barhaus er mwyn i weithiwr cymdeithasol gael ei neilltuo. Ac eto, gall camfanteisio fod yn risg amrywiol a gall gymryd amser i'r unigolyn ifanc ddatgelu'r hyn sy'n digwydd yn eu bywydau, 'os ydyn nhw mewn trafferth, maen nhw mewn trafferth, ac mae angen gwaith dwys arnyn nhw am flwyddyn o leiaf' (Megan). Yn ymarferol hyd yn oed pan fydd achosion yn cael eu neilltuo, mae'r Gwasanaethau Plant yn wasanaeth â chyfyngiad amser lle 'byddwch yn cael gweithiwr cymdeithasol am 6 i 12 mis, a dyna ni, mewn gwirionedd' (Mark). Er hynny, nododd Megan nad yw chwe mis yn ddigon o amser pan fydd plant yn cael eu hecsbloetio, yn enwedig gan fod angen amser i weithwyr sefydlu perthynas â'r unigolyn ifanc. Ystyriwyd bod y syniad o ddatblygu perthynas hefyd yn broblem oherwydd y lefel uchel o drosiant staff sy'n aml yn gysylltiedig â'r gweithlu gofal cymdeithasol (Waddell a Jones, 2018, Hussein et al., 2011.). Gall trosiant staff rwystro'r broses o ddatblygu ymddiriedaeth gyda phlant a rhieni. Yn ogystal ag absenoldeb staff, daeth trosiant ac oriau gwasanaeth i'r amlwg fel rhwystr i ymgysylltu â phobl ifanc. Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol y gallai darparu gwasanaethau sy'n gweithredu yn ystod oriau swyddfa yn unig fod yn anaddas ar gyfer mynd i'r afael â chamfanteisio. Roedd hyn yn seiliedig ar y syniad bod 'pethau'n gallu digwydd dros nos' (Ava) yn achos plant sy'n cael eu hecsbloetio, gan golygu bod angen ymateb ar unwaith.

Yr anhawster eto, serch hynny, gyda therfynau gwasanaethau, yw nad yw'r ffenestr bob amser rhwng naw a phump ac yn aml, mewn gwirionedd, mae hi wedi mynd heibio pump o'r gloch, a gyda'r nos maen nhw'n cyrraedd y pwynt ofnus hwnnw, ac nid oes neb i droi atyn nhw os ydyn nhw wedi cyrraedd y pwynt tyngedfennol hwnnw o ran pwysau, hefyd. (Ava)

Amlygodd tystiolaeth gan Malloch a Burgess (2011) y gall anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a gweithwyr cymdeithasol ar ddyletswydd frys arwain at rai plant yn cael eu cadw mewn gorsafoedd heddlu am gyfnodau hir.

7.2.4 Gweithio amlasiantaethol

Daeth gwaith amlasiantaethol i'r amlwg fel rhwystr a hwylusydd wrth ymgysylltu â phlant. Amlygodd y canfyddiadau fod y Gwasanaethau Plant mewn gwahanol ranbarthau a/neu awdurdodau lleol gwahanol wedi mabwysiadu gwahanol arferion o ran camfanteisio troseddol ar blant. Roedd sawl awdurdod lleol wedi mabwysiadu camfanteisio fel term ymbarél ar gyfer camfanteisio rhywiol ar blant a chamfanteisio troseddol ar blant. Roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â datblygu offer penodol wedi eu hanelu at asesu a chefnogi achosion o gamfanteisio. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn hefyd at ddatblygu rôl 'Gweithiwr Camfanteisio' arbenigol. Er bod llawer o weithwyr proffesiynol wedi dweud bod y rôl hon yn gweithio'n dda, awgrymwyd y gallai gofynion llwyth gwaith leihau gallu'r gweithiwr arbenigol i ymgysylltu â phlant:

Hoffwn weld rhyw fath o fatrics sgorio neu fformiwla i flaenoriaethu'r rhai sy'n cael eu hecsbloetio. Oherwydd, wrth siarad â swyddog unigolyn sydd ar goll/sy'n cael ei ecsbloetio yr wythnos hon, meddai, mae gennym garfan enfawr, ond nid oes gennyf unrhyw ffordd o flaenoriaethu pwy sydd angen ein sylw ni na sylw pobl eraill wrth gymharu ag unrhyw fachgen arall. (John)

Roedd hyn yn awgrymu bod angen system brysbennu neu recriwtio a/neu hyfforddi staff i ateb y galw. Er hynny, roedd mapio cymheiriad yn cael ei ddefnyddio mewn rhai awdurdodau lleol i ddynodi pa blant oedd yn camfanteisio, pa rai oedd yn ddylanwadwyr a pha rai oedd ar gyrion. Roedd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio lefelau angen ac ymatebion i wasanaethau.

Nodwyd gwahaniaethau lleol hefyd yn natur y cyfarfodydd a gynhaliwyd, yn amrywio o gyfarfodydd coll, wedi eu hecsbloetio a'u masnachu i gyfarfodydd strategaeth ecsbloetio lle trafodwyd y risgiau sy'n gysylltiedig â phlant. Yn gyffredinol, cafodd cyfarfodydd strategaeth amlasiantaethol eu cynnull gan y Gwasanaethau Plant ac roedd cynrychiolwyr y byd addysg, iechyd, a'r heddlu, gwasanaeth prawf, gwasanaethau troseddau ieuencid a sefydliadau'r trydydd sector fel Ymddiriedolaeth St Giles a Barnardo's yn y cyfarfodydd. Nod y cyfarfodydd hyn oedd rhannu pryderon fel y gellid datblygu cynllun i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, gan arwain at ddatblygu cynlluniau cymorth. Mewn rhai awdurdodau lleol, ond nid pob un, roedd hyn yn wir p'un a oedd anghenion yr unigolyn ifanc yn bodloni trothwyon gwasanaeth ai peidio. Lle'r oedd cyfarfodydd amlasiantaethol yn rhwystr posibl, dyma lle cyfeiriwyd plant at ymyriadau gan asiantaethau lluosog.

Rwyf wedi sylwi ar hyn dros y blynyddoedd yn gweithio o fewn y gwasanaeth, os yw plentyn yn arddangos yr ymddygiad hwnnw gadewch i ni eu cyfeirio at y gwasanaeth hwnnw, ac unwaith y bydd yr atgyfeiriad wedi mynd i mewn rydym wedi gwneud ein gwaith oherwydd eu bod yn arddangos yr ymddygiad hwnnw, mae angen y gwasanaeth hwnnw arnyn nhw. Felly, os yw plentyn yn arddangos pump neu chwe ymddygiad gwahanol, bydd ganddyn nhw bump neu chwe gwasanaeth gwahanol. (Leah)

Gwaethygydd y sefyllfa lle cyfeiriwyd aelodau o'r teulu hefyd at wasanaethau neu lle nodwyd yr angen am ddull teulu cyfan. Yn yr achosion hyn, gallai nifer o weithwyr proffesiynol o sawl

asiantaeth fod yn ymwneud ag un teulu. Law yn llaw â hyn roedd diffyg eglurder ynghylch llywodraethu. Pwysleisiwyd hyn yn arbennig lle'r oedd plant yn destun darpariaeth statudol gan asiantaethau lluosog:

Mae angen i ni lunio'r ymateb strategol hwnnw a thynnu'r asiantaethau at ei gilydd. Gan hynny, mae rhyw fath o wahanol fathau o weithgarwch gan yr heddlu, asiantaethau Cyfiawnder Ieuenctid a chan y Gwasanaethau Plant. Ond mae llawer ohono'n wahanol, ac nid yw'n cael ei dynnu at ei gilydd yn strategol nac yn meddu ar yr ymbarél hwnnw drosto o ran yr uwch arweinydd hwnnw'n ein tynnu ni at ein gilydd - camfanteisio ar blant, NRMs, beth yw ein safbwynt, beth yw ein hegwyddorion, ac yn y blaen. (Owen)

Ystyriwyd bod yr angen am ymateb strategol yn hanfodol ar gyfer cydgysylltu'r gwahanol asiantaethau. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol lle methodd plant â chyrraedd trothwyon gwasanaeth ar gyfer ymyriadau statudol ond lle'r oedd staff ysgol a/neu sefydliadau'r trydydd sector yn 'gweld patrwm yn dod i'r amlwg neu'n cydnabod mai hwn fyddai'r unigolyn ifanc nesaf sydd wedi ei dargedu'n benodol' (Ava). Yn yr achosion hyn, awgrymwyd bod angen ymateb cymunedol, neu gyd-destunol, i sicrhau newid cyn i'r sefyllfa gynyddu i gyfranogiad yr heddlu. Wrth wneud hynny, ystyriwyd bod mwy o ymwybyddiaeth o ba wasanaethau oedd ar gael a'u cylch gwaith gwasanaeth yn elfen allweddol wrth ymgysylltu â phlant.

7.3 Ymgysylltu â phlant a theuluoedd. Canfyddiadau pobl broffesiynol

O ran dulliau proffesiynol, daeth dwy brif thema i'r amlwg, sef gweithio gyda phlant a gweithio gyda rhieni. Roedd y ddwy thema yn dynodi newid yn y dulliau traddodiadol o weithio gyda phlant a rhieni. I rai gweithwyr proffesiynol, roedd hyn yn cynnwys newid o fabwysiadu persbectif cyfiawnder troseddol i ddiogelu:

Wyddoch chi, rydyn ni'n gwybod fod yr hen agwedd honno - o wel, mae'n delio â chyffuriau - ond mewn gwirionedd dydyn ni ddim yn gweld hynny fel pryder diogelu a'r hyn mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd. (Freya)

I raddau helaeth, roedd hyn yn adlewyrchu syniadau wedi eu gwreiddio o asiantaeth ymhlyg y glasoed a lle gellir ystyried delio â chyffuriau a mathau eraill o droseddoldeb ieuenctid o ran diwylliant y glasoed neu eu dewis o ffordd o fyw. Yn achos rhieni, argymhellwyd newid o feddwl amdanynt fel ffynonellau risg i ffynhonnell bwysig o wybodaeth a chymorth diogelu.

7.3.1 Gweithio gyda phlant

Cyfeiriodd y mwyafrif llethol o weithwyr proffesiynol at atyniad cyffuriau i blant o ran y symiau enfawr o arian y gellid eu gwneud a'r ffyrdd o fyw mae'r rhai sy'n camfanteisio arnynt yn ei gyfleu. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o argyhoeddiadol i blant o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai a allai

fod â mynediad cyfyngedig at ddewisiadau cyflogaeth cyfreithlon (Spicer, 2021, Whittaker et al., 2018). Ymhlyg o fewn y dybiaeth hon oedd bod rhai plant yn rhan o'u hecsbloetio yn hytrach na'u bod wedi dioddef camfanteisio. Gall y syniad hwn gael ei atgyfnerthu gan y modd mae plant yn dod i sylw'r gwasanaethau, gan nad oeddent yn tueddu i gynrychioli dioddefwyr ystrydebol ond yn hytrach, 'maen nhw'n meddwl eu bod nhw'n rhan o'r gang. Maen nhw'n meddwl eu bod nhw'n cŵl' (Chloe). Yn eu hastudiaeth fach o weithwyr proffesiynol yn Lloegr, mae Blackburn a Smith (2020) hefyd wedi nodi bod plant yn arddangos 'ymffrost' wrth ddangos ymddygiadau sy'n fwy tebyg o fod yn gyflawnwr yn hytrach na dioddefwr. Yn wir, gall plant fod yn ddioddefwyr ac yn gyflawnwyr (Bonning and Cleaver, 2020, Moyle, 2019, Whittaker, et al., 2018). Ac eto, mae'n bosibl eu bod yn amharod i ddiffinio eu hunain fel rhai sy'n agored i niwed neu'n ddioddefwyr, gan ddewis yn hytrach ystyried bod ganddynt yr asiantaeth a'r dyfeisgarwch i ddarparu ar eu cyfer eu hunain, yn enwedig lle nad oedd ganddynt y modd cyfreithlon i wneud hynny (Ellis, 2018). Gall hyn guddio pa mor agored i niwed ydynt mewn gwirionedd a'u hangen am gymorth. Gellir gwaethygu hyn ymhellach lle mae plant yn mynd ati i wrthsefyll ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol (Shaw a Greenhow, 2020). Gall amharodrwydd i ddatgelu hefyd gael ei atgyfnerthu gan y modd mae gweithwyr proffesiynol yn ceisio ymgysylltu â phlant:

Dywedwch, er enghraifft, fod pryderon, rydych chi'n mynd, rydych chi'n siarad â'r plentyn. Rydych chi'n gofyn i'r plentyn hwn, "lawn, a oes unrhyw beth a wnaeth ef neu hi i ti ei wneud nad oeddet ti eisiau ei wneud?" Dydyn nhw ddim yn mynd i ddweud wrthyh chi, felly maen nhw'n dweud, "Na." A dyna ni, rydych chi'n ei dderbyn, ac rydw i wedi gwneud hynny fy hun fel heddw. Rydw i'n meddwl yn ôl ac rydw i'n ystyried, "Sut ar y ddaear ydw i'n disgwyl i'r plant hyn ddatgelu rhywbeth pan rydych chi'n cyrraedd eu tŷ yn annisgwyl, yn gofyn ambell gwestiwn ac yna'n mynd i ffwrdd?" Mae'n wallgof. (Chloe)

Adroddwyd am ganfyddiadau tebyg mewn astudiaeth o blant sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol yng ngogledd Cymru (Hughes a Thomas, 2016), lle dangosodd y plant ymwybyddiaeth aciwt bod y cyfweiliad dychwelyd yn dilyn sgript benodol. Ar y llaw arall, tynnodd Chloe sylw at yr angen i greu 'adegau y gellir eu cyrraedd' lle mae gwasanaethau'n darparu amgylcheddau lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad â gweithwyr proffesiynol. Mae hyn yn ategu canfyddiadau ymchwil sydd wedi dangos bod yn rhaid i adnoddau a chyfluoedd i feithrin newid (Thomson et al., 2002) gyd-fynd ag adegau y gellir eu cyrraedd, neu adegau tyngedfennol ym mywydau plant.

Roedd yn ymddangos bod plant o oedrannau penodol yn fwy parod i ymgysylltu. Dywedodd gweithwyr proffesiynol y gallai plant dros 18 oed fod yn fwy parod i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol na'r rhai o dan 18 oed. Awgrymwyd mai'r rheswm am hyn yw bod plant o dan 18 oed yn fwy 'gofalus' (Andrea) oherwydd eu pryderon ynghylch cychwyn ymateb amddiffyn plant. Nodwyd gwahaniaethau ar sail oedran hefyd mewn perthynas â gwahanol sectorau. Yn achos gwasanaethau iechyd, gwelwyd plant gan wasanaethau pediatrig hyd at 16 oed. Dros 16 oed, roedd y plant yn cael eu trin gan y gwasanaethau i oedolion. Canfuwyd bod hyn yn rhwystr i ymgysylltu â phlant:

Felly, weithiau bydd gennym blentyn 16 oed ar ward naw gwely gyda chleifion oedrannus iawn, ac nid yw'r amgylchedd cyfan yn ffafriol i ddatgeliadau. Rydyn ni'n gweithio gyda wardiau i geisio trefnu eu bod nhw mewn cuddyglaug sengl a phethau felly, ond nid dyma'r amgylchedd gorau bob amser. (Jade)

Er bod rhai sefydliadau trydydd sector wedi dweud eu bod nhw'n gweithio gyda phlant hyd at 25 oed, mae'r Gwasanaethau Plant yn gweithio gyda phlant nes eu bod yn 18 oed, pan gânt eu trosglwyddo i'r Gwasanaethau i Oedolion. Yn ôl gweithwyr proffesiynol, roedd hyn braidd yn fympwyol ac arweiniodd at ostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir:

Ni allwch fod mewn perygl o gael eich ecsbloetio un diwrnod cyn eich pen-blwydd yn 18 oed, troi'n 18 oed ac yna peidio â bod mewn perygl o gael eich ecsbloetio mwyach - nid yw hynny'n gwneud synnwyr. Ac ni allwch chi wedyn fynd o wneud dewis anwybodus yn 17 oed i wneud dewis gwybodus yn 18 oed pan fyddwch chi wedi treulio'r tair blynedd diwethaf yn cael eich paratoi at ddibenion amhriodol. Felly, mae rhywbeth am y modd... rydyn ni'n deall galluedd meddyliol a beth mae hynny'n ei olygu i oedolion ifanc pan fyddwch chi wedi cael eich ecsbloetio. (Nick)

Drwy ddiffiniad, barnwyd bod plant erbyn iddynt gyrraedd 18 oed yn gyfrifol am eu gweithredoedd ac felly nid oedd ganddynt ffordd ffurfiol o fod yn rhan o'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Yn ôl Holly, roedd barn o'r fath yn golygu bod gan bobl ifanc yn eu harddegau ormod o asiantaeth ar gyfer eu gweithredoedd. Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi cymorth i'r cysyniad o fod yn oedolyn, sy'n cyfeirio at fodel mwy ad-drefnol o gyfiawnder troseddol i blant (cf. Feld, 1998). Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â chwestiynau ynghylch ymgysylltu gan nad oes mandad cyfreithiol ar hyn o bryd i weithio gyda phobl ifanc 18 oed nad ydynt yn cydsynio.

Ble mae eich mandad cyfreithiol er mwyn eu diogelu, ac nid yw hynny wedi cael ei drafod yn helaeth yn unman. Felly, mae problem, oherwydd os ydyn nhw'n dweud wrthych chi lle i fynd, a'u bod nhw'n 18 oed, yn wahanol i Wasanaethau Plant a Theuluoedd lle mae gennym fandad cyfreithiol y gallwn ymyrryd ac y gallwn wneud pethau, nid yw'r mandad cyfreithiol yn y Gwasanaethau i Oedolion yn bodoli mewn gwirionedd at y dibenion hynny. (Nick)

O ganlyniad, holwyd i ba raddau roedd plant a oedd yn cael eu hecsbloetio yn abl yn feddyliol i gydsynio i dderbyn cymorth. Felly, er bod rhai gweithwyr proffesiynol wedi nodi enghreifftiau o ddefnyddio technegau fel cyfweld cymhellol 'dim ond i'w cael ar y daith honno' (Abigail) tuag at dderbyn cymorth, roedd hyn yn dibynnu ar ymgysylltiad cychwynnol gan yr unigolyn ifanc. Ystyriwyd bod dulliau o'r fath yn hanfodol gan y gallai plant gael eu hyfforddi ynghylch beth i'w ddweud wrth weithwyr proffesiynol.

Mae'r rhai sy'n camfanteisio yn dweud wrthyn nhw, wyddoch chi, ni fyddan nhw'n cyffwrdd â chi, NRM, ac maen nhw bron yn addysgu'r plentyn hefyd. Os ydyn nhw ar orchymyn llys ffurfiol, sut i drin pethau, sut i osgoi'r gorchymyn hwnnw; sut i beidio ag ymgysylltu, sut i ddangos cydymffurfiaeth ffug ... Maen nhw'n eu dysgu nhw yn hynny o beth, o ran sut i osgoi'r agwedd honno o orfod cydymffurfio a chyflawni agweddau gorchymyn llys ffurfiol. (Owen)

Amlygodd y canfyddiadau fwy o ddefnydd o Adran 45, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 sy'n darparu amddiffyniad statudol i blant sydd wedi cael eu gorfodi, eu bygwth neu eu twyllo i droseddu gan y rhai sy'n camfanteisio arnynt. I rai gweithwyr proffesiynol, ystyriwyd bod mwy o wybodaeth am Adran 45 a'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn gyfystyr â chydymffurfiaeth ffug yr unigolyn ifanc. Roedd y defnydd ymddangosiadol o ddeddfwriaeth a'i chamddefnydd yn cael ei ddwysau gan

ddiffyg gwybodaeth broffesiynol ar hyn o bryd ynghylch asesu a rheoli camfanteisio. At hynny, rhybuddiodd nifer o weithwyr proffesiynol yn erbyn defnyddio Adran 45 ar gyfer plant dan 18 oed gan y gellid ei ddefnyddio i roi 'clogyn anweledig' (Noah) iddynt:

... mae'n golygu bod y plant hynny mewn mwy o berygl am nad ydyn nhw'n cael eu cyhuddo o droseddau oherwydd, os ydyn nhw'n parhau i gyflwyno'r amddiffyniad hwnnw, nid ydyn nhw'n cael eu cyhuddo, maen nhw'n mynd yn ôl i'r un pot, yr un amgylchedd roedden nhw ynddo o'r blaen, lle maen nhw'n cael eu gorfodi i ddelio â chyffuriau, maen nhw'n agored i drais. (Noah)

Fel y nododd Noah, er ei bod yn ymddangos ei fod yn wrthgynhyrchol, roedd cyhuddo unigolyn yn ffurfiol a'i ddynodi'n droseddwr o dan 18 oed yn cynyddu'r tebygolrwydd o ymateb gan wasanaethau sy'n fwy ffaithiol o ran dull diogelu. Ac eto, dros 18 oed gallai hyn arwain at garchar.

Waeth beth fo'u hoedran, lle'r oedd plant yn gyndyn neu'n amharod i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol, tynnodd y canfyddiadau sylw at ba mor hawdd y gellid tybio bod euogrwydd unigolyn ifanc yn cael ei ragdybio, yn enwedig o'i ganfod gyda llawer iawn o gyffuriau yn ei feddiant. Roedd hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb ar weithwyr proffesiynol i fynd y tu hwnt i'r dystiolaeth weladwy ac i ystyried sut roedd yr unigolyn ifanc wedi talu am y cyffuriau, pwy oedd wedi talu am y tocyn ac a oedd wedi trefnu iddynt werthu'r cyffuriau yn y lleoliad penodol hwnnw. Amlygodd hyn yr angen am 'newid pendant mewn meddylfryd' (John) o droseddoli plant i'w diogelu rhag cael eu hecsbloetio:

Oherwydd unwaith y byddwch chi wedi cael plentyn yn euog, dyna'i fywyd wedi ei fapio ar ei gyfer, ac ni waeth bynnag pa mor gall neu hyderus ydyn nhw pan fyddwch chi'n delio â nhw, neu pa mor anodd ydyn nhw pan fyddwch chi'n delio â nhw, maen nhw'n dal yn blant a dyna sut dylen ni fod yn delio â nhw. (John)

Ategir hyn yn nogfen Glasbriant Cyfiawnder leuenctid Cymru (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019) sy'n mabwysiadu dull plant yn gyntaf, troseddwr yn ail, sydd â'r nod o atal aildroseddu drwy greu amgylcheddau diogel lle mae plant yn cael eu cynorthwyo i ffynnu tra'n cael eu hamddiffyn rhag niwed. Dangosodd y canfyddiadau hefyd fod angen mwy o ymarfer ymchwil i edrych y tu hwnt i blant at y rhai sy'n uwch yn y gadwyn delio cyffuriau. Fel y nododd Moyle (2019), mae'n anochel bod llawer o waith yr heddlu yn mynd i'r afael ag arestio rhedwyr ar lefel y stryd yn hytrach na'r rhai ar lefelau uwch yn hierarchaeth y grŵp llinellau sirol.

7.3.2 Gweithio gyda rhieni

Dywedodd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol mai ychydig o atgyfeiriadau a gafwyd gan rieni gan nad oeddent yn aml yn ymwybodol bod eu plentyn mewn perygl neu'n rhan o senario camfanteisio. Unwaith yr amheuir neu y gwyddys bod plant yn cael eu hecsbloetio, adroddwyd am gyfyngiadau o ran sut yr ymatebodd gwasanaethau i niwed y tu allan i'r teulu. Dywedodd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol fod modelau traddodiadol o amddiffyn plant yn cael eu mabwysiadu, wedi eu hategu gan niwed o fewn y teulu lle'r oedd rhieni'n cael eu hystyried yn gyflawnwyr niwed. Wrth wneud hynny, lle'r oedd plant yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd yn cadw'r awgrym bod 'diffygion yn y teulu' (Ava) hyd yn oed lle'r oedd y camfanteisio'n cael ei gyflawni gan gyfoedion yr unigolyn ifanc neu oedolion nad oeddent yn gysylltiedig â'r plentyn. Golygai hyn,

Yn ddamweiniol, rydyn ni'n dieithrio rhieni sy'n ffactor cefnogol oherwydd bod [rhieni'n dweud] 'o, rydych chi'n eistedd yno'n dweud fy mod i'n fam wael' pan nad dyna dwi'n ei ddweud. Ond mae eich mab yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant ... sydd eto'n mynd yn groes i'ch record fel pe bai hi [Mam] wedi ei gam-drin pan nad yw hynny'n wir (Matthew).

Gallai dieithrwch o'r fath danseilio perthynas broffesiynol â rhieni. At hynny, gallai roi rhieni dan fwy o bwysau, yn enwedig lle'r oedd gweithwyr proffesiynol yn eu cyfeirio at gyrsgiau magu plant neu wybodaeth am bennu ffiniau. Awgrymwyd bod mesurau o'r fath yn anaddas ac aneffeithiol,

ydydych chi erioed wedi ceisio perswadio bachgen 16 oed i fynd i'r ysgol, mae'n fwy na chi, mynd ag ef yno'n gorfforol os nad yw eisiau mynd - nid yw hynny'n deg ... nid yw pob rhiant yn cydgyllwynio nac yn gyfforddus gyda'r hyn sy'n digwydd, mae rhai ohonyn nhw ofn am eu bywydau neu ddim yn gwybod sut i ddelio â'r mater, ac nid ydyn nhw'n cael unrhyw help (Megan)

Yn wir, mae'r arfer presennol yn aml yn methu â chydabod natur heriol magu pobl ifanc. Gwelwyd bod hyn yn creu tensiwn rhwng galluogi plant i gael eu rhyddid i gymdeithasu â ffrindiau a'r potensial ar gyfer risgiau y tu allan i'r teulu. I Nick, roedd hyn yn golygu bod angen newid y ffordd mae gwasanaethau'n gweithredu ar gyfer diogelu'r glasoed,

Felly, mae'n rhaid i chi ddod i feliwn o gyfarfodydd yn awr oherwydd plentyn nad oes gennych unrhyw ddylanwad drosto oherwydd dylanwad pobl eraill arno, ac o ran y bobl sy'n dylanwadu ar ei gilydd, nid ydyn nhw yn unman i'w gweld. Maen nhw'n parhau â'u bywyd, ond rwy'n mynd i'ch rhoi chi drwy'r broses hon sy'n teimlo'n wirioneddol feirniadol oherwydd mewn gwirionedd mae hi wedi ei hanelu at grŵp oedran gwahanol a set wahanol o amgylchiadau, ond rydw i'n mynd i'ch rhoi chi drwy hynny beth bynnag oherwydd dyna sy'n agored i mi, ac yna rwy'n mynd i edrych mewn sioc ac arswyd pan fyddwch chi'n dweud wrthyf lle i fynd.

Gallai rhoi pwysau ychwanegol ar deuluoedd a oedd yn ei chael hi'n anodd rheoli eu plant olygu eu bod yn dewis llety gwirfoddol, yn enwedig os oedd ganddynt blant eraill i ofalu amdanynt. Ac eto, gallai rhoi plant mewn gofal a'u datgysylltu o'u teuluoedd gynyddu'r ffaith eu bod nhw'n agored i gamfanteisio. Felly, barnwyd bod arferion amddiffyn plant presennol yn niweidiol o ran gweithio gyda rhieni gan y gallent stigmatiddio rhieni yr oedd eu plant yn ymwneud â throseddau ymhellach, a gwaethygu'r gwendidau presennol. Yn ôl canfyddiadau adolygiad cenedlaethol y Panel Diogelu Ymarfer Plant (2019) o ddiogelu plant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio, roedd dulliau a oedd yn cynnwys rhieni mewn cynllunio a gweithredu diogelwch yn tueddu i fod yn fwy llwyddiannus. Roedd angen i ddulliau o'r fath gynnig cymorth hyblyg i rieni sydd ar gael y tu allan i oriau swyddfa, a'u darparu gan weithwyr proffesiynol medrus i'w cefnogi 'i wybod beth yw'r ffordd orau o ymateb i'w plant a'u hamddiffyn o dan yr amgylchiadau heriol maent yn eu hwynebu' (Panel Diogelu Ymarfer Plant, 2019:30).

7.4 Rhwystrau sy'n seiliedig ar yr ecsbloetwyr wrth ymgysylltu â phlant. Canfyddiadau rhieni

Yn dilyn canfyddiadau ynghylch sut roedd plant yn cael eu meithrin at ddibenion amhriodol a'u cynnwys mewn camfanteisio troseddol ar blant, daeth natur y camfanteisio i'r amlwg fel rhwystr allweddol i ymgysylltu â phlant wrth ddarparu gwasanaethau. O fewn y thema gyffredinol hon, daeth tair is-thema i'r amlwg ynglŷn â'r strategaethau a ddefnyddir i ddal plant o fewn y berthynas lle mae camfanteisio'n digwydd: bondio dyledion, ymbellhau plant oddi wrth rieni, a gofalwyr drwy drwytho a meithrin diwylliant yn erbyn ceisio neu dderbyn cymorth gan weithwyr proffesiynol.

Yn ogystal â'r bondiau dyled a gynhyrchwyd gan grwpiau llinellau sirol lle maent yn dwyn pecynnau gan eu rhedwyr eu hunain (Andell a Pitts, 2017) ac ailadrodd canfyddiadau plant, gwelodd rhieni'r cysylltiad rhwng camfanteisio a defnyddio cannabis. Dywedodd y rhieni fod defnyddio cannabis yn ffordd o rwymo'r unigolyn ifanc mewn dyled i'r gwerthwr cyffuriau. O ganlyniad, maent yn cael eu dal, gan naill ai orfod gwerthu cyffuriau i dalu am eu harfer personol eu hunain neu i dalu eu dyledion. Mae canfyddiadau o'r fath yn cyfeirio at yr angen i wasanaethau fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, ac eto mae cyllid ar gyfer gwasanaethau trin cyffuriau wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at gapasiti cyfyngedig a diffyg staff clinigol arbenigol (Black, 2020).

Yn achos Helen, gofynnodd ei mab iddi ei helpu i ddianc drwy dalu ei ddyled. Fodd bynnag, fel y disgrifiodd isod, ni chafodd ei ryddhau naill ai oherwydd y cyfraddau llog uchel a gymhwyswyd i'w ddyledion neu am fod pwysau wedi ei roi arno i gael arian ganddi,

Roeddwn i'n meddwl - gadewch i ni glirio'r holl ddyledion hyn, ond wn i ddim a oedd hynny'n dric o ran y ffordd roedden nhw wedi ei gael i'w wneud neu ei fod o ddifri mewn sefyllfa anodd "Na, mae gen i'r ddyled o hyd, rydw i wedi dweud celwydd" roedd mewn gwirionedd yn fwy a mwy ac roeddwn i'n dweud wrthyf fy hun "Wel, bydd yn rhaid i ni gael pobl i'm helpu i oherwydd mae hyn o ddifri allan o reolaeth" (Helen).

Mewn sawl achos, roedd plant wedi dwyn oddi wrth ffrindiau a chymdogion eu rhieni er mwyn talu eu dyledion. Er bod hyn yn ategu canfyddiadau bod plant wedi dod yn fwyfwy taer i ryddhau eu hunain o ddyled, roedd hyn hefyd yn ynysu ac yn stigmatiddio eu hunain a'u rhieni o'r gymuned ehangach (Yr Uned Trais a Bregusrwydd, 2018, Andell a Pitts, 2017).

Roedd y syniad o fod wedi eu dal hefyd yn amlwg i rieni. Wrth i grwpiau llinellau sirol feithrin a manteisio ar blant drwy eu cyfeillio ac amharu ar fywyd y plentyn, mae hyn yn cael effaith negyddol ar rieni, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu ehangach. Ac eto, roedd plant yn aml yn amharod neu'n methu derbyn eu bod wedi cael eu hecsbloetio,

Er eu bod nhw wedi cael eu meithrin at ddibenion amhriodol, y tro cyntaf iddo eistedd yno, roedd yn dweud "Fy ffrindiau, na, ni fydden nhw'n gwneud hyn a'r llall." (Moir)

Roedd hyn yn golygu, pan geisiodd rhieni fynd i'r afael â'r hyn a oedd yn digwydd drwy osod ffiniau, dileu neu gyfyngu ar gyswllt â chyfoedion negyddol, neu drwy geisio cymorth proffesiynol, fod hyn yn bwydo i mewn i'r naratif a ddefnyddir gan gamfanteiswyr i drwytho eu plant. O ganlyniad, roedd y plant o'r farn bod yr ymdrechion magu plant hyn yn dystiolaeth nad oedd eu rhieni'n poeni amdanynt, nad oeddent yn eu deall, ac nad oeddent am iddynt ennill arian.

Roedd llawer o rieni wedi ceisio ymbellhau oddi wrth y bobl a oedd yn camfanteisio ar eu plant. Roedd hyn yn cynnwys symud i ardal arall, anfon eu plentyn i aros mewn gwledydd eraill neu geisio llety gwirfoddol i'w plentyn. Roedd hyn yn seiliedig ar y gred y byddai tynnu eu plentyn o'r sefyllfa o risg yn rhoi terfyn ar y camfanteisio. Roedd tystiolaeth hefyd bod hyn yn rhoi seibiant i rieni o'r heriau sydd ynghlwm wrth gefnogi eu plentyn, "*dyna'r unig dro y gallwn anadlu ochenaid o ryddhad, oherwydd doedd yr heddlu ddim wrth y drws, ac ati*" (Fiona). Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth i ategu effeithiolrwydd tynnu'r plentyn o'r lleoliad. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau o blant yn dychwelyd at y rhai a oedd yn camfanteisio arnynt, naill ai o'u gwirfodd neu lle'r oedd y camfanteiswyr yn cwrdd â nhw y tu allan i gartrefi preswyl. Nid oedd y rhieni'n glir sut canfuwyd eu plant ond roeddent yn amau mai drwy eu ffonau symudol neu eu sianeli cyfathrebu wrth chwarae gemau fideo yr oedd hyn wedi digwydd. Yn wir, amlygodd canfyddiadau ymchwil Firmin (2019) i'r defnydd o adleoli fel mecanwaith diogelu, lle'r oedd plant yn cael eu ymbellhau'n gorfforol oddi wrth eu cyfoedion, eu bod yn cadw cyswllt ar-lein i hyrwyddo eu teimladau o ddiogelwch, statws a pherthyn yn yr amgylchedd anghyfarwydd.

7.5 Ffactorau sy'n seiliedig ar deuluoedd wrth ymgysylltu â gwasanaethau. Canfyddiadau'r rhieni.

I rieni, barnwyd bod tri ffactor yn hwyluso ymwneud â gwasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys gweithio gyda theuluoedd, cynnal cysylltiad â phlant, a mynd i'r afael â'r niwed a achosir gan gamfanteisio.

7.5.1 Gweithio gyda theuluoedd

I ategu canfyddiadau blaenorol, teimlai rhai teuluoedd fod eu pryderon wedi eu diystyru (Comisiynydd Plant, 2019, Maxwell et al., 2019). Roedd hyn yn arbennig o amlwg lle'r oeddent yn adrodd am gyfnodau coll mynych neu pan oedd eu plant dros 17 oed. Yn wir, roedd oedran yn llesteirio i ba raddau roedd rhieni'n teimlo eu bod yn gallu cefnogi eu plentyn. Unwaith yr oeddent dros 18 oed, nid oedd ganddynt hawl i dderbyn gwybodaeth na chael gwybod a oedd eu plentyn yn ymgysylltu â gwasanaethau, yr heddlu neu'n ymwneud â'r system llysoedd,

Roedd yn teimlo fel fy mod i'n niwsans, a'r hyn roeddwn i'n ei glywed yn gyson oedd, 'o na, allwn ni ddim rhoi'r wybodaeth honno i chi. Mae o dros 18 oed. Mae angen caniatâd arnoch chi.' (Jake).

Waeth beth oedd oedran y plant, teimlai'r rhieni, drwy fethu â gwrando ar eu pryderon cychwynnol, fod gwasanaethau'n gwadu cyfle i blant gael ymyriadau cynnar a/neu wyro oddi wrth gamfanteisio. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried canfyddiadau adolygiad Maxwell a Corliss (2020) o drais ieuencid, a ganfu gefnogaeth i ddull datblygu, lle mae'r gweithredoedd trais cyntaf yn tueddu i gael eu harsylwi tua 10 i 14 oed cyn cyrraedd uchafbwynt tua 16 i 17 oed ac yna'n gostwng wrth iddynt ddod yn oedolion. Yn wir, codwyd y syniad o blant yn aeddfedu i ffwrdd o gamfanteisio gan nifer o blant a rhieni. Fodd bynnag, mae canfyddiadau ymchwil wedi dangos nad yw aeddfedu o'r fath allan o drosedd yn broses awtomatig ond yn hytrach mae'n dibynnu ar bresenoldeb elfennau hwyluso fel cyflogaeth, cyfleoedd a pherthynas gadarnhaol ag eraill (Factor, Pitts a Bateman, (2015). Mewn achosion eraill, roedd teuluoedd yn cael eu hunain yn destun ymchwiliadau amddiffyn plant neu'n cael y bai am ymddygiad eu plentyn, fel y crynhodd Amanda,

Felly, rydw i'n ceisio achub fy nheulu ac eto, ar yr un pryd, rydw i'n cael fy meirniadu ac yn destun craffu beth bynnag rydw i'n ei wneud. Ac eto, nid oes cefnogaeth gorfforol, nid oes cefnogaeth – oherwydd nad ydyn nhw'n deall (Amanda).

Roedd craffu yn amlwg hyd yn oed lle'r oedd rhieni wedi cysylltu â'r Gwasanaethau Plant am gymorth,

Mae'n jôc. Es i lawr i dŷ cyffuriau un diwrnod, curo'n galed ar y drws a rhoi fy nhroed yn y drws fel nad oedden nhw'n gallu ei gau, ei dynno o allan oddi yno a dod ag ef adref, ac maen nhw'n pwysu a mesur a ydw i'n gymwys i ofalu amdano (Ella)

Mae hyn yn adlewyrchu natur y ddarpariaeth gwasanaethau sydd â'r nod o asesu cam-drin o fewn y teulu a chamfanteisio ar blant a gwasanaethau wrth i blant gael eu hannog i wneud honiadau ffug yn erbyn rhiant. Mae camfanteisio yn gofyn am newid ffocws i gam-drin y tu allan i'r teulu a risgiau diogelu a wynebir yn y gymuned (Firmin, 2019). Gan hynny, galwodd rhai rhieni am weld newid yn y system,

Dwi'n meddwl bod angen cymorth ychwanegol ar waith. Mae angen ailwampio'r system mewn gwirionedd, mae angen llawer o newidiadau o fewn y system. Mae angen i'r system gydnabod eu gwendidau a deall y materion maen nhw'n eu hwynebu. Ac o bosib, gallu eu cefnogi yn hytrach na'u troseddoli (Becky).

Roedd y graddau y dylai'r cymorth hwn gael ei ddarparu gan wasanaethau statudol yn ennyn safbwyntiau cymysg. Teimlai rhai rhieni nad oedd gwasanaethau eraill ar gael, felly os nad oedd y Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Troseddau Ieuencid a'r Heddlu yn gallu helpu, ni fyddai cymorth ar gael. Er bod rhieni eraill yn ailadrodd barn plant ynghylch achwyn, fel y dywedodd Jake,

Fe gefais i un da, mewn gwirionedd, ond nid ydych chi'n mynd i gael yr effaith honno gyda'r plant hyn gyda gweithwyr cymdeithasol, ddim o gwbl. Mae'n rhan o'r system, wyddoch chi, mae'r plant yn eu gweld fel rhan o'r system, yr heddlu, dim achwyn, dim dweud, mae'r cyfan yn rhan o hynny.

Roedd yr ymdeimlad bod 'gen i un da mewn gwirionedd' yn tynnu sylw at y graddau mae gwerth y cymorth yn gysylltiedig â ffactorau unigol, gan gynnwys yr wybodaeth, y personoliaeth a'r dull a fabwysiadwyd gan weithwyr proffesiynol unigol waeth beth fo'r proffesiwn. Gan hynny, daeth yn amlwg bod ymgysylltiad rhieni ac ieuencid â gwasanaethau yn dibynnu ar argaeledd gweithlu sy'n deall camfanteisio a sut i ffurfio cysylltiad â phlant. O ran darparu gwasanaethau, daeth pedair thema i'r amlwg. Yn gyntaf, roedd rhieni yn y sefyllfa orau i sylwi pan oedd eu plant yn arddangos dangosyddion posibl o gamfanteisio, felly mae'n rhaid i'w lleisiau gael eu clywed. Yn ôl Andell a Pitts (2017:33), mae hyn yn gofyn am fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau fel bod gan blant a theuluoedd fwy o reolaeth

dros arferion y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn eu cymunedau drwy roi'r wybodaeth a'r sgiliau perthnasol iddynt, tra'n agor mynediad i'r mannau lle gwneir penderfyniadau allweddol. Ond, yn hollbwysig, mae hefyd yn eu cefnogi

i gymryd camau ar y cyd i wynebu a mynnu rheolaeth dros y bobl sy'n eu bygwth ac sy'n rhwygo eu cymdogaethau ar wahân.

Roedd hyn yn cynnwys lleoli gwasanaethau o fewn y cymunedau a chydnabod bod plant mewn perygl arbennig mewn cyd-destunau penodol. Er enghraifft, dangosodd canfyddiadau ymchwil gan Arial, Sherman a Newton (2020) ostyngiad mewn troseddau mewn mannau lle caed nifer o achosion yn dilyn patrolau 15 munud ar droed gan swyddogion yr heddlu bedair gwaith y dydd, bedwar diwrnod yr wythnos dros chwe mis.

Cyfeiriwyd sawl gwaith at ardaloedd gwael neu ysgolion lle'r oedd plant yn fwy tebygol o gael eu targedu. Amlygwyd hyn hefyd fel ffordd o atal, fel y modd y disgrifiodd Zoe ofn ei mab o gael ei 'sugno'n ôl i mewn',

Dwi'n meddwl bod ganddo bryderon o hyd am ddigwydd taro ar unrhyw un o'r bobl hyn eto a chael ei sugno'n ôl i mewn, oherwydd dydi o ddim eisiau mynd i leoedd ... Mae fel petai o ddim eisiau cael ei weld rhag ofn i rywun fynd ato - wn i ddim a ydi hyn yw oherwydd ofn neu oherwydd nad ydi o eisiau ymddangos yn wan a dweud, na, does gen i ddim diddordeb, rydw i wedi symud ymlaen.

Fel y nodwyd uchod, teimlai'r rhieni fod angen mynd i'r afael â'r cynodiadau negyddol sydd ynghlwm wrth achwyn. O ganlyniad, teimlai'r rhieni fod angen mwy o wybodaeth a hyfforddiant ar gyfer athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant i feithrin ymddiriedaeth a chreu mannau diogel i blant ddatgelu eu bod yn cael eu hecsbloetio. Yn ail, roedd rhieni eisiau cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau a darpariaethau,

Credaf y dylai pob gweithiwr cymdeithasol fod felly, wyddoch chi, gan ofyn hefyd i'r rhieni beth maen nhw ei eisiau a beth maen nhw'n ei feddwl. Nid yn unig dweud wrthyn nhw, "Mae'n rhaid i chi wneud hyn, fe allwch chi wneud y llall," wyddoch chi. Oherwydd nid eu plant nhw, ein plant ni, felly ni yw'r rhieni a phwy sy'n adnabod y plant yn well na ni? (Ingrid)

Dylai cynhwysiant o'r fath gynnwys rhannu gwybodaeth. Er enghraifft, disgrifiodd Ella sut aeth yr heddlu ati "ar amrantiad" cyn gynted ag yr oedd modd iddi drosglwyddo'r wybodaeth roedd hi wedi ei chael am leoliad ei mab. Ymhlyg yn hyn oedd yr angen am ddarparu gwasanaethau hyblyg a gweithwyr proffesiynol sydd ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Yn achos Ella, roedd yr atgyfeiriadau a wnaed i wasanaethau gan yr heddlu wedi bod yn ddefnyddiol gan fod hyn yn darparu cymorth yr oedd ei angen yn fawr ac yn adlewyrchu natur y camfanteisio, lle'r oedd rhieni yn aml yn cael eu gadael yn rheoli'r ymddygiad anhrefnus a threisgar ac ymosodol yn aml gan eu plant a oedd yn cael eu hecsbloetio tra hefyd yn diogelu eu hunain ac unrhyw blentyn arall ar yr aelwyd.

7.5.2 Cynnal cysylltiad

Mewn ymateb i'r dulliau trwytho mae camfanteiswyr yn eu defnyddio recriwtio a dal gafael ar blant, dangosodd y canfyddiadau fod angen cadw cysylltiad â'r plentyn. I lawer o rieni, ystyriwyd mai dyma'r dull mwyaf pwerus (a'r mwyaf heriol o bosibl) o hwyluso newid i'w plant. Cyfeiriwyd sawl tro at sicrhau bod eu plentyn yn gwybod bod pobl yn eu caru ac yn gofalu amdanynt. Mewn rhai

achosion, roedd ymdeimlad bod rhieni'n aros am yr amser pan fyddai eu plentyn yn barod i dderbyn eu cefnogaeth ac yn ymwybodol y byddai'r daith hon yn cymryd amser,

Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn barod yn gorfforol ac yn feddyliol oherwydd mae'r hynny'n golygu, yn y bôn, rhoi gobaith iddyn nhw eu hunain y byddan nhw'n cael eu dad-radicalaiddio, fel petai, dros amser. Nid rhywbeth sy'n digwydd dros nos yw hyn o gwbl. Mae'n gyfnod hir iawn, iawn o amser (Fiona)

Fel yr aeth Fiona ymlaen i esbonio, mae hyn yn aml yn gofyn am offer penodol gyda chanfyddiadau'n tynnu sylw at ddwy brif dechneg. Yn gyntaf, ystyriwyd bod gweithwyr ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill yn y trydydd sector yn fedrus wrth ymgysylltu â phlant a datblygu perthynas â nhw. Roedd hyn yn cael ei werthfawrogi'n arbennig gan rieni, fel yr eglurodd Ingrid,

Dwi'n meddwl eu bod nhw'n siarad am bopeth, felly mae hynny'n beth da iawn ac mae ef [y gweithiwr ieuenctid] hefyd yn ein helpu ni fel teulu ... Dwi'n meddwl y dylai pawb, pob plentyn sydd yn y sefyllfa hon, gael rhywun fel [gweithiwr ieuenctid], rhywun sy'n gallu eu deall nhw, ac mae hynny'n dda i'r plant.

Ystyriwyd bod gweithwyr ieuenctid yn fedrus wrth sefydlu a chynnal perthynas â phlant hyd yn oed lle'r oedd gwasanaethau eraill wedi methu ag ymgysylltu â nhw. Roedd canfyddiadau'r ymchwiliad Seneddol Hollbleidiol i rôl gwasanaethau ieuenctid wrth fynd i'r afael â throseddau cyllyll (Smith, 2020) yn ategu rôl bwysig gwaith ieuenctid wrth fynd i'r afael â risgiau yn y gymuned ehangach. Roedd Hudek (2018) yn tynnu sylw at yr angen i weithwyr gael profiad byw neu gymhwysedd diwylliannol er mwyn sefydlu hygyrddedd a datblygu perthynas barchus, llawn ymddiriedaeth â phlant.

Datgelodd cyfweiliadau rhieni hefyd fod gweithwyr ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill yn y trydydd sector yn rhoi'r sgiliau i blant ymddieithrio oddi wrth y rhai a fu'n camfanteisio arnynt, a chefnogaeth emosiynol a chymorth ymarferol i sicrhau hyfforddiant neu gyflogaeth. I rieni, roedd hyn yn cynnwys mwy o bwyslais ar ddarparu llwybrau amgen a all ennyn diddordeb plant, eu cefnogi i sicrhau gyflogaeth a "*dangos rhywbeth gwahanol iddyn nhw, allwch chi ddim herio'r arian, wyddoch chi, 15-16 [oed] a £200 yr wythnos ac yna, wyddoch chi, mae'n atyniadol, wrth gwrs*" (Jake).

Yn ail, soniodd sawl rhiant am fabwysiadu dull gwrthsefyll di-drais (Jakob, 2018). Mae hwn yn ymyriad a ddarperir drwy'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gyfer rhieni plant sy'n arddangos ymddygiad dinistriol a niweidiol. I'r rhieni hynny a oedd wedi derbyn yr ymyriad hwn, roedd y dull wedi eu dysgu nhw i ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau gan gynnwys dad-ddwysáu, mwy o bresenoldeb gan rieni, ymatebion cadarn i drais a chadarnhad llafar parhaus o'u hymrwymiad i'w plentyn. Rhoddodd Fiona ddisgrifiad manwl o sut roedd hi wedi defnyddio'r dull hwn,

Ond yr hyn y mae'n ei olygu mewn gwirionedd yw eich bod chi, mewn argyfwng, yn gallu cadw'r cysylltiad hwnnw, neu o leiaf yn ceisio cael rhyw fath o undod neu ryw fath o ateb i broblem neu fater y gallech chi fod yn delio ag ef. Rydw i wedi ei ddefnyddio o ryw fath, roeddwn i'n meddwl mai dyna oedd fy achubiaeth i, oherwydd roeddwn i'n gwneud popeth y byddai rhieni arferol yn ei wneud, ond

yn amlwg nid dyna'r canlyniad gorau, yn enwedig pan fydd plentyn yn cael ei drin a'i reoli fel dylanwad allanol.

Lle'r oedd rhieni wedi defnyddio'r dull hwn, roeddent yn dweud ei fod yn eu helpu i osgoi arferion magu plant a oedd yn atgyfnerthu datgysylltu ac yn eu helpu i gynnal perthynas â'u plentyn. Yn wir, roedd pryder rhieni am golli eu plant yn treiddio i ganfyddiadau, *"wyddoch chi, pe bai rhywbeth yn digwydd iddo, wn i ddim a fuaswn i'n gallu dygymod â bywyd pe byddwn i wedi torri cysylltiadau ag ef"* (Grace).

7.5.3 Mynd i'r afael â niwed cudd

Awgrymodd y canfyddiadau nad oedd y plant yn dweud wrth eu rhieni beth roeddent wedi ei ddioddef, hyd yn oed pan oedd yn amlwg eu bod nhw wedi cael eu hanafu. Yn wir, disgrifiodd un rhiant sut roedd ei phlentyn wedi chwerthin er gwaethaf anafiadau difrifol i'w ben. Yn gyffredinol, dywedodd rhieni na fyddai eu plant yn cael cymorth iechyd meddwl er bod y canfyddiadau'n tynnu sylw at yr angen am gymorth arbenigol i fynd i'r afael ag effaith emosiynol, neu 'niwed cudd' camfanteisio. Mae niwed cudd o'r fath yn cynnwys effaith emosiynol a seicolegol camfanteisio troseddol ar blant ar y plentyn a'i deulu ehangach (Llywodraeth Cymru, 2021). Siaradodd y rhieni am yr effaith ar eu plant o weld, profi a chael eu gorfodi i gyflawni gweithredoedd o drais difrifol,

Dyw e ddim yn cysgu, hyd heddiw dwy e ddim yn cysgu, drwy'r nos dwy e ddim yn cysgu. Os yw e'n cysgu, mae'n cysgu gyda cherddoriaeth ymlaen, cerddoriaeth uchel drwy'r nos. (Amanda)

Oherwydd natur y sampl, rhannwyd yr effaith emosiynol rhwng y rhai a oedd ar lwybrau i ffwrdd o gamfanteisio a'r rhai a oedd yn ymddangos yn gaeth drwy fondiau dyledion a dibyniaeth. Yn y grŵp cyntaf, disgrifiodd y rhieni yr ofn a welwyd ganddynt yn ymddygiad eu plentyn. Yn y grŵp olaf, disgrifiodd y rhieni deimladau eu plentyn o ddigalondid ac anobaith,

[mae'n] dweud wrthyf nad yw byth yn mynd i weithio iddo, ei fod eisiau marw. Mae naill ai'n mynd i fod yn y carchar neu ddau ddewis - carchar neu farw. Nid yw'n gweld dewis arall. Mae'n dweud wrthyf nad oedd byth yn gwybod beth oedd yn digwydd, nad yr hyn oedd yn digwydd oedd yr hyn roedd o eisiau ei weld yn digwydd (Elaine).

Awgrymodd y canfyddiadau fod teimladau o anobaith yn cynyddu po fwyaf roedd y plant wedi cael eu hecsbloetio. Datgelodd y canfyddiadau hefyd y pwysau emosiynol ar rieni, gyda Lillian yn dweud, *"Rydwn i'n cofio ar un adeg roeddwn i'n teimlo mai bod yn farw oedd yr ateb gorau, wyddoch chi, oherwydd... Roeddwn i'n teimlo fy mod wedi methu fel rhiant"*.

7.6 Ffactorau sy'n seiliedig ar ieuenctid wrth ymgysylltu â gwasanaethau. Canfyddiadau gan blant

Yn ôl plant, mae ofn trais, perthnasodded teuluol a dulliau ac ymatebion proffesiynol i blant yn rhesymau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu â gwasanaethau. Mae'n bwysig nodi bod yr adran hon yn cyfuno canfyddiadau gan blant sydd mewn perygl â'r rhai sy'n ymwneud â chamfanteisio troseddol

ar blant. O'r herwydd, roedd gan y plant raddau amrywiol o brofiad gwirioneddol o ymwneud â gwasanaethau.

7.6.1 Ofn trais

Awgrymodd y canfyddiadau fod trais yn gysylltiedig â dau brif ffactor: achwyn a bondiau dyledion. Yn gyntaf, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn gweld 'achwyn' fel rhywbeth negyddol, fel y nododd Jordan,

Dydyn ni ddim yn hoffi pobl yn hel clecs a dweud ein hanes a dydyn ni ddim yn hoffi pobl, er enghraifft – wel, maen nhw'n ei alw'n "achwyn" – felly mae hynny'n ffactor mawr. Mae unrhyw un sy'n achwyn – ni waeth pwy ydi o neu hi – mae hi'n ddrwg arnyn nhw wedyn. Mae hynny'n dal i ddigwydd. Felly nid yw siarad â'r heddlu yn syniad da. (Jordan)

Felly, mae achwyn, lle mae plant yn ymgysylltu'n weithredol ac yn cynnig gwybodaeth i weithwyr proffesiynol, yn mynd yn groes i'r normau diwylliannol yn eu hamgylchedd cymdeithasol (Clayman a Skinns, 2012). Roedd ofn sgil-ffeithiau iddynt hwy eu hunain ac aelodau o'r teulu yn atal plant rhag siarad â gwasanaethau. Mae canfyddiadau Hudek (2018) wedi dangos y gallai hyn ddigwydd hyd yn oed pan amheuir bod plant yn achwyn neu'n ceisio dianc rhag camfanteisio. Yn ail, fel y nodwyd yn gynharach gan Liam (adran 5.1), roedd gwerthwyr cyffuriau yn glir o ran canlyniadau treisgar posibl pe bai arian neu gyffuriau yn cael eu colli. Yn hyn o beth, ystyrir cynnwys y gwasanaeth yn negyddol gan ei fod yn rhwymo'r plentyn mewn bondiau dyled,

Dwi wedi colli'r cyffuriau ac wedyn dwi wedi gorfod talu iddo rywsut, meddai. Rydw i'n mynd ato, "Does gen i mo'r arian." Ac fe ddywedodd un o'r delwyr, "Wel, bydd yn rhaid i ti weithio i dalu am hynny" ac yna oddi yno mae pethau'n mynd fel caseg eira. Daeth yn ffordd o fyw i mi bryd hynny ... plant yn yr oedran hwnnw – rydych chi'n teimlo ofn, rydych chi'n cymryd pethau yn y ffordd anghywir, rydych chi'n gweld y grŵp hwn o bobl fel – sut ddyweda i – fel pobl frawychus. Rydych chi'n gwylio'r gerddoriaeth a'r drill i gyd ac mae'r cyfan yn ymwneud â chyllyll a thrywanu. Mae'n beth seicolegol. Mae'n codi ofn arnoch chi (Jordan).

Felly, gall bondiau dyledion roi'r plentyn mewn sefyllfa gynyddol anobeithiol wrth iddo gael ei orfodi i ad-dalu'r dyledion hyn.

7.6.2 Perthnasoedd teuluol

Lle tybiwyd bod ffactorau teuluol yn cael effaith negyddol ar ymgysylltu â phlant, roedd hyn yn cynnwys rhieni'n rhoi gormod o bwysau drwy gyfyngu ar yr hyn y gallai'r plentyn ei wneud neu'r ymosodiad ar breifatrwydd. O ran ymosod ar breifatrwydd, pan ofynnwyd a ddylai rhieni fod yn monitro neu'n cyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol, esboniodd Isaac pa mor niweidiol y gallai hyn fod,

Oherwydd pe bai hynny'n digwydd i mi [rhiant yn monitro ei ffôn symudol], pe bawn i'n dal yn 14 oed a bod fy mam yn gwneud hynny i mi, byddwn i'n sicr, heb air o gelwydd, yn rhedeg i ffwrdd oherwydd byddwn i'n ofnus. Byddwn i'n dweud

wrthyf fy hun, os bydd hi'n dod i wybod, os bydd hi'n galw'r heddlu, ac y bydda i'n mynd i drafferthion, dydw i ddim eisiau mynd i drafferthion. (Isaac)

Roedd mynd drafferthion a chynnwys yr heddlu yn ennyn canfyddiadau cymysg. Er enghraifft, roedd Isaac yn gweld hyn fel rhywbeth negyddol, tra dywedodd Liam, *fe wnes i roi'r gorau iddi ar ôl i fy mam roi gwybod i'r heddlu amdanaf*. Yn hyn o beth, roedd cyfranogiad yr heddlu yn arwydd o foment dyngedfennol lle bu'r posibilrwydd o sancsiynau'r heddlu yn ysgogiad i Liam geisio cymorth.

7.6.3 Dulliau ac ymatebion proffesiynol

Mae'r mater o fynd i drafferthion yn cael ei ymestyn i ganfyddiadau gweithwyr proffesiynol. Dangosodd y plant ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau diogelu proffesiynol. Daeth y dyletswyddau hyn i'r amlwg fel rhwystr i ymgysylltu â gwasanaethau. Nododd y cyfranogwyr y risg o gyfyngu ar athrawon, cwnselwyr a gweithwyr ieuencid rhag ofn iddynt gynnwys rhieni, yr heddlu neu weithwyr cymdeithasol.

O ran perthynas â gweithwyr proffesiynol, pwysleisiwyd arwyddocâd athrawon. Nododd rhai plant yr effaith y gall perthynas negyddol ag athro ei chael ar unigolyn ifanc. Roedd hyn yn cynnwys athrawon yn bwlio disgyblion, yn codi cywilydd arnynt yn gyhoeddus neu'n rhwystro cyfleoedd penodol. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith nad oedd effaith negyddol gwahardd o'r ysgol bob amser yn glir i blant.

8.0 Trafodaeth

Bu diddordeb cynyddol mewn llinellau sirol camfanteisio troseddol ar blant ledled y Deyrnas Unedig. Mae hyn wedi ei ysgogi gan bortreadau'r cyfryngau o linellau sirol fel problem gangiau canol dinas a'u cyflwyno fel plant, yn gyffredinol o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, yn cymudo o ddinasoedd i ardaloedd gwledig. Yn ymarferol, mae'r cyd-destun delio cyffuriau wedi bod yn newid ers peth amser mewn ymateb i'r anghydbwysedd rhwng nifer y gwerthwyr cyffuriau a defnyddwyr yn y dinasoedd mwy, mesurau llymder sydd wedi lleihau'r cyllid ar gyfer gwasanaethau statudol a darpariaeth gwasanaethau ieuencid, a gostyngiad mewn cyfleoedd cyflogaeth i blant (Andell a Pitts, 2017). Gan fod grwpiau llinellau sirol wedi ceisio sefydlu eu hunain mewn marchnadoedd cyffuriau newydd, mae hyn wedi arwain at newid mewn modelau traddodiadol ar gyfer delio â chyffuriau ac wedi cyflwyno gwerthwyr trefol i drefi gwledig, arfordirol ac ar y gororau (Harding, 2020a). Yng Nghymru, mae hyn wedi arwain at amrywiad mewn modelau delio cyffuriau ar draws awdurdodau lleol. Mae rhai ardaloedd wedi gweld mewnlifiad o grwpiau llinellau sirol trefol tra bod eraill wedi mabwysiadu modelau hybrid neu linellau aneglur lle mae teuluoedd neu grwpiau lleol presennol wedi mabwysiadu elfennau o'r model llinellau sirol. Beth bynnag fo'r model a ddefnyddiwyd, bu amrywiaeth yn y mathau o ddefnyddiwr terfynol, a hwyluswyd gan dechnegau arallgyfeirio cynnyrch a gwerthu rhagweithiol. Yn sail i ddosbarthu a gwerthu cyffuriau mae camfanteisio ar blant ac oedolion agored i niwed sydd wedi cael eu defnyddio ar lefel y stryd fel gweithlu y gellir cael gwared arnynt yn hawdd.

Defnyddir y termau camfanteisio troseddol ar blant a llinellau sirol yn aml yn gyfnewidiol (Olver a Cockbain, 2021). Ac eto, gall yr amrywiadau yn y ffordd mae llinellau sirol a delio â chyffuriau yn amlygu eu hunain mewn gwahanol ardaloedd daearyddol ynghyd â phresenoldeb safbwyntiau ar sail rhywedd a stereoteipiau ynghylch natur fregus ac asiantaeth plant, rwystro'r gallu i ddeall. Mae hyn wedi arwain at y farn gyffredin bod merched yn dioddef camfanteisio rhywiol a bod bechgyn yn chwarae rhan yn eu camfanteisio troseddol. Hwyluswyd safbwyntiau o'r fath erbyn yr oedran y targedwyd plant a thwf diwylliant ieuencid sydd wedi poblogeiddio dillad â brandiau drud. Mae hyn wedi galluogi grwpiau llinellau sirol a gwerthwyr cyffuriau i ddenu pobl ifanc gyda'r syniad bod delio cyffuriau yn arian hawdd. Nid ar hap a damwain y caiff plant eu targedu yn ystod glasoed, gan eu bod yn arbennig o sensitif i bwysau gan gyfoedion. Wedi ei ddisgrifio fel 'gorsaf ffordd emosiynol' mae'r cyfnod hwn yn dynodi'r amser pan fydd plant yn ymdrechu i gael annibyniaeth ac yn myfyrio ar eu hunaniaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, gan gynnwys teulu, cyfoedion a'r gymuned ehangach lle maent yn byw (Finigan-Carr et al., 2016; Steinberg & Silverberg, 1986). At hynny, mae grwpiau llinellau sirol a gwerthwyr cyffuriau wedi manteisio ar leihau a rhesymoli ymddygiad heriol eu plant, ymatebion ysgolion o ran sancsiynau ac allgáu, a thueddiadau proffesiynol i weld bod gan bobl ifanc ddigon o aeddfedrwydd ac asiantaeth i ddewis delio â chyffuriau fel eu dewis o ffordd o fyw, ac ymatebion gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal. Nid yw hynny'n golygu nad yw rhieni a gweithwyr proffesiynol wedi dechrau datblygu eu dealltwriaeth a'u hymatebion i gamfanteisio troseddol ar blant. Ond yn hytrach, mae'n ymddangos bod grwpiau llinellau sirol a gwerthwyr cyffuriau yn fedrus wrth aros un cam ar y blaen wrth iddynt gasglu gwybodaeth leol ac addasu eu model busnes i osgoi cael eu canfod ac ynysu plant oddi wrth ffynonellau cymorth. Mae hyn wedi golygu bod newid wedi bod yn y plant sydd wedi eu targedu. Ceir tystiolaeth gynnar yng Nghymru o'r cynnydd mewn camfanteisio troseddol ar ferched, bechgyn a merched o gefndiroedd cefnog a'r rhai sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach neu uwch.

Yng Nghymru, mae ymdrechion i fynd i'r afael â chamfanteisio troseddol ar blant ac atal plant rhag cael eu hecsbloetio ar y lefel genedlaethol a lleol. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2021) ganllawiau ar Ddiogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol yn seiliedig ar ddull hawliau plant, gan argymhell yr angen am rannu gwybodaeth ac ymatebion amlasiantaethol. Mae'r olaf o'r rhain yn cael eu hwyluso gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) sy'n mynd i'r afael â'r heriau o ran rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau. Mae'r cyntaf wedi ei ymgorffori ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Chynllun Hawliau Plant 2014, sy'n nodi y dylai hawliau plant gael eu hymgorffori mewn polisi ac ymarfer. Yn ogystal, sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru, a'i rôl yw cyfarwyddo a chydlyn ymateb amlasiantaethol i gamfanteisio troseddol ar blant. Cyllidir yr uned hon gan y Swyddfa Gartref ac mae'n cynnwys aelodaeth graidd gan yr heddlu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ac aelodaeth gyswllt gan amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol gan gynnwys y Senedd, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, y Gwasanaeth Prawf, mewnfudo, academyddion a'r trydydd sector. Yn lleol ledled Cymru, mae amryw o gyfarfodydd amlasiantaethol yn cael eu defnyddio i rannu gwybodaeth am blant sy'n cael eu hecsbloetio neu sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys ystyried risg y tu allan i'r teulu a choladu gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfoedion a lleoedd. I ategu canfyddiadau adolygiad llenyddiaeth Sloper (2004) o'r hyn sy'n rhwystro ac yn hwyluso gweithio amlasiantaethol, roedd arfer effeithiol yn gofyn am lywodraethu clir, nodau a rennir, rolau, cyfrifoldebau ac amserlenni. Er bod rhwystrau i weithio amlasiantaethol effeithiol yn wahanol ddiwylliannau a blaenoriaethau proffesiynol, roedd diffyg dealltwriaeth a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau i'w weld. Canfu'r adolygiad hwn o lenyddiaeth rywfaint o dystiolaeth ategol o effeithiolrwydd hyfforddiant rhyng-broffesiynol (Sloper, 2004). Mae hyn yn rhoi cefnogaeth betrus i ddatblygu pecyn cymorth sydd â'r nod o wella ymatebion amlasiantaethol. Yn wir, comisiynwyd yr astudiaeth ymchwil gyfredol gan Ymchwil Gofal Iechyd Cymru er mwyn ychwanegu at y ddealltwriaeth gyffredinol o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru, nodi anghenion gwybodaeth a hyfforddiant gweithwyr proffesiynol a datblygu pecyn cymorth i wella ymatebion i gamfanteisio troseddol ar blant. Yn dilyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae'r ymchwil yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu fel bod lleisiau plant, rhieni a gweithwyr proffesiynol yn cael eu casglu ar gyfer yr adroddiad hwn, a gofynnir am eu barn ynghylch cynnwys y pecyn cymorth a'r broses o'i ledaenu. Y gobaith yw y bydd y pecyn cymorth yn grymuso gweithwyr proffesiynol i weithio gyda'r rhai sydd angen gofal a chymorth i nodi atebion priodol.

Gan ddefnyddio'r canfyddiadau a gyflwynwyd, mae angen dulliau ac ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau gwrthio a thynnu sy'n gwneud plant yn agored i gamfanteisio troseddol. Mae hyn yn cynnwys gwaith ataliol ar lefel plant a theuluoedd, newid yn y system i helpu a chynorthwyo plant a theuluoedd sy'n cael eu hecsbloetio neu sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio a mesurau cymunedol sydd â'r nod o ddarparu mannau a lleoedd diogel. Ar lefel plentyn, mae angen ystyried arferion cynnwys a gwahardd mewn ysgolion. Canfu adolygiad (Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant, 2020) o'r 21 o blant o 17 ardal leol yn Lloegr a fu farw neu a brofodd niwed difrifol yng nghydestun camfanteisio troseddol, fod gwahardd o'r ysgol yn gysylltiedig â chynyddu risg i blant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o gofio bod cyfradd y gwaharddiad o ysgolion yng Nghymru wedi dyblu rhwng 2014 a 2018 (Llywodraeth Cymru, 2019). Amlygodd yr ymchwiliad diweddar a gynhaliwyd i Addysg Heblaw yn yr Ysgol gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2020) yr angen i nodi anghenion yn gynnar i gynorthwyo plant i aros yn yr ysgol, dull cydgysylltiedig ac amserol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, ymagweddau ysgol gyfan at iechyd meddwl a llesiant plant, a chymorth i'r teulu cyfan. Mewn ymateb, dywedodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg (2021) y bydd swyddogion addysg yn gweithio mewn partneriaeth ag Uned Atal Trais Cymru i gysylltu data troseddau addysg er mwyn nodi dangosyddion agored i niwed. Er bod adolygiad y Panel Adolygu

Ymarfer Diogelu Plant (2020) wedi argymhell cymorth cofleidiol i blant sydd wedi eu gwahardd, mae Justice for Kids Law (Temple, 2020) wedi galw am roi terfyn ar wahardd plant sydd wedi cael eu hecsbloetio'n droseddol. Roeddent yn dadlau y gallai gwahardd o'r ysgol gosbi plentyn am gael ei ecsbloetio, yn hytrach na'i ddiogelu rhag niwed yn y dyfodol. Gan hynny, fel mae'r Pwyllgor Pobl Ifanc ac Addysg (2020) wedi honni, mae angen rhoi sylw i nodi a mynd i'r afael ag anghenion plant tra byddant yn yr ysgol. Gall hyn olygu bod angen hyfforddi athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill am gamfanteisio troseddol ar blant a thechnegau sy'n annog meithrin perthynas ac ymddiriedaeth gyda phlant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y diwylliant yn erbyn achwyn. Datgelodd canfyddiadau cyfweiliadau astudiaeth o blant a gweithwyr proffesiynol mewn bwrdeistref yn Llundain (Clayman and Skinns, 2012) nad yw plant yn cymryd rhan weithredol oherwydd anffanteisio negyddol o 'achwyn' sy'n deillio o ymddygiad a ddysgwyd gan gyfoedion a theulu, perthynas flaenorol a syniadau am gyfreithlondeb gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â'r potensial ar gyfer sgil-ffeithiau negyddol iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd. Mae hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb ar wasanaethau i greu mannau diogel i blant ddatgelu meithrin a chamfanteisio ac i weithwyr proffesiynol gynnig cymorth mewn modd amserol er mwyn creu adegau y gellir eu cyrraedd neu adegau allweddol pan fydd plant yn fwy tebygol o gael cymorth, hyd yn oed pan fyddant yn digwydd y tu allan i oriau swyddfa arferol (Panel Adolygu Ymarfer Plant, 2019).

Ar lefel y teulu, rhaid mynd i'r afael â heriau magu pobl ifanc ac effaith camfanteisio ar rieni a brodyr a chwiorydd. Mae hyn yn cynnwys y perygl cynyddol o gamfanteisio ar frodyr a chwiorydd iau ac mae'n tynnu sylw at yr angen am ddulliau teulu cyfan. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau gwerthusiad annibynnol Hudek (2018) o brosiect peilot llinellau sirol a gyllidir gan y Swyddfa Gartref yng Nghymru a Lloegr a ddangosodd fod angen ymyriadau effeithiol i roi cymorth i'r teulu ehangach, gan gynnwys brodyr a chwiorydd sy'n dyst i effaith camfanteisio troseddol ar blant sy'n aelodau o'r teulu. Roedd ymyriadau llwyddiannus yn cynnwys cefnogi teuluoedd i ddeall beth yw camfanteisio troseddol ar blant a gwella'r berthynas rhwng rhieni a phlant drwy eiriolaeth a chysylltu â gwasanaethau, lle bo'n briodol. At hynny, lle'r oedd teuluoedd wedi bod yn rhan o ddull teulu cyfan, roedd angen lleihau gwasanaethau'n raddol. Nodwyd, lle'r oedd yr holl wasanaethau a ddarparwyd yn cael eu tynnu'n ôl ar yr un pryd, fod risg uwch y byddai'r unigolyn ifanc yn cael ei ddenu'n ôl i ddelio cyffuriau. Yn wir, datgelodd y canfyddiadau y gallai plant ddefnyddio canabis fel ffordd o ymdopi ag effaith niweidiol camfanteisio troseddol ar eu llesiant emosiynol a seicolegol. Ac eto, gall hyn fod yn fachyn sy'n tynnu'r plentyn yn ôl i berthynas gamfanteisiol. Gan hynny, mae'r canfyddiadau wedi dangos bod angen gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chymorth iechyd meddwl arbenigol. I gydnabod y gall dod i gysylltiad â lefelau trais sy'n gysylltiedig â chamfanteisio troseddol arwain at straen wedi trawma (Windle, Ross a Coomber, 2020), dylid cynnwys mentrau fel Menter Gwella Ansawdd Straen Trawmatig Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru, 2021), mewn pecyn cymorth ar gyfer ymatebion i blant sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol. Mae'r fenter hon yn ddull system gyfan ar gyfer plant, plant ac oedolion sydd â phrofiad byw o anhwylder straen wedi trawma.

Ar lefel y system, datgelodd y canfyddiadau fod angen newid fel bod lleisiau plant a theuluoedd yn cael eu clywed a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Mae newid o'r fath yn gofyn am gynnwys niwed y tu allan i'r teulu mewn arferion amddiffyn a diogelu plant. Mae hefyd yn gofyn am ddull mwy cynnil o ymdrin â'r diffiniad o ddioddefwr a chyflawnwr (Olver a Cockbain, 2021), a newid meddylfryd lle gallai rhieni fod yn y sefyllfa orau i nodi pryd mae plentyn yn cael ei feithrin at ddibenion amhriodol a'i ecsbloetio. Er bod gwerth ac arwyddocâd yn perthyn i'r rôl mae asiantaethau'r trydydd sector yn ei gyfrannu at blant sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol ar hyn o

bryd, mae angen mwy o sylw i'r ddarpariaeth statudol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau hyblyg sydd â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r offer priodol i weithio gyda phlant a theuluoedd sy'n profi camfanteisio troseddol. Mae hyn yn gofyn am system wedi ei haddasu sy'n gallu gweithio gyda risg a niwed i bobl ifanc y tu allan i'r teulu. Yn ogystal, mae angen ystyried creu a chynnal mannau a lleoedd diogel i blant yn y gymuned ehangach. Mae angen mwy o sylw i'r modd mae'r modelau llinellau sirol yn dod i'r amlwg ac yn addasu o fewn cyd-destunau lleol fel y gellir defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu strategaethau atal a diogelu priodol.

9.0 Cyfeiriadau

Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Blant ac Oedolion sydd ar Ffo ac ar Goll. (2017). *Briefing report on the roundtable on children who go missing and are criminally exploited by gangs*. 26 Hydref 2017, Cyfrol 630, c.487.

Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan (2019). *Diogelu plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant*. <https://www.diogelu.cymru/chi/c6/c6.p1.html>.

Andell, P. a Pitts, J. (2017). *Preventing the Violent and Sexual Victimisation of Vulnerable Gang-Involved and Gang-Affected Children and Children in Ipswich*. Prifysgol Suffolk.

Arial, B., Sherman, L. W. a Newton, M. (2020). Testing hot-spots police patrols against no-treatment controls: Temporal and spatial deterrence effects in the London underground experiment. *Criminology*, 58 (1), 101-128.

Barnardos. (2014). *Guidance on child sexual exploitation, a practitioner's resource pack*. Ilford, UK.

Becker, G. (1968). Crime and punishment: an economic approach, *Journal of Political Economy*, 76(2), 169-217.

Black, C. (2020). *Review of Drugs: Executive summary*. Home Office, London.

Blakeburn, M. a Smith, R. (2020). Exploring the role of the British Transport Police in responding to 'County Lines' drug markets: Enforcement and safeguarding perspectives. *The Police Journal: Theory, Practice and Principles*, 1-18.

Bonning, J. a Cleaver, K. (2020). 'There is no "war on drugs": An investigation into county line drug networks from the perspective of a London borough, *The Police Journal*.

Bourdieu, P. (1985). The social space and the genesis of groups. *Social Science Information*, 24(2), 195-220.

Brewster, B., Robinson, G., Brotherton, V., Silverman, B., a Walsh, D. (2020). *The Impact of COVID-19 on child criminal exploitation: Interim research briefing*.

Caluori, J., Corlett, M. a Stott, J. (2020). *County lines and looked after children*. Crest Advisory, Llundain.

Chard, A. (2015). *Troubled Lives. Tragic Consequences: A thematic Review*. Bwrdd Diogelu Plant Tower Hamlets.

Chetwynd, H. a Pona, I. (2017) *Making connections, understanding how local agencies can better keep missing children safe*. Cymdeithas y Plant.

Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2020). *It was hard to escape: Safeguarding Children at Risk from Criminal Exploitation*.

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. (2021). *Llythyr at y Gweinidog Addysg*. Senedd Cymru. <https://busnes.senedd.cymru/documents/s114119/Llythyr%20at%20y%20Gweinidog%20-%2023%20Mawrth%202021.pdf>

Comisiynydd Plant Lloegr. (2019). Keeping kids safe. Improving safeguarding responses to gang violence and criminal exploitation. Chwefror 2019.

Cymdeithas y Plant. (2019). Counting Lives: Responding to children who are criminally exploited. Gorffennaf 2019.

Clarke, T. (2019). The characteristics of gang-associated children and children: Technical report: Chwefror 2019. Comisiynydd Plant Lloegr.

Clayman, S. a Skinns, L. (2012) To snitch or not to snitch? An exploratory study of the factors influencing whether young people actively cooperate with the police, *Policing and Society*, 22:4, 460-480.

Coomber, R. a Moyle, L. (2018). The Changing Shape of Street-Level Heroin and Crack Supply in England: Commuting, Holidaying and Cuckooing Drug Dealers Across 'County Lines', *The British Journal of Criminology*, 58(6), 1323–1342.

Cullen, P. (2021). Personal Communication.

Cullen, P., Dunworth, J., McNally, M. a Ford, S. (2020). *Criminal Exploitation/Serious Violence and County Lines – a national summary & emerging innovative practice – update 2019/20*. Uned Trais a Bregusrwydd.

Ellis, K. (2018) Contested Vulnerability: A Case Study of Girls in secure care. *Children and Youth Services Review*, 88, 156-163, 1-11.

Factor, F., Pitts, J. a Bateman, T. (2015). Gang involved children: Custody and beyond. Beyond Youth Custody, Nacro.

Feld, B. (1998). Juvenile and criminal justice systems' responses to youth violence. *Crime and Justice: An Annual Review*, 24, 189-261.

Finigan-Carr, N., Gielen, A., Haynie, D.L. a Cheng, T.L., 2016. Youth Violence. *Journal of Interpersonal Violence*, 31(19), 3257-3281.

Firmin, C. (2018) Contextual risk, individualised responses: an assessment of safeguarding responses to nine cases of peer-on-peer abuse, *Child Abuse Review*, 27(1), 42-57.

Firmin, C. (2019). Relocation, relocation, relocation: home and school-moves for children affected extra-familial risks during adolescence. *Children's Geographies*, 1-13.

Grierson, J. (2019). County lines': huge scale of £500m drug industry revealed. *The Guardian* [ar-lein]. 29 Ionawr 2019. <https://www.theguardian.com/society/2019/jan/29/county-lines-criminal-drug-networks-rapidly-expanding-national-crime-agency>

Harding, S. (2020a). *County Lines: Exploitation and drug dealing among urban street gangs*. Gwasg Prifysgol Bryste.

Harding, S. a Cracknell (2016). *Ending gang and youth violence programme: Independent review*. Home Office, London.

Harding, S. (2020b). *How gangs adapted to coronavirus – and why we may see a surge in violence as lockdown lifts*. The Conversation, <https://theconversation.com/how-gangs-adapted-to-coronavirus-and-why-we-may-see-a-surge-in-violence-as-lockdown-lifts-140653>.

Harding, S. a Cracknell, S. (2016). *Ending Gang Youth Violence Programme: Independent review*. Home Office, London.

Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi. (2020). *Both sides of the coin: An inspection of how the police and National Crime Agency consider vulnerable people who are both victims and offenders in 'county lines' drug offending*. Ar gael yn: <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/publications/both-sides-of-the-coin-county-lines/>.

Home Office (2018). *Criminal Exploitation of children and vulnerable adults: County Lines guidance* [ar-lein]. Great Britain. [Gwelwyd 15 Mawrth 2019]. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/741194/HOCountyLinesGuidanceSept2018.pdf

Hudek, J. (2018). *Evaluation of the County Lines Project* [ar-lein]. JH Consulting, St Giles Trust, Missing People. [Gwelwyd 15 Mawrth 2019]. Ar gael yn: <file:///C:/Users/user/Downloads/County%20Lines%20Demonstration%20Pilot%20-%20Evaluation%20Report%20May%202018%20designed.pdf>

Hughes, C. a Thomas, M. (2016) *"You can trust me..." Children going missing and at risk of, or abused through, child sexual exploitation in North Wales*, Cardiff: Barnardo's Cymru.

Hussein, S., M. Stevens, J. Manthorpe, a J. Moriarty. (2011). Change and Continuity: A Quantitative Investigation of Trends and Characteristics of International Social Workers in England. *British Journal of Social Work*, 41(6), 1140–57.

Hutchings, E., Browne, K. D., Shuhning, C. a Wade, K. (2019). Repeat missing child reports in Wales, *Child Abuse & Neglect*, 88, 107-117.

Innovation Unit (2019) *Community views on violence affecting children in Greater Manchester*. Ar gael yn <https://drive.google.com/file/d/17gU2UczVi-6Ba5QMyMKdxVJMYaAN0QZQ/view> (Darllenwyd Mawrth 2020).

Jakob, P. (2018) Multi-stressed families, child violence and the larger system: an adaptation of the nonviolent model. *Journal of Family Therapy*, 40, 25-44

Lefevre, M., Preston, O., Hickie, K., Horan, R., Drew, H., Banerjee, R., Cane, T., Barrow, M. a Bowyer, S. (2020). *Evaluation of the implementation of a Contextual Safeguarding system in the London Borough of Hackney. Evaluation report*. Yr Adran Addysg, Llundain

Malloch, M.S. a Burgess, C. (2011) Responding to Young Runaways: Problems of Risk and Responsibility. *Youth Justice*, 11(1), 61-76.

Maxwell, N. a Corliss, C. (2020). *A mapping and horizon scanning review of good practice in youth violence prevention*. CASCADE.

Maxwell, N., Wallace, C., Cummings, A., Bayfield, H. a Morgan, H. (2019). *A systematic map and synthesis review of Child Criminal Exploitation*. Panel Diogelu Cenedlaethol: Cymru.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Youth Justice Blueprint for Wales*. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Cymru.

Moyle, L. (2019). Situating vulnerability and exploitation in street-level drug markets: Cuckooing, commuting, and the “County Lines” drug supply model. *Journal of Drug Issues*, 49(4), 739–755.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2019). *Addysg heblaw yn yr ysgol*. Papur Briffio Ymchwil.

National Crime Agency (2019) *National Intelligence Assessment. County Lines Drug Supply, Vulnerability and Harm*. Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Llundain.

Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. (2017). *County Lines Violence, Exploitation and Drug Supply 2017 National Briefing Report*. Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Llundain.

Asiantaeth Genedlaethol Ieuencid. (2020). *Out of site? Vulnerable Children: COVID-19 Response*.

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru (n.p.) *Review of the findings and recommendations produced by Crest Advisory County Lines and Looked After Children*.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent. (2020). *Understanding the triggers: the correlation between vulnerability, criminality and exploitation of children*.

Olver, K. a Cockbain, E. (2021) Professionals' views on responding to county lines-related criminal exploitation in the West Midlands, UK. *Child Abuse Review*, 30, 347– 362.

Pepin, S. (2018). *County Lines Exploitation in London*. 15 Ionawr 2018. HC CDP-2018-0009. Prydain Fawr.

Rittel, H. W. a Webber, M. M. (1973). Dilemmas in a General Theory of Planning. *Policy sciences*, 4(2), 155-169.

Robinson, G. McLean, R. a Densley, J. (2019). Working County Lines: Child Criminal Exploitation and Illicit Drug Dealing in Glasgow and Merseyside. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, 63(5), 694–711

Shaw, J. a Greenhow, S. (2020). Children in Care: Exploitation, Offending and the Denial of Victimhood in a Prosecution-led Culture of Practice, *The British Journal of Social Work*, 50(5), 1551–1569.

Sloper, P. (2004). Facilitators and barriers for co-ordinated multi-agency services. *Child: Care, Health and Development*, 30(6), 571-580.

Smith, N. (2020) *Securing a brighter future: The role of youth services in tackling knife crime*. Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Droseddau Cyllyll a Lleihau Trais.

Smith, N. a Hughes, T. (2019) “*There is no protection on the streets, none.*” *Young people’s perspectives on knife crime*. Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Droseddau Cyllyll a Lleihau Trais.

Spencer, C., Griffin, B. a Floyd, M. (2019). *Vulnerable Adolescents Thematic Review*. Bwrdd Diogelu Croydon.

Spicer, J. (2021). Between gang talk and prohibition: The transfer of blame for County Lines. *International Journal of Drug Policy*, 87, 102667.

Steinberg, L. a Silverberg, S. (1986). The vicissitudes of autonomy in early adolescence. *Child Development*, 57, 841-851.

Storrod, M.L. a Densley, J.A. (2017) ‘Going viral’ and ‘Going country’: the expressive and instrumental activities of street gangs on social media, *Journal of Youth Studies*, 20(6), 677-696.

Sturrock, R. a Holmes, L., (2015). *Running the Risks: The links between gang involvement and children going missing*. Gorffennaf 2015. Catch 22. Missing People.

Temple, A. (2020). *Excluded, Exploited and Forgotten: Childhood Criminal Exploitation and School Exclusion*. Just for Kids Law, London.

Thomson, R., Bell, R., Holland, J., Henderson, S., McGrellis, S., a Sharpe, S. (2002) Critical Moments: Choice, Chance and Opportunity in Children’s Narratives of Transition. *Sociology*, 36(2), 335-354.

Turner, A., Belcher, A. a Pona, I. (2019). *Counting Lives: Responding to children who are criminally exploited*. Children’s Society, London.

Uned Trais a Bregusrwydd (2018). *County lines - a national summary and emerging best practice*. <https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/County%20Lines%20National%20Summary%20-%20Simon%20Ford%20WEB.pdf>.

Waddell, S. a Jones, N. (2018) Intervening early to prevent gang and youth violence: The role of primary schools. Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar.

Llywodraeth Cymru (2019) Datganiad cyntaf ystadegol: Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion yng Nghymru, 2017/18, Ystadegau ar gyfer Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2021). *Safeguarding Children from Child Sexual Exploitation*.

Whittaker, A. J., Cheston, L., Tyrell, T., Higgins, M. M., Felix-Baptiste, C. a Harvard, T. (2018). *From Postcodes to Profits: How gangs have changed in Waltham Forest*. Prifysgol South Bank Llundain.

Wigmore. J. (2018). *Recognising and acting on signs of 'county lines' child exploitation. A case study.* Niche Health and Social Care Consulting.

Williams, K. (2021). *Llythyr at yPwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Senedd Cymru.* <https://busnes.senedd.cymru/documents/s115143/Gohebiaeth%20gan%20y%20Gweinidog%20Addysg%20ynghylch%20ymchwiliad%20y%20Pwyllgor%20i%20addysg%20heblaw%20yn%20yr%20ysgol%2031%20Ma.pdf>

Windle, J. a Briggs, D. (2015). 'It's like working away for two weeks': The harms associated with young drug dealers commuting from a saturated London drug market. *Crime Prevention and Community Safety*. 17, 105–119.

Windle, J., Moyle, L. a Coomber, R. (2020). 'Vulnerable' kids going country: Children and young people's involvement in county lines drug dealing. *Youth Justice*, 20(1-2) 64 – 78

Wroe, L.E. (2021). Children and "county lines": a contextual and social account. *Journal of Children's Services*, 16(1), 39-55.

YMCA (2020). *Back on track: supporting young people out of lockdown.* YMCA, Llundain.

YMCA (2020). *Out of service: A report examining local authority expenditure on youth services in England and Wales.* Llundain.

Comisiwn Trais Ieuencid. (2018) *Interim report.* <http://yvcommission.com/interim-report/>



Awduron a Chyfranwyr:

Dr Nina Maxwell a Catrin Wallace

Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE),
Prifysgol Caerdydd, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (SOC SI), Prifysgol
Caerdydd

Mae partneriaeth CASCADE yn cael cyllid seilwaith gan Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:

CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant

Prifysgol Caerdydd
3 Maes yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3RL

CASCADE@caerdydd.ac.uk